

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU:
PWYLLGOR ARCHWILIO

ADRODDIAD 04-01 - Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Awst 2001 yn
unol ag adran 102(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

ESGEULUSTOD CLINIGOL YN Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL YNG NGHYMRU

CYNNWYS	Paragraff
Cyflwyniad	1
Cost esgeulustod clinigol i'r GIG	6
Gwybodaeth rheoli ynghylch esgeulustod clinigol	13
Lleihau amllder yr esgeulustod clinigol	30
Rheoli hawliadau	38
Argymhellion	51
Sylwadau i gloi	52

ATODIADAU

Atodiad A: Trafodion Perthnasol y Pwyllgor – Cofnodion y Dystiolaeth (Dydd Iau 8 Mawrth 2001 a Dydd Iau 3 Mai 2001)

Atodiad B: Llythyr dyddiedig 23 Mai 2001 oddi wrth David Edwards, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro

Atodiad C: Llythyr dyddiedig 25 Mehefin 2001 oddi wrth Ann Lloyd, Cyfarwyddwr NHS Cymru

Atodiad Ch: Llythyr dyddiedig 2 Gorffennaf 2001 oddi wrth Ann-Louise Ferguson, Cyfreithiwr Rheoli Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru

Atodiad D: Y Pwyllgor Archwilio

CYFLWYNIAD

1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ymchwiliad y Pwyllgor i esgeulustod clinigol yng Nghymru. Digwydd esgeulustod clinigol pan fo'r GIG yn methu â chyflawni ei ddyletswydd gofal i'r rhai sy'n derbyn triniaeth. Gall pobl sy'n ystyried eu bod wedi dioddef niwed oherwydd methu â chyflawni'r dyletswydd hwn wneud cais am iawndal a chostau yn erbyn y GIG. Yn 1999-2000, cyflwynwyd achosion o'r fath gan dros 700 o gleifion neu eu perthnasau. Mae cyfanswm yr iawndal sy'n daladwy pan fo hawliad yn llwyddiannus yn amrywio'n fawr, gyda'r amrediad yn mynd o lai na £1,000 i dros £3 miliwn.
2. Ar sail adroddiad a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru,¹ derbyniasom dystiolaeth gan rai â chyfrifoldeb drwy'r Cynulliad am ymdrin ag esgeulustod clinigol (yn cynnwys, felly, gynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych sy'n gyfrifol am Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru a Chronfa Risg Cymru). Mewn cyfarfod arall ar wahân cawsom dystiolaeth gan Brif Weithredwr ac uwch reolwyr perthnasol Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru, sef dwy o'r ymddiriedolaethau y gwnaeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ymweld â hwy yn ystod eu hadolygiad ar esgeulustod clinigol. Hoffwn gofnodi ein diolchiadau i'r holl dystion a ymddangosodd ger ein bron am yr agwedd adeiladol a fabwysiadwyd ganddynt. Yn benodol, hoffem gofnodi ein gwerthfawrogiad o'r cyfraniad a wnaed gan Ann Lloyd, Cyfarwyddwr NHS Cymru, a oedd wedi bod yn ei swydd am lai na thair wythnos pan ymddangosodd o'n blaenau.
3. Mae ein adroddiad yn canolbwyntio ar y pedwar prif faes a ddeilliodd o'r ymchwiliad:
 - cost esgeulustod clinigol i'r GIG:

¹ Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) *Esgeulustod Clinigol yn y GIG yng Nghymru*, a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 23 Chwefror 2001

- a oes gwybodaeth rheoli digonol ynghylch esgeulustod clinigol i ganiatáu i reolwyr ymdrin â'r broblem yn effeithiol;
 - y camau sy'n cael eu gweithredu i leihau'r tebygolrwydd y bydd achosion o esgeulustod clinigol yn digwydd; a
 - rheoli hawliadau.
4. Rydym yn trafod y pedair prif thema a amlinellir uchod yn eithaf manwl yn ein adroddiad. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein prif ganfyddiadau a'n casgliadau, ynghyd â nifer o argymhellion i'r Cynulliad ac Ymddiriedolaethau GIG i'w cynorthwyo i fynd i'r afael â'r cynnydd yn amllder a chost esgeulustod clinigol, a thrwy hynny ryddhau adnoddau ar gyfer gofalu am gleifion.
5. Mae'r Pwyllgor yn mynegi ei gydymdeimlad â'r rhai hynny sydd wedi dioddef yn sgil esgeulustod clinigol ac yn cadarnhau yr angen a'r hawl i'r bobl hynny dderbyn iawndal digonol. Dylid nodi, wrth geisio cwtogi cost esgeulustod clinigol, nad yw'r Pwyllgor yn ceisio lleihau'r iawndal a delir i ddioddefwyr ac nid yw wedi ystyried rhinweddau'r system iawndal. Nod argymhellion y Pwyllgor yw lleihau'r costau dynol ac ariannol drwy leihau nifer yr achosion o esgeulustod clinigol.

COST ESGEULUSTOD CLINIGOL I'R GIG

Costau cyfredol ac amcangyfrifon o'r costau yn y dyfodol

6. Ym mis Mawrth 2000, roedd 1,600 hawliad am esgeulustod clinigol honedig yn weithredol ('agored') yn erbyn y GIG yng Nghymru, yn cynrychioli cyfanswm potensial o fwy na £400 miliwn. Fodd bynnag, gall hawliadau gymryd nifer o flynyddoedd cyn y ceir penderfyniad ac ni fydd llawer ohonynt yn arwain at iawndal i'r hawliwr. Felly nid yw'r ffigwr hwn yn cynrychioli cost tebygol yr achosion esgeulustod clinigol hyn i'r GIG yng Nghymru yn y dyfodol.² Noda'r Archwilydd Cyffredinol mai amcangyfrif y gost i'r GIG o ran yr hawliadau gweithredol y mae

² Adroddiad ACC, paragraff 2.1

ganddynt siawns rhesymol o arwain at iawndal yw £111 miliwn fel a saif ym mis Mawrth 2000.³ Mae amcangyfrifon y costau potensial yn y dyfodol wedi cynyddu bedair gwaith drosodd yn ystod y pedair blynedd diwethaf.⁴

7. Mae'r amcangyfrif hwn o'r costau yn y dyfodol wedi ei seilio ar achosion o esgeulustod honedig lle mae hawliadau wedi'u gwneud yn unig; nid yw'n ystyried achosion lle na chyflwynwyd hawliad hyd yma, y cyfeirir atynt fel 'achosion sydd wedi digwydd ond na chafwyd adroddiad amdanynt eto'. Dywedodd Cyfarwyddwr NHS Cymru wrthym na allai hi fod yn sicr nad oedd unrhyw achosion anhysbys nad oeddynt wedi dod i'r amlwg eto. Fodd bynnag, o gofio bod mwyafrif yr hawliadau yn hysbys o fewn rhyw dair blynedd i'r digwyddiad, roedd hi'n hyderus ynglyn â chywirdeb rhagfynegiadau'r costau yn y dyfodol.⁵
8. Mae cost blynyddol esgeulustod clinigol (yr arian a delir bob blwyddyn gan y GIG) yn sylweddol hefyd. Yn 1999-2000 roedd yn £26.9 miliwn, cynnydd o 42 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r costau blynyddol yn debygol o amrywio o flwyddyn i flwyddyn, gan y gall y symiau iawndal amrywio'n sylweddol o ran maint.⁶ Roedd yn bleser gennym gael ardeall nad yw'r GIG wedi mabwysiadu'r arfer o ddefnyddio cymalau cyfrinachedd mewn setliadau, gan ein bod yn rhoi llawer o bwysigrwydd ar weithredu'n agored lle bynnag y bo modd o ran y ffordd y mae'r sector cyhoeddus yn ymdrin ag arian y trethdalwyr.⁷

Tuedd gynyddol y costau

9. P'un ai y mesurir costau esgeulustod clinigol yn nhermau taliadau ariannol blynyddol neu amcangyfrif maint y biliau yn y dyfodol, y maent wedi cynyddu bedair gwaith

³ Adroddiad ACC, paragraff 2.18

⁴ Adroddiad ACC, paragraff 2.23

⁵ Cwestiynau 9 - 10

⁶ Adroddiad ACC, paragraffau 2.5 a 2.21

⁷ Cwestiynau 62-64; Atodiad Ch

drosodd yn ystod y pedair blynedd diwethaf.⁸ Roedd y tystion o'r farn bod cyfuniad o ffactorau yn gyfrifol am y cynnydd mawr yma:

- mae nifer fawr o hawliadau hirhoedlog wedi cael eu setlo yn y blynyddoedd diwethaf;
- cynnydd yn y risg o ran gofal meddygol gan fod mwy o gleifion yn cael eu trin, mae'r mathau o driniaethau sydd ar gael yn awr yn fwy eang a chymhleth, a'r pwysau cynyddol ar y gwasanaeth iechyd yn gyffredinol, a
- chynnydd yn nhueddfryd y gymdeithas yn gyffredinol i gwestiynu'r gofal a dderbyniasant a chwilio am ddatrysiad cyfreithiol pan aiff pethau o le.⁹

10. Gofynasom i'r tystion a oeddynt yn credu y byddai'r cynnydd mawr yma yn y costau yn debygol o barhau. Roeddynt yn cytuno â barn yr Archwilydd Cyffredinol fod y costau'n debygol o barhau i gynyddu yn y tymor byr, oherwydd newidiadau diweddar i'r fframwaith gyfreithiol:

- diwygiadau Woolf sy'n berthnasol i'r llysoedd sifil, wedi'u hanelu at gyflymu cynnydd achosion, gan olygu y bydd achosion esgeulustod clinigol sy'n 'agored' yn awr yn cael eu penderfynu a'u setlo'n gyflymach, a
- phenderfyniad diweddar yn y Llys Apêl sy'n debygol o gynyddu'r costau sy'n daladwy mewn achosion i hyd at 30 y cant yn uwch na'r lefel bresennol.¹⁰

11. Cawsom ein sicrhau, fodd bynnag, fod y tystion yn ystyried fod y costau'n annhebygol o barhau i gynyddu wedi hynny. Y rhesymau am hyn yw'r gwelliannau yng ngweithdrefnau a methodoleg y GIG ar gyfer asesu risgiau, a'r ddirnadaeth nad yw nifer, yn hytrach na gwerth, yr hawliadau yn cynyddu.¹¹ Hefyd roedd yn galonogol clywed bod esgeulustod clinigol a'r hyn sy'n ei achosi yn flaenoriaeth uchel

⁸ Adroddiad ACC, paragraffau 2.21 a 2.23

⁹ Cwestiynau 12, 14, 95, 97 a 99

¹⁰ Adroddiad ACC, paragraff 2.25; Cwestiynau 17, 95 a 97

¹¹ Cwestiynau 14 a 154

iawn i'r Gyfarwyddiaeth GIG yn awr, ac i'r Ymddiriedolaeth GIG a ymddangosodd ger ein bron, er ein bod yn nodi fod un ymddiriedolaeth yn cymryd gofal i osod esgeulustod clinigol ochr yn ochr a nifer o flaenoriaethau eraill sy'n cystadlu â'i gilydd.¹²

12. O gofio cymhlethdod y pwnc hwn roedd yn ddefnyddiol iawn i ni gael cofnod cywir a manwl o wir gostau esgeulustod clinigol a rhagfynegiad o'r costau tebygol yn y dyfodol. Mae'n ein brawychu fod y costau hyn yn rhai sylweddol ac yn cynyddu'n gyflym, gan fod pob punt sy'n cael ei gwario ar ymdrin ag esgeulustod clinigol yn bunt yn llai ar gyfer gofal cleifion. Cytunwn fod peth o'r cynnydd yn debygol o ddeillio o newidiadau cymdeithasegol a datblygiadau cyfreithiol y tu hwnt i reolaeth y GIG, a chymrw'n beth cysur o'r ffaith fod y tystion o'r farn nad yw'r costau'n debygol o gynyddu ar y gyfradd bresennol. Ond mae maint y bil sy'n wynebu'r GIG o ran esgeulustod clinigol – dros £100 miliwn ym mis Mawrth 2000 – yn ei gwneud yn hanfodol bwysig fod y gwasanaeth yn ymdrin â'r broblem gynted ag y bo modd.
Argymhellwn fod y rheolwyr ar bob lefel yn monitro amllder a chost esgeulustod clinigol yn ofalus, gan wneud pob ymdrech i atal hawliadau o'r fath rhag tynnu'n ormodol oddi wrth yr adnoddau sydd ar gael.

GWYBODAETH RHEOLI YNGHYLCH ESGEULUSTOD CLINIGOL

13. O gofio i ba raddau mae'r broblem hon yn bodoli bellach, roedd yn syndod i ni gyn lleied o wybodaeth rheoli defnyddiol, hygyrch ynghylch esgeulustod clinigol sydd gan y GIG, ar lefel y Cynulliad a lefel yr ymddiriedolaethau. Adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol fod gan nifer o'r ymddiriedolaethau ffeiliau papur ynghylch hawliadau unigol, tra bo rhai ymddiriedolaethau yn methu darparu hyd yn oed y wybodaeth fwyaf sylfaenol i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, fel nifer a gwerth yr hawliadau yn eu herbyn ar hyn o bryd, neu ganlyniad yr hawliadau a benderfynwyd yn 1999-2000. Roedd yn arbennig o ofidus dysgu bod rhai ymddiriedolaethau yn

¹² Cwestiynau 3 a 92

amheus iawn ynghylch gwerth gwell gwybodaeth ynghylch hawliadau ar y sail fod pob achos yn wahanol.¹³

14. Nid oedd y tystion a ymddangosodd ger ein bron yn rhannu'r un teimladau sgeptig tuag at bwysigrwydd gwybodaeth rheoli da fel sail ar gyfer ymdrin ag esgeulustod clinigol. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y GIG yng Nghymru at welliannau mewn gwybodaeth rheoli fel mater pwysig iawn, ac esboniodd mai ei bwriad oedd datblygu fframwaith rheoli perfformiad a fyddai'n sicrhau casglu, defnyddio a rhannu gwybodaeth yn well ledled y wlad.¹⁴
15. Roedd yn amlwg fod ymddiriedolaethau GIG Caerdydd a'r Fro a Gogledd Ddwyrain Cymru hefyd yn sylweddoli pwysigrwydd casglu gwybodaeth briodol ynghylch esgeulustod clinigol i hysbysu'r broses rheoli.¹⁵ Roedd y ddwy ymddiriedolaeth yn gallu crybwyll sefyllfaoedd penodol lle roedd eu systemau monitro eu hunain wedi arwain at newidiadau mewn trefniadau clinigol:
 - Roedd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro wedi cyflwyno camau gweithredu adferol (sy'n cael eu hystyried fel yr arfer orau yn awr) i newid y ffordd y defnyddid pypiau chwistrell yn dilyn damwain ddifrifol, ac
 - yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru, dangosodd dadansoddiad tuedd o'r digwyddiadau yn dilyn cyflwyno darn newydd o offer bod cynnydd sylweddol yn nifer y nodwyddau'n sticio. Cafodd yr offer ei atal rhag ei ddefnyddio ledled yr Ymddiriedolaeth tra bo'r trefniadau cywir ar gyfer ei ddefnyddio a hyfforddiant i'r staff yn cael ei ddatblygu.¹⁶
16. Mae'r rhain yn enghreifftiau da o'r union fath o broses a ddylai fod yn arfer gyffredin ar draws Cymru, gan arwain at wasanaeth iechyd diogelach a gwell. Mae camau gweithredu adferol fel hyn, yn ogystal â lledaenu arfer dda, yn bosibl yn unig pan fyddant wedi'u seilio ar wybodaeth rheoli dda, a seiliwyd ar ddadansoddi cadarn, ac

¹³ Adroddiad ACC, paragraffau 3.8 a 3.43

¹⁴ Cwestiynau 2 a 38

¹⁵ Cwestiynau 111 a 112

nid yw hyn ar gael ar draws y GIG yng Nghymru. Rydym yn ategu teimladau Cyfarwyddwr NHS Cymru a ddywedodd, wrth fynegi ei phryder ynghylch diffyg gwybodaeth o'r fath: "without the basic tools in place, it is extraordinarily difficult to manage oneself out of a situation where one does not really know what is going on."¹⁷

17. Aeth Cyfarwyddwr NHS Cymru ymlaen i esbonio fod gan ei Chyfarwyddiaeth ddwy fenter yn mynd rhagddynt gyda'r nod o gynhyrchu gwybodaeth rheoli o ansawdd uwch ynghylch hawliadau drwy'r wlad. Caiff y rhain eu hystyried yn y paragraffau a ganlyn.

Y Gofrestr Colledion a Thaliadau Arbennig (Losses and Special Payments Register –LaSPaR)

18. Un o'r rhagofynion ar gyfer gwell gwybodaeth rheoli ynghylch hawliadau yw system gyfrifiadurol safonol ar gyfer cadw gwybodaeth o'r fath. Byddai system safonol drwy Gymru gyfan yn hwyluso cymariaethau rhwng ymddiriedolaethau, rhywbeth y cytunai'r tystion a fyddai'n ddefnyddiol iawn wrth ymdrin â'r mater.¹⁸
19. Mae'r Cynulliad wedi bod yn datblygu'r Gofrestr Colledion a Thaliadau Arbennig (a adwaenir fel LaSPaR). Cafodd ei sefydlu'n wreiddiol i gofnodi gwybodaeth ariannol yn unig ond bellach cafodd ei ehangu ac erbyn hyn gall gadw rhagor o fanylion, nad ydynt yn rhai ariannol, am yr achosion. Er y bwriadwyd i'r system newydd fynd yn 'weithredol' ym mis Ebrill 2000, bellach ni ddisgwylir y bydd hyn yn digwydd tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2001-02.¹⁹
20. Cawsom negeseuon cymysg iawn ynghylch rhinweddau LaSPaR gan y rhai fu'n cyflwyno tystiolaeth i ni. Roedd Cyfarwyddwr y GIG yn meddwl y byddai LaSPaR yn declyn defnyddiol iawn i alluogi ymddiriedolaethau i feincnodi eu hunain yn erbyn yr ymddiriedolaethau eraill.²⁰ Serch hynny, os yw'r ymddiriedolaethau a gyflwynodd

¹⁶ Cwestiynau 119 a 122

¹⁷ Cwestiynau 2 a 36

¹⁸ Cwestiynau 111 a 117

¹⁹ Adroddiad ACC, paragraffau 3.46 - 3.47; Cwestiwn 40; Atodiad C

²⁰ Cwestiwn 41

dystiolaeth yn gynrychioliadol o'r lleill, mae'n amlwg nad yw cymuned yr ymddiriedolaethau yn rhannu'r brwdfrydedd yma, gan eu bod wedi adrodd am beth gwrthwynebiad i LaSPaR gan eu sefydliadau eu hunain. Roedd y tystion o'r ymddiriedolaethau yn nodi tri prif rheswm am y gwrthwynebiad yma:

- nid yw'n gallu cyflawni'r rôl y mae gofyn iddo'i gyflawni yn awr, efallai oherwydd nad yw ei sail ariannol wreiddiol yn addas ar gyfer ei swyddogaeth ehangach, anariannol, fel teclyn ar gyfer rheoli risg;
- mae rhai ymddiriedolaethau'n pryderu am gyfrinachedd peth o'r wybodaeth a gofnodir, o ran y cleifion a'r proffesiwn meddygol; ac
- er gwaethaf yr anfanteision hyn, mae'r system yn cael ei orfodi ar yr ymddiriedolaethau.²¹

21. I'r gwrthwyneb, roedd ymddiriedolaethau GIG Caerdydd a'r Fro a Gogledd Ddwyrain Cymru yn cymeradwyo rhinweddau system amgen yr oeddynt yn gweithio ar ei gweithredu, sef SAFECODE. Datblygwyd y system hon (gan Brifysgol Strathclyde) mewn cydweithrediad â'r GIG yn benodol i gwrdd â'i anghenion. Dywedodd y tystion ei bod yn meddu ar y fantais ei bod yn galluogi dod â gwybodaeth ynghylch esgeulustod clinigol ynghyd gyda data cysylltiedig ynghylch cwynion a digwyddiadau andwyol, gan gynnig arbedion effeithlonrwydd wrth weinyddu yn ogystal â galluogi dysgu gwersi o'r holl gamgymeriadau a adroddwyd amdanynt, ac nid y rhai sy'n arwain at hawliadau cyfreithiol yn unig.²²
22. Nid ydym mewn sefyllfa i farnu rhinweddau cymharol y ddwy system, sef LaSPaR a SAFECODE. Fodd bynnag, gwyddwn, er mwyn i unrhyw system lwyddo y mae'n rhaid iddi fod 'ym mherchnogaeth' y rhai sy'n ei defnyddio; ac yn yr hinsawdd sydd ohoni mae'n annhebygol y bydd hyn yn wir yn achos LaSPaR. Ar y llaw arall, mae SAFECODE yn cael ei ddatblygu gan nifer fechan o'r 15 ymddiriedolaeth yng Nghymru, heb unrhyw gefnogaeth benodol gan y Cynulliad fe ymddengys. Mae'r

²¹ Cwestiynau 128 - 134

ddwy system yn deillio o seiliau gwahanol iawn, ac un dewis fyddai parhau â'r ddwy system, gan sicrhau y gallant gyfathrebu â'i gilydd. Y naill ffordd neu'r llall, os yw'r GIG i lwyddo i weithredu system safonol neu set o systemau cyfathrebu safonol ar gyfer cadw gwybodaeth bwysig ynghylch esgeulustod clinigol, mae'n amlwg fod llawer o waith i'r Gyfarwyddiaeth GIG yn y Cynulliad a'r ymddiriedolaethau i'w gyflawni. Gan weithio gyda'i gilydd, mae angen iddynt sefydlu beth yn union sy'n ofynnol a'r ffordd orau o ddiwallu'r angen, a hynny ar fyrder. **Argymhellwn fod y Gyfarwyddiaeth GIG a'r ymddiriedolaethau yn penderfynu, fel mater o flaenoriaeth, ar y wybodaeth rheoli ynghylch esgeulustod clinigol y maent am ei gofnodi mewn system genedlaethol, safonol, a nodi'r ffordd orau o ddiwallu'r angen hwn.**

Cronfa Risg Cymru – dadansoddiad o sampl o hawliadau

23. Mae gan y cyrff iechyd yng Nghymru drefniant i rannu costau dyfarniadau mawr drwy Gronfa Risg Cymru (Welsh Risk Pool), a weinyddir yn awr gan Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych. Mae pob ymddiriedolaeth ac awdurdod iechyd yn gwneud cyfraniad i'r Gronfa Risg, wedi'i seilio ar ei drosiant a'i hanes o ran hawliadau. Yna mae'r Gronfa Risg yn ad-dalu'r costau a ddaeth i ran y darparwyr ar yr holl hawliadau dros lefel benodol (£30,000 hyd at fis Medi 2000). Mae'r Gronfa Risg wedi ehangu ei rôl yn ddiweddar o rannu costau yn unig i wella rheolaeth risg a lledaenu arferion da, a thrafodir rhai agweddau ar hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.²³
24. Mae'r Gronfa Risg yn bwriadu gwella ei dealltwriaeth gyfredol o reoli hawliadau drwy ddadansoddiad manwl o oddeutu 20 hawliad y flwyddyn, gydag o leiaf un o bob ymddiriedolaeth yn cwmpasu amrediad o ddisgyblaethau meddygol. Y bwriad yw casglu gwybodaeth ar bob agwedd ar reoli hawliadau, o'r adeg y cyflwynwyd yr

²² Cwestiynau 111, 115 a 129

²³ Adroddiad ACC, paragraff 1.9

hawliad hyd at dalu unrhyw iawndal. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu gyda'r ymddiriedolaethau eraill i'w hysbysu a'u haddysgu.²⁴

25. Gofynasom i Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych, sydd â chyfrifoldeb rheoli dros y Gronfa Risg, a oedd sampl o 20 o achosion yn ddigonol, gan fod hynny'n cynrychioli ychydig dros un y cant o'r holl hawliadau 'agored' yn unig. Dywedodd mai eleni oedd y flwyddyn gyntaf yr ariannwyd y Gronfa Risg i gyflawni dadansoddiad o'r math yma a'u bod wedi penodi aelod staff ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith. Byddai nifer yr achosion a ddadansoddwyd yn cael ei werthuso ar ôl cyflawni'r set gyntaf o 20, a chynyddu'r nifer wedi hynny petai hynny'n angenrheidiol.²⁵
26. Mae hyn yn ddatblygiad a groesawn yn fawr. Serch hynny, mae ein amheuon yn parhau ynghylch a yw 20 achos yn sampl digon mawr er mwyn llunio casgliadau ystyrllon. O gofio'r diffyg gwybodaeth rheoli da mewn mannau eraill ynghylch hawliadau, byddai nifer yr hawliadau fyddai'n cael eu dadansoddi'n fanwl yn y modd y bwriedir yn elwa o fod mor niferus â phosibl. **Argymhellwn fod Cronfa Risg Cymru yn ystyried ehangu eu dadansoddiad manwl i fwy na'r 20 achos y flwyddyn a drefnwyd er mwyn sicrhau bod y sampl yn fwy cynrychioliadol o'r hawliadau a dderbyniwyd ac yn cwmpasu ystod mor eang â phosibl o weithdrefnau a disgyblaethau meddygol.**

Camgymeriadau ac eithrio rhai clinigol

27. Oherwydd y diffyg gwybodaeth rheoli ynghylch hawliadau, cynhyrchodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ei data ei hun drwy arolwg holiadur o'r 15 ymddiriedolaeth, ynghyd â dadansoddiad mwy manwl o sampl o hawliadau o'r pum ymddiriedolaeth y gwnaethant ymweld â hwy.²⁶ Mae gwaith Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn darparu enghreifftiau da o'r mewnweledigaethau i esgeulustod clinigol y gellir eu cael drwy well gwybodaeth rheoli, yn enwedig eu canfyddiadau am

²⁴ Adroddiad ACC, paragraff 3.49; Cwestiynau 43 a 44

²⁵ Cwestiwn 43

amllder camgymeriadau heb fod yn rhai clinigol fel ffactorau sy'n cyfrannu at hawliadau. Camgymeriadau gweinyddol neu gamgymeriad gyda'r system yw'r rhain yn hytrach na rhai yn ymwneud yn unig â phenderfyniadau clinigol (er nad yw hyn yn golygu nad yw camgymeriadau yn cael eu cyflawni gan glinigwyr). Gall yr achosion penodol sy'n sail i unrhyw un achos o esgeulustod clinigol fod yn gymhleth ac anodd i'w penderfynu. Canfu dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, mewn mwy na thraean o'u hawliadau sampl, bod camgymeriadau ac eithrio rhai clinigol wedi bod yn ffactor. Enghreifftiau o hyn yw diffyg dogfennu'r gweithdrefnau a gyflawnwyd, yn cynnwys cofnodion cleifion a phelydrau-X yn mynd ar goll, a chyfathrebu gwael, fel naw wythnos yn cael ei ddehongli fel naw diwrnod. Nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod cost hawliadau yn ymwneud â'r camgymeriadau gweinyddol hyn yn £4.2 miliwn yn 1999-2000.²⁷

28. Dywedodd Ymddiriedolaethau GIG Caerdydd a'r Fro a Gogledd Ddwyrain Cymru bod canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch amllder camgymeriadau o'r fath yn cael eu cadarnhau'n rhannol gan eu profiadau eu hunain, a chydabuwyd bod llawer o sgôp ar gyfer gwella yn y maes yma.²⁸ Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dangos y manteision potensial a fyddai'n deillio o gwtogi camgymeriadau o'r fath o draean, sy'n hafal i ymgyrredd arbedion ariannol o £1.4 miliwn yn 1999-2000. Roedd yr ymddiriedolaethau'n ochelgar rhag ymrwymo i ffigwr targed penodol, yn rhannol oherwydd yr amser mae'n gymryd i newid diwylliant sefydliadol.²⁹ Serch hynny, cytunodd Cyfarwyddwr y GIG fod gostyngiad o'r fath yn lefel rhesymol i anelu ato i ddechrau, gan nodi y byddai'n cymryd dwy flynedd cyn y byddai buddiannau unrhyw gamau gweithredu a weithredwyd yn awr yn dod i'r amlwg.³⁰ Credwn ninnau hefyd fod cwtogiadau fel hyn yn amllder y camgymeriadau ac eithrio rhai clinigol yn rhai y gellid ymgyrredd atynt, a dylent sicrhau arbedion ariannol gwerth eu cael. **Argymhellwn fod y GIG yn cymryd**

²⁶ Adroddiad ACC, paragraff 1.19

²⁷ Adroddiad ACC, paragraffau 3.22 - 3.25

²⁸ Cwestiynau 140 a 142

²⁹ Cwestiynau 144 a 147

³⁰ Cwestiwn 22

camau ymarferol i leihau amlder y camgymeriadau nad ydynt yn rhai clinigol. Dylai olrhain i ba raddau y mae'n llwyddo i leihau camgymeriadau o'r fath ac felly sicrhau arbedion ariannol, a dylai fabwysiadu'r targed o gwtogi amlder achosion o gamgymeriadau o'r fath o draen cyn pen dwy flynedd.

Argymhellwn hefyd fod y Gyfarwyddiaeth GIG yn monitro'r llwyddiant o ran y targed hwn.

29. Roedd y Pwyllgor yn falch o weld fod y GIG bellach yn cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth rheoli fel teclyn sylfaenol ar gyfer mynd i'r afael ag esgeulustod clinigol. Fodd bynnag, rydym yn parhau'n bryderus ynghylch pa mor araf mae'r newid yn digwydd. Tra bo rhai ymddiriedolaethau yn cymryd y camau sy'n angenrheidiol i gynhyrchu gwybodaeth dda ynghylch hawliadau yn eu sefydliadau eu hunain, nid yw hyn yn wir yn achos mwyafrif yr ymddiriedolaethau. Mae'n amlwg nad yw system safonol ar gyfer casglu data a fframwaith ar gyfer adrodd am achosion ledled y wlad yn mynd i gael ei sefydlu'n fuan. Hyd oni cheir system o'r fath, ni fydd yr ymddiriedolaethau mewn sefyllfa i asesu eu perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn, tra'n meincnodi yn erbyn ymddiriedolaethau eraill a dysgu gwersi. Felly rydym yn edrych i gyfeiriad y Cynulliad i gydweithio gydag ymddiriedolaethau i ddatblygu'r systemau sy'n cael eu ffafrio, a hynny ar fyrder.

LLEIHOU AMLDER YR ESGEULUSTOD CLINIGOL

30. Y ffordd fwyaf effeithiol o gwtogi costau esgeulustod clinigol yn sylweddol yw i leihau'r risg o ddigwyddiadau â photensial esgeulustod rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae rheoli risg, yn cynnwys risgiau yn ymwneud yn benodol ag esgeulustod clinigol, bellach yn rhan o faes ehangach rheolaeth glinigol, a fu'n ffocws cryn dipyn o sylw'r GIG yn ystod y blynyddoedd diwethaf.³¹ Hysbysodd Cyfarwyddwr y GIG ni am adolygiad rheolaeth glinigol yn yr holl ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd yng Nghymru a oedd yn tynnu tua'i derfyn yn awr. Esboniodd y byddai'r adolygiad yn

³¹ Adroddiad ACC, paragraff 4.1

sail ar gyfer llunio cynllun gweithredu, i'w gytuno arno gyda'r cyrff iechyd, a fyddai'n arwain at leihau'r risg clinigol yn y pen draw.³²

Safonau Rheoli Risg

31. Y cam allweddol a gymrwyd gan y GIG yn ystod y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael â'r risg o esgeulustod clinigol yw datblygu'r safonau rheoli risg gan Gronfa Risg Cymru. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â meysydd risg hysbys ac maent yn cynnwys set o bolisiau a gweithdrefnau y dylai ymddiriedolaethau gydymffurfio â hwyer mwyn isafu'r risg. Cynhaliwyd yr asesiad annibynnol cyntaf o lefel cydymffurfiaeth yr ymddiriedolaethau, o ran yr 16 safon a oedd wedi'u pennu bryd hynny, ym mis Medi 2000. Fel cymhellant i weithredu'r safonau, trefnwyd fod ymddiriedolaethau a oedd yn llwyddo i ymgyrraedd at lefel cydymffurfiaeth o 75% yn yr asesiad hwn yn cael gostyngiad o £5,000 yn eu tâl dros ben i Gronfa Risg Cymru ar gyfer pob hawliad llwyddiannus dros £30,000.³³
32. Dim ond pump o'r 15 ymddiriedolaeth a lwyddodd i ymgyrraedd at y meincnod cydymffurfiaeth o 75 y cant.³⁴ Esboniodd Cyfarwyddwr y GIG fod y meincnod wedi'i osod ar lefel heriol yn fwiadol, a'i fod o fewn cyrraedd rhai, ond nid y cyfan, o'r ymddiriedolaethau. Y bwriad oedd y byddai perfformiad yr ymddiriedolaethau yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn yn erbyn y safonau, gyda'r meincnod yn codi i gyfateb a hynny.³⁵ Roedd dwy o'r ymddiriedolaethau a gyflwynodd dystiolaeth ger ein bron wedi methu ag ymgyrraedd â'r targed o lefel cydymffurfiaeth o 75 y cant:
 - Dywedodd Ymddiriedolaethau GIG Siroedd Conwy a Dinbych wrthym eu bod wedi bod yn canolbwyntio ar gynlluniau achrediad eraill dros y flwyddyn flaenorol, a'u bod wedi bod o dan anfantais oherwydd eu bod wedi gorfod rhannu eu rheolwr risg gyda Chronfa Risg Cymru; a

³² Cwestiwn 2

³³ Adroddiad ACC, paragraffau 4.3 - 4.6

³⁴ Adroddiad ACC, paragraffau 4.8

³⁵ Cwestiynau 54 - 55

- Dywedodd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru mai'r rheswm am eu perfformiad gwael hwy oedd yr arafwch wrth ddechrau ar reoli risg yn gyffredinol, ynghyd â diffygion wrth hysbysu pob rhan o'r ymddiriedolaeth am y safonau.³⁶

Roedd y ddwy ymddiriedolaeth yma, yn ogystal ag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro a lwyddodd i gyflawni'r meincnod, yn cydnabod bod angen parhau i wella eu perfformiad, yn unol â nod y Gyfarwyddiaeth GIG o godi'r safonau yn barhaus.³⁷

33. Gwnaethom ofyn a oedd disgownt o £5,000 ar bob hawliad mawr yn gymhelliant digonol i ymddiriedolaethau ymlafnio tuag at gwrdd â'r lefel cydymffurfiaeth. Esboniodd Cronfa Risg Cymru ei bod yn anodd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng annog a chymell ymddiriedolaethau i wella heb eu hansefydlogi'n ariannol os oeddynt yn methu â chwrdd â'r meincnod. Hefyd nodwyd fod yr amser hir rhwng y digwyddiad a thalu'r iawndal yn gymhlethdod ychwanegol wrth wobrwyo arferion da o ran rheoli risg.³⁸ Ymhellach, roedd yr ymddiriedolaethau yn rhoi peth pwyslais ar yr amrediad o bwysau eraill, cystadleuol, yr oeddynt yn eu wynebu a'r rhwystrau diwylliannol mewn rhai ymddiriedolaethau gyda gweithredu yr hyn sy'n gallu cael eu hystyried fel mentrau newydd ac anghyfarwydd ('new-fangled').³⁹ Cyfeiriodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro at y dull cymell a gyflwynwyd yn Lloegr, lle ceir disgownt ar lefel y premiwm yn hytrach na thaliadau'r hawliadau.⁴⁰
34. Yn ein barn ni mae cyflwyno safonau rheoli risg yng Nghymru yn gam positif a phwysig tuag at ofal clinigol mwy dibynadwy ac felly leihad yn y tebygolrwydd y bydd digwyddiadau esgeulus yn digwydd. Er y pennwyd y meincnod cydymffurfiaeth o 75 y cant gan wybod nad oedd disgwyl i'r holl ymddiriedolaethau ymgyrraedd at hyn, ystyriwn fod canlyniadau'r asesiadau a gyflawnwyd yn 2000 yn rhai siomedig. Croesawn y ffaith fod yr ymddiriedolaethau a gyflwynodd dystiolaeth yn amlwg yn benderfynol o sicrhau eu bod yn cyrraedd y safon sy'n ofynnol a thu hwnt i hynny,

³⁶ Cwestiynau 69 a 186

³⁷ Cwestiynau 71, 187 - 189

³⁸ Cwestiynau 74 a 75

³⁹ Cwestiynau 195, 196 a 202

⁴⁰ Cwestiwn 190

ond ni chawsom ein hargyhoeddi fod y cymhelliant i'r holl ymddiriedolaethau wneud hyn yn ddigon cryf. **Argymhellwn fod Cronfa Risg Cymru yn ystyried sut i roi mwy o gymhelliant i'r ymddiriedolaethau unigol wella eu cydymffurfiaeth â safonau rheoli risg Cymru.**

35. Dangosodd canlyniadau'r asesiadau safonau rheoli risg bod tri maes lle roedd canlyniadau'r ymddiriedolaethau yn isel, sef cofnodion cleifion, goruchwyllo staff iau, a chyfathrebu. Mae'n arwyddocaol fod y safonau hyn yn cyfateb i'r camgymeriadau ac eithrio rhai clinigol y tynnwyd sylw atynt yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, gan danlinellu ei bwynt y gallai gwelliannau yn y meysydd hyn gael effaith uniongyrchol o ran lleihau'r achosion o esgeulustod, ac felly gwtogi'r gost.⁴¹ Felly rydym yn croesawu'r ffaith fod Cyfarwyddwr y GIG yn benderfynol o fynd i'r afael â'r materion hyn ar fyrder.⁴² Esboniodd tystion:

- ynglyn â **chofnodion cleifion**, mae amrywiaeth o gofnodion yn ymwneud â'r un claf wedi'u gwasgaru o gwmpas y wlad, mewn gofal cychwynol ac eilaidd ac, fel y cydnabyddir yn y cynllun newydd ar gyfer NHS Cymru, mae budd sylweddol i'w gael o symud i system o un cofnod electronig ar gyfer pob claf. Serch hynny, roedd rhai materion o ran cyfrinachedd y clinigwyr a chleifion yn parhau i fod angen eu datrys, ac mae'r buddsoddiad mewn technoleg gwybodaeth sy'n ofynnol yn sylweddol;⁴³
- ynglyn â **goruchwyllo staff iau**, mae canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) i'w dimau clinigol yn cynnwys pwyslais trwm iawn ar y testun yma yn awr;⁴⁴ a
- bod gwell **cyfathrebu**, rhwng clinigwyr a rhwng clinigwyr a chleifion, yn ganolog o ran gwella safonau clinigol. Esboniodd Cyfarwyddwr y GIG fod cyfathrebu yn fater diwylliannol a'u bod yn ymdrin â hyn drwy hyfforddiant, yn enwedig i'r uwch

⁴¹ Adroddiad ACC, paragraff 4.9

⁴² Cwestiwn 57

⁴³ Cwestiynau 57, 142, 148, 203 – 206; Atodiad C

⁴⁴ Cwestiwn 57

glinigwyr, er mwyn cyflwyno diwylliant o beidio â beio a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o unrhyw gamgymeriadau.⁴⁵ Roedd yn galonogol clywed fod yr ymddiriedolaethau yn cefnogi hyn, gan ychwanegu pwysigrwydd bod yn amyneddgar â'r rhai sydd wedi cael triniaeth feddygol, a'r angen i symud tuag at well ymwneud â'r cwsmer.⁴⁶

36. Mae pwysigrwydd bod yn barod i ddysgu o gamgymeriadau, yn cynnwys y rhai nad ydynt yn arwain at hawliadau esgeulustod clinigol, yn amlwg o'r gwaith ymchwil a ganfu fod damweiniau meddygol a digwyddiadau andwyol yn digwydd yn un o bob deg derbyniad ysbyty.⁴⁷ Roedd yn galonddid inni ddysgu fod gan yr holl ymddiriedolaethau systemau ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau andwyol bellach, sef un o'r safonau rheoli risg. Mae'r Gyfarwyddiaeth GIG yn cydweithio gyda Lloegr ar hyn o bryd ynghylch defnyddio'r un fath o gronfa ddata, gan y bydd system safonol yn caniatáu rhannu gwybodaeth ar raddfa ehangach.⁴⁸
37. Mae dadansoddiad yr Archwilydd Cyffredinol o'r camgymeriadau ac eithrio rhai clinigol yn dystiolaeth o'r manteision a fydd yn deillio o fynd i'r afael â safonau rheoli risg lle roedd cydymffurfiaeth yr ymddiriedolaethau'n isel. Cytunwn â'r tystion bod angen gwella safon cofnodion y cleifion ar fyrder ac felly rydym yn cefnogi bwriad y Cynulliad i symud tuag at un system gynhwysfawr gydag un cofnod electronig ar gyfer pob claf. Hefyd rhown bwysigrwydd mawr ar sefydlu diwylliant mwy agored, nad yw'n beio, o fewn y GIG, lle mae clinigwyr yn fodlon siarad yn agored â chleifion heb ofni cydnabod yr agweddau lle nad yw pethau wedi mynd gystal. **O gofio'r buddiannau disgwylidig, argymhellwn fod y Gyfarwyddiaeth GIG yn datblygu cofnodion electronig ar gyfer cleifion ar fyrder.**
38. Mae'n bwysig nad yw ymddiriedolaethau yn gweld cydymffurfio â safonau rheoli risg, er fod hynny'n ddymunol, fel nod ynddo'i hun. Byddwn hefyd yn disgwyl gweld lleihad yn amllder yr achosion o esgeulustod clinigol o ganlyniad i wella'r rheoli risg (er

⁴⁵ Cwestiynau 20 - 25

⁴⁶ Cwestiynau 181 - 182

⁴⁷ Adroddiad ACC, paragraff 4.13

ein bod yn cydnabod y cyfwng amser rhwng digwyddiad a setlo hawliad, y cyfeirir ato ym mharagraff 33 uchod), yn arwain at arbedion ariannol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi, petai deg y cant o gyfanswm yr iawndal a delid gan gyrff GIG yn 1999-2000 wedi'i arbed drwy well rheolaeth risg, byddai hyn wedi rhyddhau oddeutu £2.7 miliwn.⁴⁹ Roedd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych, sy'n gyfrifol am Gronfa Risg Cymru, yn anfoddog llunio cyfatebiaeth uniongyrchol rhwng gwella safonau rheoli risg ac arbedion ariannol o ran hawliadau.⁵⁰ Serch hynny, credwn ei bod yn bwysig fod canlyniad gwella rheoli risg, yn ogystal â lefelau cydymffurfiaeth, yn hysbys. **Felly argymhellwn fod y Gyfarwyddiaeth GIG yn pennu i ba raddau y mae cydymffurfio â safonau rheoli risg Cymru yn effeithio ar amllder yr achosion o esgeulustod clinigol.**

RHEOLI HAWLIADAU

39. O fewn ymddiriedolaethau, rheolwyr hawliadau sy'n gyfrifol am ymdrin â hawliadau – mae hyn yn tueddu bod yn swydd rhan amser yn yr ymddiriedolaethau llai. Nid yw'r rheolwyr hawliadau yn gyfreithwyr. Er y gall eu rolau a'u cyfrifoldebau amrywio, maent yn tueddu dibynnu ar Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru am gyngor cyfreithiol, a'u prif swyddogaeth yw trefnu gweinyddu'r ffeiliau a'r ohebiaeth rhwng cyfreithwyr, clinigwyr ac adrannau cyllid o ddydd i ddydd. Ar draws y GIG, prin iawn yw'r hyfforddiant ffurfiol a dderbyniodd rheolwyr hawliadau, a phrin iawn yw'r rheolwyr hawliadau sy'n meddu ar gymwysterau ffurfiol.⁵¹
40. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru yn darparu cyngor cyfreithiol i'r holl ymddiriedolaethau a'r awdurdodau iechyd, ac maent yn allweddol o ran rheoli hawliadau mewn deg o'r pymtheg ymddiriedolaeth. Fel Cronfa Risg Cymru, maent yn rhan o Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych. Fodd bynnag, telir eu costau yn uniongyrchol gan y Cynulliad, heb drosglwyddo'r costau i'r

⁴⁸ Cwestiynau 77 a 78

⁴⁹ Adroddiad ACC, paragraff 4.19

⁵⁰ Cwestiwn 73

⁵¹ Adroddiad ACC, paragraffau 3.3 - 3.5 a 3.7

ymddiriedolaethau hynny sy'n defnyddio eu gwasanaethau. O dan y trefniadau cyfredol, nid oes gan y Cynulliad dystiolaeth a yw Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru yn parhau i ddarparu gwerth am arian.⁵²

41. Mae'r croniant hawliadau 'agored' yn cynyddu ym mwyafrif yr ymddiriedolaethau ar adeg pan fo diwygiadau Woolf (paragraff 10) yn golygu y gellir rhoi cosbau ariannol ar ymddiriedolaethau sy'n methu â chwrdd ag amserlenni penodedig ar gyfer ymdrin â hawliadau.⁵³ Felly gofynasom i'r tystion a oedd gan yr ymddiriedolaethau ddigon o allu mewnlol a chefnogaeth gan y Cynulliad i ymdrin â'r llwyth gwaith hawliadau. Dywedodd Cyfarwyddwr y GIG y byddai angen mwy o arbenigedd rheoli hawliadau ar yr ymddiriedolaethau wrth i hawliadau ddod yn fwy cymhleth.⁵⁴ Felly roedd yn galonogol dysgu am y camau yr oedd yr ymddiriedolaethau a gyflwynodd dystiolaeth yn eu cymryd i sicrhau bod timau cryf yn bodoli ac i sicrhau rhagor o hyfforddiant iddynt, yn cynnwys yr hyfforddiant sy'n ofynnol i gyflymu'r broses hawliadau ac isafu'r risg o dderbyn cosbau ariannol oherwydd oedi. Rydym yn cefnogi'r holl gamau a gymrir gan ymddiriedolaethau i gynyddu eu gallu i reoli eu llwyth gwaith hawliadau yn effeithiol. Un budd potensial arall a allai ddeillio o reoli hawliadau mewn modd mwy rhyngweithiol fyddai mwy o ddefnyddio'r dulliau amgen o wneud iawn â chleifion sydd wedi dioddef esgeulustod, sy'n cael eu hystyried isod.
42. O ran delio â'r nifer gynyddol o hawliadau 'agored' sy'n cronni, mae Cronfa Risg Cymru wedi rhoi cyngor y dylai'r ymddiriedolaethau fod yn fwy rhyngweithiol o ran diddymu'r achosion lle na ragwelir y bydd unrhyw weithredu pellach.⁵⁵ Dywedodd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru fod sgôp iddynt ymdrin â'r mater hwn, ond mai nifer fechan o hawliadau o'r fath a oedd yn bodoli.⁵⁶ **Argymhellwn fod yr holl ymddiriedolaethau yn gweithredu ar gyngor Cronfa Risg Cymru i gau pen y mwdwl ar hawliadau lle nad yw rhagor o weithredu yn debygol.**

⁵² Adroddiad ACC, paragraffau 1.8 a 3.10 - 3.12

⁵³ Adroddiad ACC, paragraffau 3.40 a 3.41

⁵⁴ Cwestiwn 26

⁵⁵ Cwestiwn 47

43. Gofynasom i'r tystion o'r ymddiriedolaethau ynghylch ansawdd y gefnogaeth ganolog a ddarperir gan Gronfa Risg Cymru a Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru. Cadarnhaodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ei fod yn fodlon iawn â'r gefnogaeth a dderbynnir oddi wrth Gronfa Risg Cymru.⁵⁷ Tynnodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych sylw at y ffaith fod y penderfyniad terfynol o ran rheoli hawliadau yn nwylo'r ymddiriedolaeth dan sylw, ond ei fod yn hyderus y byddai dylanwad Cronfa Risg Cymru yn cynyddu.⁵⁸ Croesawn yr ehangu yma yn rôl Cronfa Risg Cymru o weinyddu trefniadau rhannu costau yn unig i gyfrannu'n rhyngweithiol i well rheolaeth risg.
44. O ran Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru, mae'r ymddiriedolaethau ledled Cymru wedi nodi eu fod yn fodlon â'r gwasanaethau cyfreithiol a dderbynniasant.⁵⁹ Roeddem yn falch o glywed tystion yn atgyfnerthu'r neges hon; roedd pob un yn ystyried bod Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru yn cynnig gwerth da iawn am arian, gan gymharu'r sefyllfa yng Nghymru yn ffafriol â'r un yn Lloegr (lle'r oedd gan bob un ohonynt brofiad o weithio), a chan gyfeirio at natur arbenigol gynyddol gwaith o'r fath.⁶⁰ Yn 1994, canfu astudiaeth fewnol gan y GIG fod Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru yn darparu gwell gwerth am arian na chwmnïau preifat.⁶¹ Serch hynny, rydym yn cefnogi ymdrechion y Cynulliad i sicrhau achrediad allanol i'r Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru, er mwyn sicrhau eu bod yn cydfynd â'r canllawiau cyfredol ac yn cydymffurfio â safonau Cymdeithas y Gyfraith.⁶²

Datrysiadau amgen

45. Mae achosion cyfreithiol yn ymwneud ag esgeulustod clinigol yn gostus ac yn cymryd amser. Mae gwaith ymchwil wedi dangos fod cleifion sy'n anfodlon â'u triniaeth mewn ysbyty yn fwy awyddus i dderbyn ymddiheuriad a sicrhau na wnaiff y

⁵⁶ Cwestiwn 155

⁵⁷ Cwestiwn 190

⁵⁸ Cwestiwn 46

⁵⁹ Adroddiad ACC, paragraff 3.13

⁶⁰ Cwestiynau 160 - 163 a 165

⁶¹ Adroddiad ACC, paragraff 3.11

⁶² Cwestiwn 28

camgymeriad ddigwydd eto yn hytrach na iawndal ariannol. Mae adroddiad Woolf o blaid ystyried dulliau eraill o ddatrys y sefyllfa, heb droi at y gyfraith, cyn ystyried achos llys.⁶³

46. Y ddwy ffordd amgen o ddatrys hawliadau yw canoli a thaliadau ex gratia. Canoli yw'r broses lle mae trydydd parti niwtral yn hwyluso trafodaethau a negodi rhwng y ddwy ochr yn yr anghydfod. Nid yw bob amser yn rhatach nag achos cyfreithiol, ac nid yw'n addas ymhob achos. Fodd bynnag, yn Lloegr, ers mis Mehefin 2000 mae Awdurdod Cyfreithiad y GIG wedi ei gwneud yn ofynnol i'r cyfreithwyr sy'n ymdrin â hawliadau gynnig canoli fel ffordd o gyrraedd datrysiad lle bynnag y bo'n briodol. Gellir defnyddio taliadau ex gratia mewn achosion lle cyfaddefir bod bai er mwyn darparu taliad eithaf prydlon i gleifion nad ydynt am ddilyn trywydd achos cyfreithiol (nid yw taliadau o'r fath yn atal achos cyfreithiol yn y dyfodol). Prin iawn y defnyddiwyd canoli na thaliadau ex gratia gan yr ymddiriedolaethau.⁶⁴
47. Gwnaethom ofyn i'r ymddiriedolaethau pam nad oeddynt wedi defnyddio mwy ar y dulliau amgen hyn. Dywedasant fod y gwrthwynebiad i ddefnyddio canoli yn tueddu dod o du cyfreithwyr y cleifion, a'u bod wedi canfod budd cyfyngedig yn unig o ddefnyddio canoli (yn wahanol i faes cwynion, lle'r oedd yn fwy priodol yn aml).⁶⁵ Dylai canlyniadau'r ymgyrch i gynyddu'r defnydd o ganoli yn Lloegr gael eu rhyddhau ym mis Mehefin 2001. Mae NHS Cymru yn aros am y canlyniadau hyn cyn asesu a ddylid rhoi mwy o bwyslais ar ganoli yng Nghymru.⁶⁶
48. Dywedodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro wrthym fod ei ymddiriedolaeth wedi defnyddio taliadau ex gratia ar nifer o achlysuron a'i fod wedi bod yn ddull llwyddiannus a chost effeithiol. Roedd Cyfarwyddwr y GIG yn cefnogi'r defnydd o daliadau ex gratia ar y sail ei fod yn osgoi'r broses gyfreithiol hirhoedlog a

⁶³ Adroddiad ACC, paragraffau 4.20 - 4.21

⁶⁴ Adroddiad ACC, paragraffau 4.24 - 4.27

⁶⁵ Cwestiynau 213 - 217

⁶⁶ Cwestiwn 82

drudfawr, er iddi gynnwys y sylw fod gan y gwasanaeth iechyd ei amheuo a yw taliadau o'r fath yn cynrychioli defnydd priodol o arian cyhoeddus.⁶⁷

49. Roedd y ddau Brif Weithredwr o'r farn fod pennu lefel uchafswm ar y swm o arian y gallent ei gynnig yn eu hatal rhag defnyddio taliadau ex gratia yn amlach. Wrth gyflwyno tystiolaeth ar lafar roeddynt yn credu mai'r ffigwr uchafswm oedd £1,000, ond mewn llythyr diweddarach at y Pwyllgor cywirodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro hyn gan nodi mai £1 miliwn yw'r trothwy.⁶⁸ Gallai'r camargraff syml hwn, os yw'n gyffredin drwy'r ymddiriedolaethau, fod wedi eu hatal rhag cynnig taliadau ex gratia i lawer o gleifion a oedd wedi dioddef esgeulustod clinigol. Mae'n peri pryder i ni rhag ofn fod hyn yn symptomatig o fethiant ymddiriedolaethau i dalu digon o sylw i sgôp taliadau ex gratia a datrysiadau amgen eraill.
50. Yn aml gall y dull cyfreithiol traddodiadol o ymdrin â hawliadau esgeulustod clinigol fod yn anfoddhaol – yn enwedig o ran faint o amser y gall gymryd. Felly rydym yn cefnogi unrhyw ddulliau eraill y gellir eu defnyddio i ddatrys digwyddiadau o esgeulustod clinigol i fodloni pawb sy'n ymwneud â'r mater. **Argymhellwn fod y Gyfarwyddiaeth GIG a'r ymddiriedolaethau yn parhau i ymchwilio i ffyrdd o uchafu'r defnydd o ddulliau amgen ar gyfer datrys hawliadau lle bo hyn yn cynrychioli gwell gwerth am arian i'r trethdalwr, o ystyried costau gweinyddol a chyfreithiol.**

ARGYMHELLION

51. Yn sgil y canfyddiadau a'r casgliadau hyn rydym yn argymhell:
- i) fod y rheolwyr ar bob lefel yn monitro amllder a chost esgeulustod clinigol yn ofalus, gan wneud pob ymdrech i atal hawliadau o'r fath rhag tynnu'n ormodol oddi wrth yr adnoddau sydd ar gael;

⁶⁷ Cwestiwn 81

⁶⁸ Cwestiynau 218 - 219; Atodiad B

- ii) fod y Gyfarwyddiaeth GIG a'r ymddiriedolaethau yn penderfynu, fel mater o flaenoriaeth, ar y wybodaeth rheoli ynghylch esgeulustod clinigol y maent am ei gofnodi mewn system genedlaethol, safonol, a nodi'r ffordd orau o ddiwallu'r angen hwn;
- iii) fod Cronfa Risg Cymru yn ystyried ehangu eu dadansoddiad manwl i fwy na'r 20 achos y flwyddyn a drefnwyd er mwyn sicrhau bod y sampl yn fwy cynrychioliadol o'r hawliadau a dderbyniwyd ac yn cwmpasu ystod mor eang â phosibl o weithdrefnau a disgyblaethau meddygol;
- iv) fod y GIG yn cymryd camau ymarferol i leihau amllder y camgymeriadau nad ydynt yn rhai clinigol. Dylai olrhain i ba raddau y mae'n llwyddo i leihau camgymeriadau o'r fath ac felly sicrhau arbedion ariannol, a dylai fabwysiadu'r targed o gwtogi amllder achosion o gamgymeriadau o'r fath o draen cyn pen dwy flynedd. Argymhellwn hefyd fod y Gyfarwyddiaeth GIG yn monitro'r llwyddiant o ran y targed hwn;
- v) fod Cronfa Risg Cymru yn ystyried sut i roi mwy o gymhelliant i'r ymddiriedolaethau unigol wella eu cydymffurfiaeth â safonau rheoli risg Cymru;
- vi) O gofio'r buddiannau disgwylidig, fod y Gyfarwyddiaeth GIG yn datblygu cofnodion electronig ar gyfer cleifion ar fyrder;
- vii) fod y Gyfarwyddiaeth GIG yn pennu i ba raddau y mae cydymffurfio â safonau rheoli risg Cymru yn effeithio ar amllder yr achosion o esgeulustod clinigol;
- viii) fod yr holl ymddiriedolaethau yn gweithredu ar gyngor Cronfa Risg Cymru i gau pen y mwdwl ar hawliadau lle nad yw rhagor o weithredu yn debygol; a
- ix) bod y Gyfarwyddiaeth GIG a'r ymddiriedolaethau yn parhau i ymchwilio i ffyrdd o uchafu'r defnydd o ddulliau amgen ar gyfer datrys hawliadau lle bo

hyn yn cynrychioli gwell gwerth am arian i'r trethdalwr, o ystyried costau gweinyddol a chyfreithiol.

SYLWADAU I GLOI

Mae esgeulustod clinigol yn y GIG yng Nghymru yn broblem ddifrifol. Nid yw'n dderbyniol fod dinasyddion Cymru sy'n defnyddio ein gwasanaeth iechyd yn wynebu'r risg o boen a dioddefaint dianghenraid, yn aml gyda chanlyniadau tymor hir difrifol. Mae costau esgeulustod clinigol yn cynyddu o hyd, gan leihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwella pobl. Dim ond yn gymharol ddiweddar y gwnaed unrhyw ymdrech wirioneddol tuag at ymdrin â digwyddiadau esgeulustod clinigol yng Nghymru. Mae'r GIG wedi dechrau symud i'r cyfeiriad cywir ond mae'r symud hwn wedi'i darfu'n ddifrifol gan ddiffyg gwybodaeth rheoli trylwyr a'r diwylliant caeedig sy'n parhau mewn rhai meysydd. Tra bo rhai camau positif wedi'u cyflwyno, fel datblygu safonau rheoli risg, a rhai arferion da wedi eu cyflwyno mewn ymddiriedolaethau unigol, mae rhai pryderon yn parhau ynghylch a yw'r GIG, hyd yn oed yn awr, yn ystyried hyn fel mater brys. Yn benodol, mae'r systemau ar gyfer casglu gwybodaeth berthnasol ynghylch hawliadau o bob rhan o Gymru a rhannu'r wybodaeth mewn ffordd strwythuredig yn mynd i gymryd cryn amser eto cyn eu datblygu'n llawn ac mae cydymffurfio â'r safonau rheoli risg yn parhau yn annerbyniol o isel. Mae'r amser y mae'n gymryd i hawliadau gael eu penderfynu yn golygu na fydd unrhyw welliannau a wneir yn awr yn amlygu eu hunain yn y system ar ffurf llai o daliadau am nifer o flynyddoedd.

52. Un pwynt terfymol yw bod angen sylweddoli mai buddiannau'r cleifion sy'n dod flaenaf. Mae gwneud camgymeriadau yn anhepgor ar adegau, ac ni chaiff esgeulustod clinigol fyth ei ddileu'n llwyr. Tra'n cydnabod y baich ariannol y mae setliadau hawliadau esgeulustod clinigol yn ei roi ar adnoddau'r GIG, rydym yn croesawu ac yn cefnogi'r ymrwymiad gan Gyfarwyddwr y GIG nad oedd yn rhan o'i strategaeth hi i amddifadu cleifion o'u hawliau cyfreitihol os na chyflawnir y dyletswydd gofal y mae ganddynt yr hawl iddo.⁶⁹

⁶⁹ Cwestiwn 13



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pwyllgor Archwilio

The National Assembly for Wales

Audit Committee

Esgeulustod Clinigol yn y GIG yng Nghymru

Clinical Negligence in the NHS in Wales

Cwestiynau (1-90)

Questions (1-90)

Dydd Iau 8 Mawrth 2001
Thursday 8 March 2001

Aelodau o'r Cynulliad yn bresennol: Janet Davies (Cadeirydd), Jocelyn Davies, Alison Halford, Lynne Neagle, Karen Sinclair, Dafydd Wigley.

Swyddogion yn bresennol: Syr John Bourn, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Gillian Body, Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru; Dave Powell, Swyddog Cydymffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Tystion: Sarah Beaver, Pennaeth Is-adran Cyllid yr NHS, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Ian Biggs, Rheolwr Cronfa Risg Cymru; Gren Kershaw, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth NHS Conwy a Sir Ddinbych; Ann Lloyd, Cyfarwyddwr NHS Cymru; Alison Walcot, Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru.

Assembly Members present: Janet Davies (Chair), Jocelyn Davies, Alison Halford, Lynne Neagle, Karen Sinclair, Dafydd Wigley.

Officials present: Sir John Bourn, Auditor General for Wales; Gillian Body, National Audit Office Wales; Dave Powell, Compliance Officer of the National Assembly for Wales.

Witnesses: Sarah Beaver, Head of NHS Finance Division, National Assembly for Wales; Ian Biggs, Manager of the Welsh Risk Pool; Gren Kershaw, Chief Executive of Conwy and Denbighshire NHS Trust; Ann Lloyd, Director of NHS Wales; Alison Walcot, Welsh Health Legal Services.

*Dechreuodd y cyfarfod am 2 p.m.
The meeting began at 2 p.m.*

[1] **Janet Davies:** Good afternoon. I welcome witnesses and members of the public to this evidence-taking session of the Audit Committee. The purpose of the meeting is to take evidence in connection with the National Audit Office report for the Auditor General of Wales, 'Clinigal Negligence in the NHS in Wales'. As Anne-Louise Ferguson of Welsh Health Legal Services is unable to attend, Alison Walcot is here instead. Will the witnesses introduce themselves?

[1] **Janet Davies:** Prynawn da. Croesawaf y tystion ac aelodau o'r cyhoedd i'r sesiwn derbyn tystiolaeth hwn o'r Pwyllgor Archwilio. Pwrpas y cyfarfod yw derbyn tystiolaeth mewn cysylltiad ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Esgeulustod Clinigol yn y GIG yng Nghymru'. Gan na all Anne-Louise Ferguson o Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru fod yn bresennol, mae Alison Walcot yma yn ei lle. A wnaiff y tystion eu cyflwyno eu hunain?

Mrs Lloyd: I am Ann Lloyd, the new director of the national health service in Wales.

Mrs Lloyd: Ann Lloyd wyf fi, cyfarwyddwr newydd y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru.

Mrs Beaver: I am Sarah Beaver, the head of the NHS Finance Division in the Assembly.

Mrs Beaver: Sarah Beaver wyf fi, pennaeth Isadran Cyllid yr NHS yn y Cynulliad.

Mr Kershaw: I am Gren Kershaw, chief executive of the Conwy and Denbighshire NHS Trust and member of the Welsh Risk Pool management group.

Mr Kershaw: Gren Kershaw wyf fi, prif weithredwr Ymddiriedolaeth NHS Conwy a Sir Ddinbych ac aelod o grwp rheoli Cronfa Risg Cymru.

Ms Walcot: I am Alison Walcot, of Welsh Health Legal Services.

Ms Walcot: Alison Walcot wyf fi, o Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru.

Mr Biggs: I am Ian Biggs, the manager of the Welsh Risk Pool.

Mr Biggs: Ian Biggs wyf fi, rheolwr Cronfa Risg Cymru.

[2] **Janet Davies:** I give a special welcome to Ann Lloyd as the new director of the NHS Directorate in the Assembly. I also welcome Barry Edgar and Terry Woodhouse from the Northern Ireland Audit Office, who are visiting us today. I hope that they will feel able to take something back to Northern Ireland from us today. I remind you all that you may speak in Welsh or English. Translation equipment is available for those who do not understand Welsh.

[2] **Janet Davies:** Rhoddaf groeso arbennig i Ann Lloyd fel cyfarwyddwr newydd Cyfarwyddiaeth yr NHS yn y Cynulliad. Croesawaf hefyd Barry Edgar a Terry Woodhouse o Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, sydd yn ymweld â ni heddiw. Gobeithiaf y byddant yn teimlo eu bod yn gallu mynd â rhywbeth yn ôl i Ogledd Iwerddon oddi wrthym ni heddiw. Fe'ch atgoffaf y cewch siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae offer cyfieithu ar gael i'r rhai nad ydynt yn deall y Gymraeg.

This is an important session and one for which we have all been waiting for a long time. I do not want to waste any time as it is important that we get down to business straight away. I will begin by asking Ann Lloyd a question. I am pleased that the Committee now has the chance to consider this issue and its impact on the NHS in some detail. We understand that the potential bill facing the NHS for claims open at March 2000 was over £100 million. That would be enough to run all the health trusts in Wales for over three weeks. I hope that the Auditor General's report marks a significant step in terms of the NHS addressing this problem. It is a matter of concern to all of us, since money spent on settling claims is money that could have been used for patient care. How do you intend to give a higher priority than you have in the past to dealing with what seems to be the intractable problem of clinical negligence?

Mae hwn yn sesiwn pwysig ac yn un yr ydym oll wedi bod yn ei ddisgwyl ers amser hir. Ni ddymunaf wastraffu amser o gwbl gan ei bod yn bwysig inni fwrw iddi ar unwaith. Dechreuaf drwy ofyn cwestiwn i Ann Lloyd. Yr wyf yn falch bod gan y Pwyllgor gyfle'n awr i ystyried y mater hwn a'i effaith ar yr NHS yn eithaf manwl. Deallwn fod y bil a allai wynebu'r NHS am hawliadau a oedd yn agored ym Mawrth 2000 yn fwy na £100 miliwn. Byddai hynny'n ddigon i redeg yr holl ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru am dros dair wythnos. Gobeithiaf fod adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn arwydd o gam pwysig o ran rhoi sylw i'r broblem hon gan yr NHS. Mae'n fater sydd yn peri pryder i bawb ohonom, gan fod arian a werir ar setlo hawliadau yn arian y gallesid bod wedi'i ddefnyddio ar gyfer gofal cleifion. Sut y bwriadwch roi blaenoriaeth uwch nag a wnaethoch yn y gorffennol i ymdrin â'r hyn a ymddengys yn broblem anhydrin o esgeulustod clinigol?

Mrs Lloyd: This is a really important report by the Auditor General. It gives the NHS a number of key levers for improving its

Mrs Lloyd: Mae hwn yn adroddiad gwirioneddol bwysig gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'n rhoi nifer o liferi

performance, not only in reducing risk but in managing the risk with which it is faced. 'Putting Patients First', published in 1998, placed a great deal of importance upon the governance of the clinical practice within Wales. That has been followed up by a strong statement in the new plan for the NHS in Wales. This, together with the new performance management programme which I am to institute as part of the implementation of the new plan, will give us all a better indication of the way in which the NHS is managing risk within its clinical services, how it is dealing with those risks and what it is doing to manage complaints from patients and their relatives much better. At the moment, a clinical governance review of all trusts and health authorities in Wales is drawing to a conclusion. It will report to me on the state of the management of risk and on clinical quality in Wales. From that I will draw up an action plan to talk through and debate with the individual trusts and health authorities to ensure that we get very good performance management standards and good monitoring mechanisms, so that we can assess progress towards a reduction in clinical risk.

allweddol i'r NHS i wella ei berfformiad, nid yn unig wrth leihau risg ond wrth reoli'r risg sydd yn ei wynebu. Yr oedd 'Rhoi Cleifion yn Gyntaf', a gyhoeddwyd yn 1998, yn rhoi pwys mawr ar lywodraethu arfer clinigol oddi mewn i Gymru. Dilynwyd hynny â datganiad cadarn yn y cynllun newydd ar gyfer yr NHS yng Nghymru. Bydd hyn, ynghyd â'r rhaglen rheoli perfformiad newydd y byddaf yn ei sefydlu fel rhan o weithrediad y cynllun newydd, yn dangos yn well i bawb ohonom y modd y mae'r NHS yn rheoli risg oddi mewn i'w wasanaethau clinigol, sut y mae'n trafod y risgiau hynny a'r hyn y mae'n ei wneud i reoli cwynion oddi wrth gleifion a'u perthnasau'n well o lawer. Ar hyn o bryd, mae adolygiad llywodraethu clinigol o'r holl ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd yng Nghymru yn tynnu at ei derfyn. Bydd yn adrodd i mi ar gyflwr rheoli risg ac ar ansawdd clinigol yng Nghymru. Ar sail hynny byddaf yn llunio cynllun gweithredu i'w drafod yn fanwl a dadlau yn ei gylch gyda'r ymddiriedolaethau a'r awdurdodau iechyd unigol i sicrhau y cawn safonau rheoli perfformiad da iawn a mecanweithiau monitro da, fel y gallwn asesu'r cynnydd tuag at leihau risg clinigol.

The second point that I would like to make is that running through this report is a real concern about an absence of information by which one can share practice and know what is happening, both in your own organisation and throughout Wales. That is of prime importance. The Auditor General has, very helpfully, pointed out ways in which the NHS could manage its information better and share it with others.

Yr ail bwynt yr hoffwn ei wneud yw bod pryder gwirioneddol yn rhedeg drwy'r adroddiad hwn ynghylch diffyg gwybodaeth y gellir rhannu arfer drwyddi a gwybod beth sydd yn digwydd, yn eich corff eich hun a ledled Cymru. Mae hynny o'r pwys mwyaf. Mae'r Archwilydd Cyffredinol, yn dra chymwynasgar, wedi nodi dulliau y gallai'r NHS reoli ei wybodaeth yn well drwyddynt a'i rhannu ag eraill.

The third theme is very much about the openness that is now a really important part of the way that we manage patients. We must be open and honest. We must clearly explain any risk that patients are likely to face when they come within our services, so that proper judgments can be made and so that we can provide better supervision of junior medical staff and other clinical staff and improve the information available both to them and our patients.

Mae'r drydedd thema'n ymwneud yn agos iawn â'r gweithredu agored sydd bellach yn rhan wirioneddol bwysig o'n dull o drafod cleifion. Rhaid inni fod yn agored ac yn onest. Rhaid inni esbonio'n glir unrhyw risg y mae cleifion yn debygol o'i wynebu pan ddônt o fewn ein gwasanaethau, fel y gellir gwneud dyfarniadau priodol ac fel y gallwn ddarparu gwell goruchwyliaeth ar staff meddygol iau a staff clinigol eraill a gwella'r wybodaeth sydd ar gael iddynt hwy ac i'n cleifion.

I think that there is a lot that we can do with the very helpful suggestions made in this report. Underpinning that must be a better performance management process than that

Credaf fod llawer y gallwn ei wneud gyda'r awgrymiadau defnyddiol iawn a roddir yn yr adroddiad hwn. Yn sylfaen i hynny rhaid cael gwell proses rheoli perfformiad na'r hyn a fu

we have had in the past.

gennym yn y gorffennol.

[3] **Janet Davies:** We will explore some of those issues further, particularly the second and third themes, later this afternoon. Can you give me some idea of the level of priority that you would see this as having? Clearly, there are many priorities in the national health service. What sort of importance would this particular issue have?

[3] **Janet Davies:** Byddwn yn archwilio rhai o'r materion hynny ymhellach, yn enwedig yr ail a'r drydedd thema, yn ddiweddarach y prynhawn yma. A allwch roi rhyw syniad imi o'r lefel o flaenoriaeth a rodddech i hyn? Mae'n amlwg bod llawer o flaenoriaethau yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Pa fath o bwys a roddid ar y mater arbennig hwn?

Mrs Lloyd: The NHS has a duty to care for the people it treats. It is of primary importance and an extremely high priority. Therefore, in determining the performance management standards on which I will be working with the service during the next year, I would place this in a very prominent position.

Mrs Lloyd: Mae dyletswydd ar yr NHS i ofalu am y bobl y mae'n eu trin. Mae o'r pwys mwyaf ac yn flaenoriaeth uchel iawn. Felly, wrth bennu'r safonau rheoli perfformiad y byddaf yn gweithio arnynt gyda'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf, rhoddwn le amlwg iawn i hyn.

[4] **Janet Davies:** Thank you. Dafydd Wigley will ask the next questions.

[4] **Janet Davies:** Diolch i chi. Dafydd Wigley fydd yn gofyn y cwestiynau nesaf.

[5] **Dafydd Wigley:** Yr wyf am droi at gost gynyddol esgeulustod clinigol. Mae

[5] **Dafydd Wigley:** I want to turn to the increasing cost of clinical negligence. The

crynodeb y cyfrifon yn dangos bod taliadau summary of accounts shows that the potensial iawndal am esgeulustod clinigol yn potential compensation payments for clinical Mawrth 2000 yn £111 miliwn. Nid yw'r negligence stand at £111 million in March ffigur hwnnw ond yn adlewyrchu'r achosion 2000. That figure only reflects those cases of hynny yr oedd y NHS yn ymwybodol which the NHS was aware. What about the ohonynt. Beth am y digwyddiadau hynny lle incidents for which a claim for compensation nad oedd cais am iawndal wedi dod i law had not been received when the accounts pan wnaethpwyd y cyfrifon? A allwch roi were drawn up? Can you give us an sicrwydd inni nad oes costau sylweddol assurance that additional substantial costs ychwanegol yn cuddio o dan yr wyneb? are not lurking under the surface?

[6] **Karen Sinclair:** Chair, the translation is not working.

[6] **Karen Sinclair:** Gadeirydd, nid yw'r cyfieithu'n gweithio.

[7] **Dafydd Wigley:** Shall I start again?

[7] **Dafydd Wigley:** A ddymunwch imi ddechrau eto?

[8] **Janet Davies:** My headset was working alright.

[8] **Janet Davies:** Yr oedd fy nghlustffon i yn gweithio'n iawn.

[9] **Dafydd Wigley:** Gofynnaf y cwestiwn eto. Yr wyf am ofyn am y digwyddiadau lle nad oedd cais am iawndal wedi dod i law pan wnaethpwyd y cyfrifon. A allwch roi sicrwydd inni nad oes costau sylweddol ychwanegol yn cuddio o dan yr wyneb a allai I will ask the question again. I want to ask about the incidents for which compensation claims had not been received when the accounts were drawn up. Can you give us an assurance that there are no substantial additional costs lurking under

achosi goblygiadau cyllidol o bwys i'r NHS yn y dyfodol?

the surface that could have important budgetary implications for the NHS in the future?

Mrs Lloyd: As you have seen from the report, the claims that take longest to settle are usually the most complex ones. That means that assessment of damage cannot be gauged until a considerable period of time has passed. However, the majority of claims are known about within the three-year period. I think that we have become much better, throughout the country, in assessing what compensation is likely to be paid and what the likelihood of settlement is. From the Auditor General's report I gained an indication that he was satisfied with the process that we are going through.

Mrs Lloyd: Fel y gwelsoch o'r adroddiad, yr hawliadau y cymerir yr amser hwyaf i'w setlo yw'r rhai mwyaf cymhleth fel rheol. Golyga hynny na ellir mesur yr asesiad o niwed hyd nes y bydd cryn amser wedi mynd heibio. Fodd bynnag, gwyddys am yr rhan fwyaf o'r hawliadau oddi mewn i'r cyfnod tair blynedd. Credaf inni ddod yn llawer gwell, ledled y wlad, wrth asesu pa faint o iawndal sydd yn debygol o gael ei dalu a'r tebygolrwydd o setlo. O adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, cefais arwydd ei fod yn fodlon ar y broses yr ydym yn mynd drwyddi.

Given that clinical risk management was not in an advanced state 10 to 15 years ago, one cannot ever be 100 per cent sure that there is nothing lurking and ready to spring out that might make our assessments inadequate. However, many of the unfortunate cases are already in our system, being managed and cared for. We know which cases those are and we can make an assessment, even if a

O ystyried nad oedd rheoli risg clinigol yn ddatblygedig 10 i 15 mlynedd yn ôl, ni ellir byth fod yn gwbl sicr nad oes dim yn cuddio ac yn barod i neidio allan a allai beri i'n hasesiadau fod yn annigonol. Fodd bynnag, mae llawer o'r achosion anffodus yn ein system eisoes, yn cael eu rheoli ac yn derbyn gofal. Gwyddom ba rai yw'r achosion hynny a gallwn wneud asesiad, hyd yn oed os na

claim has not yet been made. However, the vast majority would appear within the first five to 10 years because a claim—for the majority—must be made before the child is 18.

chyflwynwyd hawliad eisoes. Fodd bynnag, deuai'r rhan helaethaf ohonynt i'r golwg o fewn y pump i 10 mlynedd cyntaf oherwydd rhaid cyflwyno hawliad—yn achos y mwyafrif—cyn i'r plentyn gyrraedd 18 oed.

Therefore, I feel confident that we have accurately predicted the amounts that are outstanding, but we cannot be 100 per cent sure until our new risk management system and claims assessment system has run for the next three to four years.

Felly, teimlaf yn ffyddiog ein bod wedi rhagfynegi'r symiau sydd heb eu talu'n gywir, ond ni allwn fod yn gwbl sicr hyd nes y bydd ein system rheoli risg a'n system asesu hawliadau newydd wedi rhedeg am y tair i bedair blynedd nesaf.

[10] **Dafydd Wigley:** Byddaf am ddod yn ôl at hynny ychydig yn nes ymlaen, efallai. Fodd bynnag, cyn dod at y cwestiwn nesaf yr oeddwn am ei ofyn ichi—os caf bwyso arnoch—dim ond yr achosion lle mae cais wedi dod i law sydd wedi'u cynnwys yn y ffigur £111 miliwn? Nid oes unrhyw ychwanegiad o gwbl ar gyfer yr achosion y credwch y bydd cais yn dod i law, ond lle nad oes un wedi dod i law hyd yn hyn?

[10] **Dafydd Wigley:** I will want to return to that a little later on, perhaps. However, before coming on to the next question that I wanted to ask you—if I may press you—it is only those cases where a claim has been received that are included in the figure of £111 million? There is no additionality for those cases where you think a claim will be made but where one had not yet been made?

Mrs Lloyd: That is true. There is not a contingency for that yet.

Mrs Lloyd: Mae hynny'n wir. Nid oes darpariaeth ar gyfer hynny eto.

[11] **Dafydd Wigley:** Felly, uwchben y £111 miliwn, o reidrwydd fe fydd swm ychwanegol ar gyfer y cyfran o hawliadau sydd yn debyg o ddod i law, ond sydd heb ddod hyd yma?

Mrs Lloyd: Yes.

[12] **Dafydd Wigley:** Yn eich barn chi, pam mae cymaint o gynnydd yng nghost esgeulustod clinigol dros y blynyddoedd diwethaf?

Mrs Lloyd: I think that case law has increased lawyers' knowledge of the charges that can be vested against clinical incidents in the NHS. I think that people are much more aware of their rights, and therefore they will make claims. We also treat very many more patients than we did in the past. The type of cases that can now be treated in the NHS is much more extensive and complex than it was in the past. That is why risk assessment is so critical to us all. That is why there has been an increase. However, we have to try

[11] **Dafydd Wigley:** Therefore, on top of the £111 million, of necessity there will be an additional sum for the proportion of claims that are likely to be received, but which have not yet been received?

Mrs Lloyd: Bydd.

[12] **Dafydd Wigley:** In your opinion, why is there so great an increase in the cost of clinical negligence over recent years?

Mrs Lloyd: Credaf fod cyfraith achosion wedi cynyddu gwybodaeth cyfreithwyr am y cyhuddiadau y gellir eu dwyn mewn perthynas â digwyddiadau clinigol yn yr NHS. Credaf fod pobl yn llawer mwy ymwybodol o'u hawliau, ac felly byddant yn cyflwyno hawliadau. Yr ydym hefyd yn trin mwy o lawer o gleifion nag a buom yn y gorffennol. Mae'r math o achosion y gellir eu trin yn awr yn yr NHS yn llawer mwy eang a chymhleth nag yr oedd yn y gorffennol. Dyna pam y mae asesu risg mor allweddol i bawb

to obviate those claims that could be eliminated by changing our practice.

ohonom. Dyna pam y bu cynnydd. Fodd bynnag, rhaid inni geisio osgoi'r hawliadau hynny y gellid eu dileu drwy newid ein harfer.

[13] **Dafydd Wigley:** Os ydych yn cymryd camau i weithredu mewn modd sydd yn dileu'r rheswm sylfaenol dros unrhyw gais am esgeulustod, mae hynny i'w groesawu oherwydd ei fod yn well i'r claf. Fodd bynnag, a ydych hefyd yn ceisio lleihau'r hawl sydd gan y claf i wneud cais am iawndal? A yw hynny'n rhan o'r strategaeth?

[13] **Dafydd Wigley:** If you are taking steps to act in a way that abolishes the basic reason for any application for clinical negligence, that is to be welcomed because it is better for the patient. However, are you also trying to curtail the right of the patient to make an application for compensation? Is that part of the strategy?

Mrs Lloyd: No, we have a duty of care to our patients. They have a right to compensation if we have done anything, or if they have suffered any mistreatment or injury in our care.

Mrs Lloyd: Nac ydyw, mae arnom ddyletswydd gofal at ein cleifion. Mae ganddynt hawl i dderbyn iawndal os gwnaethom rywbeth, neu os cawsant unrhyw gamdriniaeth neu anaf o dan ein gofal.

[14] **Dafydd Wigley:** Mae'r ffigur sydd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dangos cynnydd o 400 y cant dros y pedair blynedd ddiwethaf. A ydych yn rhagweld y patrwm hwn o gynnydd yn parhau?

[14] **Dafydd Wigley:** The figure in the Auditor General's report shows an increase of 400 per cent over the past four years. Do you foresee that pattern of increase continuing?

Mrs Lloyd: No, I do not. In the past two

Mrs Lloyd: Nac ydwyf. Yn y ddwy flynedd

years a large number of very longstanding cases have been settled. With our better ways and methodologies of assessing risks, we should be very able to assess what the burden on the NHS purse will be in the future. The number of cases is not rising. So there is not an increasing trend in the number of cases. However, I have settled a very large number of very expensive cases, occurring at least 10 years ago, in the past year.

[15] **Dafydd Wigley:** O edrych arni felly, a'ch bod yn ymwybodol bod rhai o'r achosion drutaf wedi cael eu datrys yn ddiweddar, a ydych yn proffwydo y bydd lleihad yn y gost, os nad yn y nifer o achosion, dros y flwyddyn neu ddwy nesaf?

Mrs Lloyd: I think it would be prudent to go with the Auditor General's judgment on this, in terms of his assessment of what we have put in our books to meet the estimated cost of clinical negligence. I would go with his judgment.

[16] **Janet Davies:** Lynne, would you

diwethaf setlwyd nifer mawr o achosion hen iawn. Gyda'r dulliau a'r methodolegau gwell sydd gennym, dylem fod yn gymwys iwn i asesu'r baich a fydd ar bwrs yr NHS yn y dyfodol. Nid yw nifer yr achosion yn codi. Felly nid oes tuedd cynyddol yn nifer yr achosion. Fodd bynnag, setlais nifer mawr iawn o achosion drud iawn, a ddigwyddodd o leiaf 10 mlynedd yn ôl, yn y flwyddyn a aeth heibio.

[15] **Dafydd Wigley:** Looking at it from that angle therefore, and as you are aware that some of the most expensive cases have been solved recently, do you predict that there will be a reduction in cost, if not in the number of cases, over the next year or two?

Mrs Lloyd: Credaf mai doeth fyddai cyd-fynd â barn yr Archwilydd Cyffredinol ar hyn, o ran ei asesiad o'r hyn a roesom yn ein llyfrau i dalu cost amcangyfrifedig esgeulustod clinigol. Byddwn yn cyd-fynd â'i farn ef.

[16] **Janet Davies:** Lynne, a wnewch chi

continue on this line?

barhau ar y trywydd hwn?

[17] **Lynne Neagle:** The Auditor General's report states that the Woolf reforms, in the recent court of appeal ruling, will increase the total cost of claims in the short term. Have you discerned whether this has been the case so far?

[17] **Lynne Neagle:** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn datgan y bydd diwygiadau Woolf, yn y dyfarniad yn y llys apêl yn ddiweddar, yn cynyddu cyfanswm cost hawliadau yn y tymor byr. A welsoch a fu felly hyd yn hyn?

Mrs Lloyd: Not so far; we have no evidence to show that. However, if we are going for a much faster resolution of claims and alternative methods of looking at how to manage claims, it is likely that there will be a bulge in the settlement before it recedes again.

Mrs Lloyd: Nid hyd yn hyn; nid oes gennym dystiolaeth i ddangos hynny. Fodd bynnag, os ydym am geisio penderfynu hawliadau'n llawer cynt a chael dulliau eraill o ystyried sut i reoli hawliadau, mae'n debygol y bydd ymchwydd yn y setliad cyn iddo gilio eto.

[18] **Lynne Neagle:** Could I ask Alison Walcot what impact the court of appeal ruling to increase damages by up to 30 per cent will have on clinical negligence costs?

[18] **Lynne Neagle:** A gaf ofyn i Alison Walcot am yr effaith a gaiff dyfarniad y llys apêl i gynyddu iawndal o hyd at 30 y cant ar gostau esgeulustod clinigol?

Mrs Walcot: It will have some impact on general damages, but it will have little impact on small claims. The 30 per cent increase in general damages applies to larger claims. It

Mrs Walcot: Caiff rywfaint o effaith ar iawndal cyffredinol, ond ychydig o effaith a gaiff ar hawliadau bach. Mae'r 30 y cant o gynydd mewn iawndal cyffredinol yn

is a tapered percentage and so it will have little impact on smaller claims.

ymwneud â hawliadau mwy. Mae'n ganran daprog ac felly ni chaiff lawer o effaith ar hawliadau llai.

[19] **Lynne Neagle:** When the health authorities are abolished in April 2003, who will take over the responsibility for managing the claims that are outstanding against them?

[19] **Lynne Neagle:** Pan ddi-ddymir yr awdurdodau iechyd yn Ebrill 2003, pwy fydd yn ymgymryd â chyfrifoldeb dros reoli'r hawliadau sydd ar ôl yn eu herbyn?

Mrs Lloyd: That question has not yet been addressed but I will be able to provide you with an answer in the next three months, when the structural task and finish group that I chair will report. However, the last time there was any change in legislation to the bodies governing the NHS, liability tended to stay with those that had incurred the liability or their successor. That is one of the matters that we will be considering. I am sorry that I cannot give you detail on that today.

Mrs Lloyd: Ni wynebwyd y cwestiwn hwnnw eto ond byddaf yn gallu rhoi ateb i chi yn y tri mis nesaf, pan fydd y grwp gorchwyl a gorffen strwythurol yr wyf yn gadeirydd arno yn adrodd. Fodd bynnag, y tro diwethaf y bu unrhyw newid mewn deddfwriaeth i'r cyrff sydd yn rheoli'r NHS, yr oedd tuedd i'r atebolrwydd aros gyda'r rhai a oedd wedi cael yr atebolrwydd neu eu holonydd. Dyna un o'r materion y byddwn yn eu hystyried. Mae'n ddrwg gennyf na allaf roi manylion i chi ar hynny heddiw.

[20] **Janet Davies:** We now move on to the second section, on how claims are managed. I address my questions to you, Mrs Lloyd. The Auditor General found that a third of clinical negligence claims involved

[20] **Janet Davies:** Awn ymlaen yn awr at yr ail adran, ynghylch y dull o reoli hawliadau. Cyfeiriaf fy nghwestiynau atoch chi, Mrs Lloyd. Canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod un rhan o dair o hawliadau

errors that were not related to clinical judgment or skill, and that such errors cost the NHS £4.2 million in 1999-2000. Before this report came out, to what extent was it recognised that poor records and communication were such a contributory factor?

Mrs Lloyd: I think that throughout the NHS in general there has been rising concern about the number of complaints and claims received that have arisen from poor record keeping and poor communication. In my discussions next week with the chief executives of the health authorities and trusts, in conjunction with the Welsh Risk Pool standards, I shall draw their attention to the necessity of ensuring that the breaking of bad news improves and ensuring good communication between patients and their clinical providers. That is absolutely essential and we would wish to see an improvement in it. In addition, we wish to take forward the standard of record keeping to ensure that medical records do not get lost or are inadequately completed.

Much of that is being addressed in terms of junior medical and nursing training with changes in the year five curriculum to ensure that the very junior doctors understand the importance of communicating with patients and to ensure that they have a number of methods through which they can impart information and have a true discussion with patients. We should really avoid those problems. That is one of the key challenges that the NHS will face in the next couple of years. Patients have a right to expect that we can communicate with them well and manage their medical records competently.

[21] **Janet Davies:** You mentioned the issue of reporting claims. In the *British Medical Journal* last week it was pointed out that this was very important and that it was difficult to persuade staff to report claims. One trust was mentioned where the threat of disciplinary measures had been

esgeulustod clinigol yn ymwneud â chamgymeriadau nad oeddent yn ymwneud â barn neu fedr clinigol, a bod camgymeriadau o'r fath wedi costio £4.2 miliwn i'r NHS yn 1999-2000. Cyn i'r adroddiad hwn ddod i law, i ba raddau y gwelwyd bod cofnodion a chyfathrebu gwael yn ffactor a oedd yn cyfrannu cymaint?

Mrs Lloyd: Credaf fod pryder cynyddol wedi bod drwy'r NHS yn gyffredinol ynghylch nifer y cwynion a'r hawliadau a dderbyniwyd sydd yn ganlyniad i gadw cofnodion gwael a chyfathrebu gwael. Yn fy nhrafodaethau'r wythnos nesaf gyda phrif weithredwyr yr awdurdodau iechyd a'r ymddiriedolaethau, mewn cysylltiad â safonau Cronfa Risg Cymru, byddaf yn tynnu eu sylw at yr angen i sicrhau gwelliant wrth dorri newyddion drwg a sicrhau cyfathrebu da rhwng cleifion a'u darparwyr clinigol. Mae hynny'n gwbl hanfodol a dymunwn weld gwelliant yn hynny. At hynny, dymunwn yrru ymlaen â safon cadw cofnodion er mwyn sicrhau na fydd cofnodion meddygol yn cael eu colli neu eu cwblhau'n annigonol.

Ymddiriedolaethau'n annigonol. Dyna un o'r heriau allweddol y bydd yr NHS yn eu hwynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae gan gleifion hawl i ddisgwyl y gallwn gyfathrebu â hwy'n dda a thrafod eu cofnodion meddygol yn fedrus.

[21] **Janet Davies:** Soniasoch am fater adrodd am hawliadau. Yn y *British Medical Journal* yr wythnos diwethaf nodwyd bod hyn yn bwysig iawn a'i bod yn anodd darbwylllo staff i adrodd am hawliadau. Crybwyllwyd un ymddiriedolaeth lle y codwyd y bygythiad o gamau disgyblu. Mae'n

raised. Clearly that would not be the best of ways to address it. Have you any ideas about how you would propose to address that particular issue?

Mrs Lloyd: In my experience it is a matter of culture. We have an ideal opportunity now with the reform of the complaints procedures within the NHS, to instil a culture of no blame and ensure that adverse clinical incidents are properly recorded and managed and dealt with so that we learn from them and do not just blame people so that they therefore start to cover up, which is human nature. I think that as part of the NHS complaints reform, we must give guidance to the service and training to its staff on how to institute a no-blame culture so that there is a rise in the reporting of incidents that occur during everyday life on wards and in the community. We can then act on them properly. If you do not know what is happening you cannot possibly train people to avoid it reoccurring in the future.

[22] **Janet Davies:** The Auditor General refers to reducing the incidence of what he calls 'non-clinical errors' by a third. Do you think that is a reasonable level of reduction to aim for and when do you think you might manage to achieve it, bearing in mind that people suffer from errors?

Mrs Lloyd: I think that it is reasonable as a start. Obviously, if we are going to place a very high priority on this important area it will probably take, if most claims come in within two years, two years to see the benefits of it. Nevertheless, in the meantime, I will be carefully monitoring the chief executives' actions within their trusts and the health authorities to ensure that better communication is part of the training programme and that they pay real attention to it. In addition, they must improve, with the Welsh Risk Pool assessors, the standard of record keeping. Therefore, I think that it is a good start and I would hope to better it in the future.

[23] **Karen Sinclair:** I would like to follow up on your observations about record keeping and communications, and how

amlwg nad hynny fyddai'r dull gorau o ymdrin â hyn. A oes gennych unrhyw syniadau ynghylch y modd y bwriadwch ymdrin â'r mater arbennig hwnnw?

Mrs Lloyd: O'm profiad i mae'n fater o ddiwylliant. Mae gennym gyfle delfrydol yn awr gyda diwygio'r gweithdrefnau cwynion oddi mewn i'r NHS, i feithrin diwylliant o beidio â bwrw bai a sicrhau y caiff digwyddiadau clinigol adfydus eu cofnodi a'u rheoli a'u trafod yn briodol fel ein bod yn dysgu oddi wrthynt ac nid yn bwrw'r bai ar bobl yn unig fel eu bod felly'n dechrau cuddio bai, sydd yn rhan o'r natur ddynol. Fel rhan o'r diwygiad ynghylch cwynion yn yr NHS, credaf fod yn rhaid inni roi arweiniad i'r gwasanaeth a hyfforddiant i'w staff ynghylch y modd i sefydlu diwylliant o beidio â bwrw bai fel bod cynnydd yn yr adrodd am ddigwyddiadau sydd yn digwydd yn ystod bywyd bob dydd yn y wardiau ac yn y gymuned. Wedyn gallwn gymryd camau priodol yn eu cylch. Os na wyddoch beth sydd yn digwydd, nid oes modd o gwbl ichi hyfforddi pobl i'w atal rhag digwydd eto yn y dyfodol.

[22] **Janet Davies:** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyfeirio at leihau mynychder yr hyn a eilw'n 'gamgymeriadau anghlinigol' o un rhan o dair. A gredwch fod hynny'n lefel resymol o ostyngiad i anelu ati a pha bryd y credwch y gallech lwyddo i'w chyrraedd, o gofio bod pobl yn dioddef oherwydd camgymeriadau?

Mrs Lloyd: Credaf ei fod yn rhesymol fel man cychwyn. Wrth gwrs, os byddwn yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i'r maes pwysig hwn bydd yn cymryd dwy flynedd yn ôl pob tebyg, os daw'r rhan fwyaf o hawliadau i mewn o fewn dwy flynedd, i weld yr enillion oddi wrth hynny. Er hynny, yn y cyfamser, byddaf yn monitro'n ofalus y camau y mae'r prif weithredwyr yn eu cymryd oddi mewn i'w hymddiriedolaethau a'r awdurdodau iechyd i sicrhau bod gwell cyfathrebu'n rhan o'r rhaglen hyfforddi a'u bod yn rhoi sylw gwirioneddol iddo. Ar ben hynny, rhaid iddynt wella safon cadw cofnodion, gydag aseswyr Cronfa Risg Cymru. Felly, credaf fod hyn yn ddechrau da a gobeithiwn ragori arno yn y dyfodol.

[23] **Karen Sinclair:** Hoffwn ddilyn trywydd eich sylwadau am gadw cofnodion a chyfathrebu, ac mor hanfodol ydyw

imperative it is that these are done properly in order to get a historical view of what has gone on. You mentioned how imperative it is that that is a part of nursing and medical training. What will you do to address the training needs of existing staff, such as nurses who are now on the wards, who will need that training? Will it also be a part of some sort of induction course for nurse returners? gwneud y rhain yn iawn er mwyn cael golwg hanesyddol ar yr hyn a ddigwyddodd. Soniasoch mor hanfodol ydyw i hyn fod yn rhan o hyfforddiant nyrsio a meddygol. Beth a wnewch i roi sylw i anghenion hyfforddi'r staff presennol fel nyrsys sydd yn y wardiau ar hyn o bryd, y bydd arnynt angen yr hyfforddiant hwnnw? A fydd hefyd yn rhan o ryw fath o gwrs cyflwyno i rai sydd yn dychwelyd i nyrsio?

Mrs Lloyd: That is an extremely good suggestion. I would expect that all staff have a responsibility to keep up-to-date, and that the employer has a responsibility to give them the time and encouragement to do so. The importance of good communications and good record keeping is now part of the professional responsibility. Many good things have been done, within and without Wales, to train existing staff to communicate well and to keep their records well. However, to ensure that that improvement is being effected, we need to continuously audit whether or not the message has sunk in and whether there is real change.

Mrs Lloyd: Mae hynny'n awgrym da iawn. Disgwyliwn fod cyfrifoldeb gan yr holl staff i fod yn ymwybodol o'r arfer diweddaraf, a bod gan y cyflogwr gyfrifoldeb i roi'r amser a'r anogaeth iddynt wneud hynny. Mae pwysigrwydd cyfathrebu da a chadw cofnodion da yn rhan o'r cyfrifoldeb proffesiynol bellach. Gwnaethpwyd llawer o bethau da, yng Nghymru a thu hwnt i Gymru, i hyfforddi'r staff presennol i gyfathrebu'n dda a chadw eu cofnodion yn dda. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod gwelliant yn digwydd, mae angen inni archwilio o hyd i ganfod a yw'r neges wedi gwneud argraff neu beidio ac a oes newid gwirioneddol.

[24] **Alison Halford:** Hello, Mrs Lloyd. I am sure that this Committee wishes you well

[24] **Alison Halford:** Helô, Mrs Lloyd. Yr wyf yn sicr bod y Pwyllgor hwn yn

in the difficult job that you have in front of you. I will pick up on Karen's theme of communication. It is fine to train junior staff, but from previous experience, I know that you can train the youngsters and then put them into the canteen culture of those who do not believe in training. How will you handle the perceived arrogance of the senior clinicians?

Mrs Lloyd: I think that, in my experience, I have found that what senior clinicians, and all clinicians, find most difficult is breaking bad news and giving bad messages. Many trusts throughout the country are now having mandatory training programmes for their clinicians, once they are no longer juniors, on breaking bad news and communicating with patients. I think that that is very important. I have found that most clinicians are very receptive to it. It is clear from the General Medical Council that communicating well with patients and what should be done about that is now part of the professional responsibility. That has been an important message from the General Medical Council. Therefore, I would expect to be seeing from the trusts what arrangements they are making to ensure that their clinical colleagues can

Mrs Lloyd: O'm profiad i, credaf imi ddarganfod mai'r hyn y mae clinigwyr hyn, a'r holl glinigwyr, yn ei chael yn fwyaf anodd yw torri newyddion drwg a rhoi negeseuon drwg. Mae llawer o ymddiriedolaethau ledled y wlad bellach yn cynnal rhaglenni hyfforddi gorfodol i'w clinigwyr, wedi iddynt beidio â bod yn glinigwyr iau, ar dorri newyddion drwg a chyfathrebu â chleifion. Credaf fod hynny'n bwysig iawn. Cefais fod y rhan fwyaf o glinigwyr yn barod iawn i'w dderbyn. Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi rhoi ar ddeall bod cyfathrebu'n dda â chleifion a'r hyn y dylid ei wneud ynghylch hynny yn rhan o'r cyfrifoldeb proffesiynol bellach. Yr oedd hynny'n neges bwysig oddi wrth y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Felly, disgwyliwn i'r ymddiriedolaethau ddangos y trefniadau y

match the GMC's expectation.

maent yn eu gwneud i sicrhau y gall eu cydweithwyr clinigol gyflawni disgwyliad y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

[25] **Janet Davies:** I will pick up on one thing that Alison said. There is clearly a difference between communicating with patients and communicating well with patients. There was a time when, perhaps, patients were told very little, and sometimes, perhaps, they are told things rather too briskly and openly. Will you take that on board as well?

[25] **Janet Davies:** Dilynaf un o'r pethau a ddywedodd Alison. Mae'n amlwg bod gwahaniaeth rhwng cyfathrebu â chleifion a chyfathrebu'n dda â chleifion. Yr oedd adeg pan ddywedid ychydig iawn wrth gleifion, efallai, ac weithiau, efallai, dywedir pethau wrthynt braidd yn rhy swta ac agored. A ydych yn derbyn hynny hefyd?

Mrs Lloyd: Yes. That is vital. You are quite right to make that distinction. As clinicians are now required to work in teams much more than previously, I would expect the whole team to address the issue of communication with patients, because it is no longer a question of one doctor sitting in front of one patient. It is a question of the whole team understanding what care it can provide to that patient and listening to the patient's needs as well.

Mrs Lloyd: Ydwyf. Mae hynny'n holl bwysig. Yr ydych yn llygad eich lle yn gwahaniaethu felly. Gan ei bod yn ofynnol yn awr i glinigwyr weithio mewn timau i raddau llawer mwy nag o'r blaen, disgwyliwn i'r tîm cyfan roi sylw i fater cyfathrebu â chleifion, oherwydd nid yw'n fater o un meddyg yn eistedd o flaen un claf bellach. Mae'n fater o'r tîm cyfan yn deall pa ofal y gall ei roi i'r claf hwnnw a gwranddo ar anghenion y claf yn ogystal.

[26] **Lynne Neagle:** The number of claims

[26] **Lynne Neagle:** Mae nifer yr

in Wales is rising, yet claims managers in trusts have had relatively little formal training. What are you doing to ensure that trusts, and in particular, claims managers, are properly equipped to handle a growing workload?

hawliadau yng Nghymru ar gynydd, ac eto cymharol ychydig o hyfforddiant ffurfiol a gafodd rheolwyr hawliadau mewn ymddiriedolaethau. Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod ymddiriedolaethau, ac yn enwedig rheolwyr hawliadau, yn gymwys fel y dylent fod i drafod baich gwaith cynyddol?

Mrs Lloyd: They are a vitally important resource. As you can see from the Auditor General's report, the workload is growing. Many are part time, and few have had training. I am grateful to the Welsh Risk Pool for addressing that problem vigorously by establishing its Risk Managers Network and by putting on good quality training courses for them. I think that the network will be important in terms of sharing experience and enabling them to provide support to each other. I would expect, as claims become more complex, and as we move towards suggestions about arbitration and non-litigious ways of managing claims in the future, that we will need to have more claims management experience in each organisation.

Mrs Lloyd: Maent yn adnodd holl bwysig. Fel y gallwch weld o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, mae'r baich gwaith yn cynyddu. Mae llawer yn rhan amser, ac ychydig ohonynt sydd wedi'u hyfforddi. Yr wyf yn ddiolchgar i Gronfa Risg Cymru am ymdrin yn egniol â'r broblem honno drwy sefydlu ei Rhwydwaith Rheolwyr Risg a drwy gynnal cyrsiau hyfforddi o ansawdd da ar eu cyfer. Credaf y bydd y rhwydwaith yn bwysig o ran rhannu profiad a'u galluogi i gynorthwyo'i gilydd. Byddwn yn disgwyl, wrth i'r hawliadau fynd yn fwy cymhleth, ac wrth inni symud tuag at awgrymiadau am gyflafareddu a dulliau anghyfreithgar o reoli hawliadau yn y dyfodol, y bydd angen inni gael rhagor o brofiad o reoli hawliadau ym mhob corff.

[27] **Lynne Neagle:** Welsh Health Legal Services effectively has a monopoly on providing legal advice to trusts and since the Assembly has now decided to fund Welsh Health Legal Services directly, it falls to us to ensure that it provides good value for money. The report states that Welsh Health Legal Services is currently seeking a system of self-assessment or accreditation. Could you tell us what that involves and when the system will be in place?

[27] **Lynne Neagle:** Mae gan Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru fonopoli i bob pwrpas ar roi cyngor cyfreithiol i ymddiriedolaethau a chan fod y Cynulliad bellach wedi penderfynu ariannu Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru'n uniongyrchol, ein lle ni yw sicrhau ei fod yn rhoi gwerth da am arian. Dywed yr adroddiad fod Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru yn chwilio ar hyn o bryd am system hunanasesu neu achredu. A allech ddweud wrthym beth y mae hynny'n ei olygu a pha bryd y bydd y system ar waith?

Mrs Lloyd: I will ask Mr Kershaw to answer that because he could provide you with more details, if that is acceptable, Chair?

Mrs Lloyd: Gofynnaf i Mr Kershaw ateb hynny oherwydd gallai roi mwy o fanylion i chi, os yw hynny'n dderbyniol, Gadeirydd?

[28] **Janet Davies:** Yes, that is fine.

[28] **Janet Davies:** Ydyw, mae hynny'n iawn.

Mr Kershaw: We are concerned that we get good value for money and quality from Welsh Health Legal Services. I think that the report points out that, in 1994, we undertook a pilot scheme using a private set

Mr Kershaw: Mae'n bwysig i ni ein bod yn cael gwerth da am arian ac ansawdd gan Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru. Credaf fod yr adroddiad yn nodi ein bod, yn 1994, wedi ymgymryd â chynllun peilot gan

of lawyers to look after claims from a particular part of Wales, which happened to be Mid Glamorgan. The outcome of that work suggested that, for approximately twice the cost, there was no discernible difference in the outcome of the cases that were handled, albeit that it is particularly difficult to be clear about the quality of outcomes. We have considered whether the service should be put out to tender, but at the moment we are going down the road of accrediting Welsh Health Legal Services. We recently put out to tender for organisations to examine the service, and I am pleased to say that that contract has been awarded and will start very shortly. The details are that this organisation will come in to look at the practices within Welsh Health Legal Services to ensure that they are up-to-date and conform to what are called 'lexcel standards', which are promoted by the Law Society.

In addition to that, part of the review of the claims that we are undertaking in Wales will involve looking at 20 cases from their origin, including the risk management, through to the claims coming through, how they were

ddefnyddio set breifat o gyfreithwyr i ofalu am hawliadau o ran arbennig o Gymru, sef Morgannwg Ganol fel yr oedd yn digwydd. Yr oedd canlyniad y gwaith hwnnw'n awgrymu, am tua dwywaith y gost, nad oedd unrhyw wahaniaeth canfyddadwy, yng nghanlyniad yr achosion a drafodwyd, er ei bod yn arbennig o anodd bod yn bendant ynghylch ansawdd canlyniadau. Yr ydym wedi ystyried a ddylid gosod y gwasanaeth ar dendr, ond ar hyn o bryd yr ydym yn dilyn llwybr achredu Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru. Yn ddiweddar gosodasom dendr i gyrff i archwilio'r gwasanaeth, ac yr wyf yn falch o ddweud bod y contract hwnnw wedi'i ddyfarnu ac y bydd yn dechrau'n fuan iawn. Y manylion yw y bydd y corff hwn yn dod i mewn i edrych ar yr arferion oddi mewn i Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru i sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn cydymffurfio â'r hyn a elwir yn 'safonau *lexcel*', a hyrwyddir gan Gymdeithas y Gyfraith.

Yn ogystal â hynny, bydd rhan o'r adolygiad o'r hawliadau yr ydym yn ymgymryd ag ef yng Nghymru yn golygu edrych ar 20 o achosion o'u dechreuad, gan gynnwys y rheolaeth risg, hyd at yr adeg pan fydd yr

handled, and what the outcomes were. Part of that review will be to consider the legal advice that we got half way through the process. We are going to set up a peer group review to look at how we manage those claims, so we are being intrusive in the approach that Welsh Health Legal Services is taking.

hawliadau'n dod drwodd, sut y trafodwyd hwy, a beth oedd y canlyniadau. Rhan o'r adolygiad hwnnw fydd ystyried y cyngor cyfreithiol a gawsom hanner ffordd drwy'r broses. Byddwn yn sefydlu adolygiad grwp cymheiriaid i edrych ar y modd yr ydym yn rheoli'r hawliadau hynny, felly yr ydym yn ymwithiol o ran y dull gweithredu y mae Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru yn ei ddilyn.

[29] **Lynne Neagle:** I would like to ask Alison Walcot how confident she is that Welsh Health Legal Services' systems are working well and provide value for money.

[29] **Lynne Neagle:** Hoffwn ofyn i Alison Walcot pa mor ffyddiog ydyw hi fod systemau Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru'n gweithio'n dda ac yn rhoi gwerth am arian.

Ms Walcot: I think that the answer to that would be that we are very confident at the moment.

Ms Walcot: Credaf mai'r ateb i hynny fyddai ein bod yn ffyddiog iawn ar hyn o bryd.

[30] **Karen Sinclair:** The Auditor General reports that claims are taking, on average, four and a half years from the date of the incident to settlement. That is quite a long time is it not? The Woolf reforms now impose a faster procedure for dealing with

[30] **Karen Sinclair:** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn adrodd bod hawliadau, ar gyfartaledd, yn cymryd pedair blynedd a hanner o ddyddiad y digwyddiad hyd at eu setlo. Mae hynny'n gyfnod eithaf hir, onid yw? Mae diwygiadau Woolf bellach yn

claims. What steps have you taken to ensure that the NHS will be able to meet these timetables and that claimants will receive their compensation more promptly?

Mrs Lloyd: As you know from the Auditor General's report, claimants will take up to two years before making a claim, so that is two years gone. I am not yet sure how I can reduce those two years, but certainly through our patients' forum, we will explore how people might make their claims or concerns known earlier. In terms of the rest of the time that it takes, that is very much vested in a much slicker handling of the risk and claims management systems. That is where the training and development that we give the risk managers and other staff in the trust comes in. The training should explain their role clearly and ensure that we are not bogged down in bureaucratic processes. It should also ensure that when an incident has been reported, all the clinical information that we will need in order to assess whether or not a claim has any justification can be gathered at a much earlier stage so that people can receive recompense at an earlier stage, if it is proven that they are entitled to

gorfodi gweithdrefn gyflymach ar gyfer trafod hawliadau. Pa gamau a gymerasoch i sicrhau y bydd yr NHS yn gallu cwrdd â'r amserlenni hyn ac y bydd hawlwyf yn derbyn eu hiawndal yn fwy prydlon?

Mrs Lloyd: Fel y gwyddoch o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, gall hawlwyf gymryd hyd at ddwy flynedd cyn cyflwyno hawliad, felly dyna ddwy flynedd wedi mynd. Nid wyf yn sicr eto sut y gallaf gwtogi ar y ddwy flynedd hynny ond, yn sicr, drwy ein fforwm cleifion byddwn yn ystyried sut y gallai pobl roi gwybod am eu hawliadau neu eu pryderon yn gynt. O ran gweddill yr amser y mae'n ei gymryd, mae hynny'n dibynnu'n fawr ar drafod y systemau rheoli risg a hawliadau'n fwy deheuig. Dyna lle y bydd yr hyfforddi a datblygu a rown i'r rheolwyr risg a'r staff eraill yn yr ymddiriedolaeth yn cyfrannu. Dylai'r hyfforddiant egluro eu rôl yn fanwl a sicrhau nad ydym yn cael ein llethu gan brosesau biwrocraidd. Dylai sicrhau hefyd, pan roddwyd gwybod am ddigwyddiad, fod modd casglu'r holl wybodaeth glinigol y bydd arnom ei hangen er mwyn asesu a oes cyfiawnhad dros hawliad neu beidio yn gynt o lawer fel y gall pobl dderbyn iawndal yn

it.

gynt, os profir bod ganddynt hawl i'w dderbyn.

As I said previously, the cases that take the longest on many occasions depend on assessments that can only be undertaken, as you understand, a very long way down the track. I do not see a way of settling those very much earlier. However, we could consider what sort of recompense is appropriate in the meantime and how to manage the patients and their relatives more appropriately. I would like time to think about that particular difficult problem.

Fel y dywedais eisoes, mae'r achosion sydd yn cymryd yr amser hwyaf yn dibynnu lawer gwaith ar asesiadau na ellir ond ymgymryd â hwy, fel y deallwch, yn hwyr iawn yn y broses. Ni welaf fodd i setlo'r rheini'n llawer cynt. Fodd bynnag, gallem ystyried pa fath o iawndal sydd yn briodol yn y cyfamser a sut i drafod y cleifion a'u perthnasau'n fwy priodol. Hoffwn gael amser i fyfyrho ynghylch y broblem anodd arbennig honno.

[31] **Karen Sinclair:** Thank you. What about deadlines imposed for handling claims? Has the NHS paid any financial penalties so far?

[31] **Karen Sinclair:** Diolch. Beth am derfynau amser ar gyfer trafod hawliadau? A yw'r NHS wedi talu unrhyw gosbau ariannol hyd yn hyn?

Mrs Lloyd: Not to my knowledge, but I could submit a note on that. Nobody has reported that to me yet.

Mrs Lloyd: Nid hyd y gwn i, ond gallwn gyflwyno nodyn ar hynny. Nid oes neb wedi adrodd hynny imi eto.

[32] **Karen Sinclair:** Alison, if I may call you Alison, what assistance can you offer

[32] **Karen Sinclair:** Alison, os caf eich galw'n Alison, pa gymorth y gallwch ei

trusts to speed up the progress of cases and minimise the risk of incurred penalties?

gynnig i ymddiriedolaethau i gyflymu hynt achosion a lleihau'r risg o gosbau a osodir?

Ms Walcot: The management of the claims and the recent civil procedure reforms that have come through the court are helping to impact, and are having an impact on timing. We will not know the true benefit of those until the end of this year perhaps. However, they are helping to prevent any delays and to ensure that other methods are used in part of the management of the claims. The court is taking a very active role in the management of the claims and that may well help to speed up the process.

Ms Walcot: Mae'r dull o reoli'r hawliadau a'r diwygiadau diweddar yn yr weithdrefn sifil a ddaeth drwy'r llys yn helpu i gael effaith, ac maent yn effeithio ar amseru. Ni fyddwn yn gwybod gwir fantais y rheini tan ddiwedd y flwyddyn yma efallai. Fodd bynnag, maent yn helpu i atal unrhyw oedi a sicrhau defnyddio dulliau eraill mewn rhan o'r dull o reoli'r hawliadau. Mae'r llys yn cymryd rôl weithredol iawn wrth reoli'r hawliadau ac mae'n bosibl iawn y bydd hynny o gymorth i gyflymu'r broses.

[33] **Karen Sinclair:** Figure 3.10 on page 24 of the Auditor General's report highlights that the two measures that trusts consider most likely to reduce the time taken to resolve claims are proactive investigation of incidents and better co-operation from clinicians. How do you intend to improve these aspects of claims management?

[33] **Karen Sinclair:** Mae ffigur 3.10 ar dudalen 24 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn pwysleisio mai'r ddau fesur y mae'r ymddiriedolaethau'n credu eu bod yn fwyaf tebygol o leihau'r amser a gymerir i benderfynu ar hawliadau yw archwilio digwyddiadau'n rhagweithiol a gwell cydweithrediad gan glinigwyr. Sut y bwriadwch wella'r agweddau hyn ar y dull o reoli hawliadau?

Mrs Lloyd: I intend to ask the chief executives, when I meet with them next Tuesday, what their views are on how the better involvement of clinicians, more co-operation—if that is how it is judged—and the proactive investigation of complaints might be improved this year. Again, that might involve training and education programmes and a much better relationship between claims management and the clinical people with whom they need to work. I will take that up with the chief executives and expect a report back from them within the next three months.

[34] **Janet Davies:** Do you want to ask anything else, Karen?

[35] **Karen Sinclair:** Not at the moment.

[36] **Janet Davies:** I turn to the issue of the availability of information, which seems to be a very serious problem. We know that clinical negligence is costing the NHS substantial sums each year and that the costs appear to be rising. There is a lack of basic information at trust and Assembly level to

Mrs Lloyd: Bwriadaf ofyn i'r prif weithredwyr, pan gyfarfyddaf â hwy ddydd Mawrth nesaf, am eu barn ar y modd i gael gwelliant eleni yn y rhan a gymerir gan glinigwyr, mewn cydweithrediad cynyddol—os mai felly y'i bernir—ac mewn archwilio cwynion yn rhagweithiol. Unwaith eto, gallai hynny gynnwys rhaglenni hyfforddiant ac addysg a gwell perthynas o lawer rhwng rheolwyr hawliadau a'r gweithwyr clinigol y mae angen iddynt weithio â hwy. Codaf hynny gyda'r prif weithredwyr a disgwyliaf dderbyn adroddiad yn ôl ganddynt o fewn y tri mis nesaf.

[34] **Janet Davies:** A ddymunwch ofyn unrhywbeth arall, Karen?

[35] **Karen Sinclair:** Nid ar hyn o bryd.

[36] **Janet Davies:** Trof at fater argaeledd gwybodaeth, yr ymddengys ei fod yn broblem ddifrifol iawn. Gwyddom fod esgeulustod clinigol yn costio symiau sylweddol i'r NHS bob blwyddyn a'i bod yn ymddangos bod y costau'n cynyddu. Mae diffyg gwybodaeth sylfaenol ar lefel yr

inform the handling of claims. How can you tackle clinical negligence effectively without that information?

ymddiriedolaethau a'r Cynulliad i oleuo'r dull o drafod hawliadau. Sut y gallwch fynd i'r afael ag esgeulustod clinigol yn effeithiol heb yr wybodaeth honno?

Mrs Lloyd: The Welsh risk management standards and the detailed information that we receive from that will be extremely useful to us in the next two years to ensure that the clinical governance requirements placed on trusts and health authorities might be effected. I will also have better information when the clinical governance review has completed its work and reported to me. I agree that, without the basic tools in place, it is extraordinarily difficult to manage oneself out of a situation where one does not really know what is going on. We are co-operating with England on the adverse clinical incident reporting mechanisms because it is really important to have an overview of trends across the whole of the United Kingdom. We really need to reach a situation that ensures that we have proper benchmarking. The key to our success in gathering and using information more effectively will be the widespread publication of the outcome of the Welsh Risk Pool accreditation and management standards. We will be able to

Mrs Lloyd: Bydd safonau rheoli risg Cymru a'r wybodaeth fanwl a dderbyniwn o hynny yn ddefnyddiol dros ben i ni yn y ddwy flynedd nesaf er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r gofynion llywodraethu clinigol a roddir ar ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd. Bydd gennyf well gwybodaeth hefyd pan fydd yr adolygiad llywodraethu clinigol wedi cwblhau ei waith ac wedi adrodd i mi. Cytunaf, os na fydd yr arfau sylfaenol yn eu lle, ei bod yn eithriadol o anodd llwyddo i ddod allan o sefyllfa lle nad yw rhywun yn gwybod beth sydd yn mynd ymlaen mewn gwirionedd. Yr ydym yn cydweithredu â Lloegr ar y mecanweithiau adrodd digwyddiadau clinigol adfydus am ei bod yn wirioneddol bwysig cael arolwg ar dueddiadau ledled y Deyrnas Unedig. Mae gwir angen inni gyraedd sefyllfa sydd yn sicrhau bod gennym feincnodi priodol. Yr allwedd i'n llwyddiant wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth yn fwy effeithiol fydd cyhoeddi canlyniad safonau achredu a rheoli Cronfa Risg Cymru'n eang. Byddwn yn gallu

compare them in part with the controls assurance standards in England, which have also just been published for the first time.

eu cymharu'n rhannol â'r safonau sicrwydd rheolaethau yn Lloegr, sydd newydd eu cyhoeddi am y tro cyntaf hefyd.

[37] **Janet Davies:** Hindsight is a wonderful thing.

[37] **Janet Davies:** Mae ôl-ddoethineb yn beth rhyfeddol.

Mrs Lloyd: It is.

Mrs Lloyd: Ydyw.

[38] **Janet Davies:** How long has it been since people realised that the information was lacking? In Tuesday's Plenary debate on the NHS human resources strategy, I noticed that there was a problem with lack of information on a much broader level than on clinical negligence, though that is the issue we are addressing at the moment.

[38] **Janet Davies:** Ers pa bryd y mae pobl yn sylweddoli bod yr wybodaeth yn brin? Yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth ar strategaeth adnoddau dynol yr NHS, sylwais fod problem ynghylch diffyg gwybodaeth ar lefel ehangach o lawer nag ar esgeulustod clinigol, er mai hynny yw'r mater yr ydym yn ymdrin ag ef ar y funud.

Mrs Lloyd: That is difficult for me to answer, but the problem is not unique to Wales. I think that the problems have been highlighted very much since the publication in 1998 of 'Putting Patients First'. Since then, there has been an increasing emphasis on the requirement for us to benchmark our services against best practice. In doing that,

Mrs Lloyd: Mae'n anodd imi ateb hynny, ond nid yw'r broblem yn unigryw i Gymru. Credaf fod y problemau wedi derbyn llawer o sylw ers cyhoeddi 'Rhoi Cleifion yn Gyntaf' yn 1998. Ers hynny, bu pwyslais cynyddol ar y gofyniad inni feincodi ein gwasanaethau yn ôl yr arfer gorau. Drwy wneud hynny, darganfuasom ym mhle'r oedd

we have discovered where the holes in the information were. Some of those have been put right, but we have some way to go. I hope that my performance management framework will institute a much better gathering, use and publication of information throughout the country.

[39] **Janet Davies:** You are saying, therefore, that although you are taking some steps, there are still some gaps in information. Have you any particular ideas on how to try to fill those gaps?

Mrs Lloyd: In terms of medical negligence, our key must come from the outcome of the Welsh Risk Pool standards accreditation. You can see on the helpful chart provided in this paper where many trusts have a lower score, such as 43 per cent in medical records, whereas compliance with the complaints procedure is about 80 to 90 per cent. It is in those areas that we need to start working with the trusts, through the Welsh Risk Pool and its assessors and trainers, to improve our information systems. I think that the losses and special payments register will help. That will be a useful tool for us all to

y bylchau yn yr wybodaeth. Cywirwyd rhai o'r rheini, ond mae peth gwaith i'w wneud o hyd. Gobeithiaf y bydd fy fframwaith rheoli perfformiad yn rhoi cychwyn i lawer gwell casglu, defnyddio a chyhoeddi gwybodaeth ledled y wlad.

[39] **Janet Davies:** Yr ydych yn dweud, felly, er eich bod yn cymryd rhai camau, fod rhai bylchau yn yr wybodaeth o hyd. A oes gennych unrhyw syniadau penodol am y modd i geisio llenwi'r bylchau hynny?

Mrs Lloyd: O ran esgeulustod meddygol, rhaid i'n hallwedd ddod o ganlyniad achrediad safonau Cronfa Risg Cymru. Gallwch weld yn y siart ddefnyddiol a ddarperir yn y papur hwn lle y mae gan lawer o ymddiriedolaethau sgôr is, fel 43 y cant ar gyfer cofnodion meddygol, fod y cydymffurfiad â'r weithdrefn cwynion, er hynny, tua 80 i 90 y cant. Y meysydd hynny yw'r rhai y mae angen inni ddechrau gweithio ynddynt gyda'r ymddiriedolaethau, drwy Gronfa Risg Cymru a'i haseswyr a'i hyfforddwyr, i wella ein systemau gwybodaeth. Credaf y bydd y gofrestr

gather centrally information against which trusts can benchmark their own performance. There have been problems in terms of confidentiality of clinical information, but we believe that we have ways in which those problems and rightful concerns can be overcome. I will be asking the Welsh Risk Pool to advise me on the methodologies that it would wish to use with trusts to improve the information where it has seen serious gaps.

colledion a thaliadau arbennig o gymorth. Bydd honno'n arf defnyddiol i bawb ohonom i gasglu gwybodaeth yn ganolog y gall yr ymddiriedolaethau feincnodi eu perfformiad eu hunain yn ei herbyn. Bu problemau o ran cyfrinachedd gwybodaeth glinigol, ond credwn ein bod yn meddu ar y dulliau i oresgyn y problemau a'r pryderon priodol hynny. Byddaf yn gofyn i Gronfa Risg Cymru roi gwybod i mi am y methodolegau y dymunai eu defnyddio gyda'r ymddiriedolaethau i wella'r wybodaeth lle y canfu fylchau difrifol.

[40] **Dafydd Wigley:** Yr oeddech yn cyfeirio eiliad yn ôl at LaSPaR, sef, os yr wyf yn cofio'n iawn, *the losses and special payments register*—nid wyf yn siwr a wyf yn defnyddio'r terminoleg iawn. Pryd yr ydych yn meddwl y bydd y gronfa ddata hon yn llwyr weithredol?

[40] **Dafydd Wigley:** You referred a moment ago to LaSPaR, namely, if I remember correctly, the losses and special payments register—I am not sure if I have the right terminology. When do you think this database will be fully operational?

Mrs Lloyd: As you know, we started our pilot scheme in January 2000 and I think we were slightly ambitious in terms of getting it fully up to date. It is scheduled to be fully implemented this year, but we must ensure that trusts are willing and able to use that

Mrs Lloyd: Fel y gwyddoch, cychwynasom ein cynllun peilot yn Ionawr 2000 a chredaf inni fod braidd yn uchelgeisiol o ran ei gael yn gwbl gyfoes. Fe'i hamserlennwyd i'w roi ar waith yn llawn eleni, ond rhaid inni sicrhau bod yr ymddiriedolaethau'n barod ac yn

system and persuade them to do so. Sarah Beaver and her team are currently assessing the availability of the information database and the trusts' ability to use that database. We should have a result from LaSPaR at the end of this financial year.

gallu defnyddio'r system honno a'u darbwyllo i wneud hynny. Ar hyn o bryd mae Sarah Beaver a'i thîm yn asesu argaeledd y gronfa ddata o wybodaeth a gallu'r ymddiriedolaethau i ddefnyddio'r gronfa ddata honno. Dylem gael canlyniad o'r gofrestr colledion a thaliadau arbennig ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

[41] **Dafydd Wigley:** Dywedwch y byddai'r ymddiriedolaethau yn fodlon defnyddio'r system. Credaf mai '*willing*' oedd y gair a ddefnyddioch. A oes arwyddion, felly, fod anfodlonrwydd i ddefnyddio'r wybodaeth hon?

[41] **Dafydd Wigley:** You say that the trusts would be willing to use the system. I think that '*willing*' was the word you used. Are there signs, therefore, that there is an unwillingness to use this information?

Mrs Lloyd: Certain trusts have been very concerned about patient confidentiality. We are now in a position to reassure them about that. That is the major concern that they have been expressing. All trusts like to know how they are performing against others. This will be a really good tool to enable them to assess themselves against others, along with the outcomes of the risk pool standards.

Mrs Lloyd: Bu rhai ymddiriedolaethau'n brydrus iawn ynghylch cyfrinachedd cleifion. Yr ydym bellach mewn sefyllfa i roi sicrwydd iddynt ynghylch hynny. Dyna'r prif bryder a fynegasant. Mae'r holl ymddiriedolaethau'n hoffi gwybod sut y maent yn perfformio ochr yn ochr ag eraill. Bydd hwn yn arf gwirioneddol dda i'w galluogi i'w hasesu eu hunain mewn perthynas ag eraill, ynghyd â chanlyniadau'r safonau cronfa risg.

[42] **Dafydd Wigley:** More league tables.

[42] **Dafydd Wigley:** Rhagor o dablau cynghrair.

Mrs Lloyd: It is not a league table.

Mrs Lloyd: Nid tabl cynghrair ydyw.

[43] **Dafydd Wigley:** Trof yn awr at Mr Kershaw. Sylwaf fod Cronfa Risg Cymru yn bwriadu dadansoddi hawliadau yn fanylach. Fodd bynnag, noda'r adroddiad nad yw 20 hawliad y flwyddyn ond yn gyfran fechan o'r achosion sydd eisoes yn y system. A yw sampl mor fach â hyn yn ddigonol fel sail i ddadansoddiad ystadegol?

[43] **Dafydd Wigley:** I now turn to Mr Kershaw. I notice that the Welsh Risk Pool intends to analyse claims in greater detail. However, the report notes that 20 claims a year is only a small proportion of the cases already in the system. Is such a small sample a sufficient basis for statistical analysis?

Mr Kershaw: The sample of 20 claims starts this year. It is the first time that an attempt has been made in Wales to look at how we manage claims right from the origin—the risk management, if you like—when the claim was registered, how it was managed in the trust, what legal advice was given and what was the actual out-turn of that, in other words, what compensation was paid. The Welsh Risk Pool has never been funded previously to be able to do that. I am pleased to say that, this year, we have taken

Mr Kershaw: Mae'r sampl o 20 o hawliadau'n dechrau eleni. Dyma'r tro cyntaf y gwnaethpwyd ymgais yng Nghymru i edrych ar y modd yr ydym yn rheoli hawliadau o'u dechreuad—y rheolaeth risg, os y mynnwch—pan gofrestrwyd yr hawliad, sut y'i rheolwyd yn yr ymddiriedolaeth, pa gyngor cyfreithiol a roddwyd a beth oedd gwir alldro hynny, mewn geiriau eraill, pa iawndal a dalwyd. Nid yw Cronfa Risg Cymru erioed wedi'i hariannu o'r blaen fel y gallai wneud hynny. Yr wyf yn falch o

on an additional member of staff with the primary function of looking at the analysis of 20 cases. I think it would be fair to say that we need to evaluate how successful that is over the next year. If it looks like we should examine a higher number of cases, I think that we should do that next year. We are picking the 20 cases so that there is at least one from each trust, and cases from orthopaedics, obstetrics or whatever, so that we get a quite rounded look at it. We will learn from what we do this year and move it on next year if necessary.

ddweud ein bod wedi cyflogi aelod o staff ychwanegol eleni sydd â'r brif swyddogaeth o edrych ar y dadansoddiad o 20 o achosion. Credaf y byddai'n deg dweud bod angen inni werthuso pa mor llwyddiannus y bydd hynny dros y flwyddyn nesaf. Os ymddengys y dylem archwilio nifer uwch o achosion, credaf y dylem wneud hynny y flwyddyn nesaf. Yr ydym yn dethol yr 20 o achosion fel bod un o leiaf o bob ymddiriedolaeth, ac achosion o orthopedeg, obstetreg neu beth bynnag, fel y gallwn gymryd golwg gweddol gynhwysfawr. Byddwn yn dysgu o'r hyn a wnawn eleni ac yn ei symud ymlaen y flwyddyn nesaf os bydd angen.

[44] **Dafydd Wigley:** Sut y byddwch yn defnyddio canlyniadau Cronfa Risg Cymru, yn arbennig o ran ymddiriedolaethau'r NHS?

[44] **Dafydd Wigley:** How will you use the Welsh Risk Pool results, specifically in terms of the NHS trusts?

Mr Kershaw: If the question is about how we would use the results from the 20 cases, one of the important things that we have to do is to learn from the things that we do not get right. It has already been mentioned that there is a Risk Managers Network, and I think that it is quite clear that it should

Mr Kershaw: Os yw'r cwestiwn yn ymwneud â sut y defnyddiem y canlyniadau o'r 20 achos, un o'r pethau pwysig y mae'n rhaid inni ei wneud yw dysgu o'r pethau nad ydym yn eu cael yn iawn. Soniwyd eisoes fod Rhwydwaith Rheolwyr Risg, a chredaf ei bod yn eithaf amlwg y dylai reoli'r achosion

manage those cases and pass the information on to others. We have also set up a website for Welsh Health Legal Services, and we are increasingly going to use that to advise trusts about particular changes in law or particular incidents that they should know about. We will get better information from the analysis of those 20 cases to educate and inform other trusts.

hynny a throsglwyddo'r wybodaeth i eraill. Yr ydym hefyd wedi sefydlu gwefan ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru, a byddwn yn defnyddio honno fwyfwy i roi gwybod i'r ymddiriedolaethau am newidiadau penodol yn y gyfraith neu ddiwyddiadau penodol y dylent wybod amdanynt. Cawn well gwybodaeth drwy ddadansoddi'r 20 achos hynny er mwyn addysgu a goleuo ymddiriedolaethau eraill.

[45] **Dafydd Wigley:** Mae'r ymddiriedolaethau, hyd y gwyddoch, yn fodlon ac yn awyddus i gydweithio â chi yn y defnydd hwn o'r wybodaeth?

[45] **Dafydd Wigley:** The trusts, as far as you know, are willing and keen to cooperate with you in this use of the information?

Mr Kershaw: Absolutely. There is no doubt, certainly in my conversations with all trusts, that risk management and reducing claims for clinical negligence is extremely high on their agenda. I do not have any doubt that people wish to learn lessons from things going wrong. I absolutely believe that there is a change in culture within the clinical fraternity as well to do that. There is a sea change in understanding that we must improve by learning from what does not quite go right. I am quite confident that we

Mr Kershaw: Ydynt, yn ddi-os. Nid oes amheuaeth, yn sicr yn fy sgrysiu â'r holl ymddiriedolaethau, fod rheoli risg a lleihau nifer yr hawliadau am esgeulustod clinigol yn uchel dros ben ar eu hagenda. Nid wyf yn amau o gwbl bod pobl yn dymuno dysgu gwersi o'r pethau sydd yn mynd o'i le. Llwyf gredaf fod newid mewn diwylliant ymysg y frawdoliaeth glinigol hefyd i wneud hynny. Mae gweddnewidiad o ran deall bod rhaid inni wella drwy ddysgu o'r hyn nad yw'n llwyddo cystal. Yr wyf yn eithaf ffyddiog y

will be able to do so.

byddwn yn gallu gwneud hynny.

[46] **Dafydd Wigley:** Deallaf, o'r ateb hwnnw, y byddwch yn edrych hefyd ar ba wersi a ddaw o'r 20 achos hyn, o ran sut y mae Cronfa Risg Cymru ei hun yn gweithio.

[46] **Dafydd Wigley:** I take it, from that answer, that you will also look at what lessons can be learnt from these 20 cases, in terms of how the Welsh Risk Pool itself works.

Mr Kershaw: Absolutely. There is never an assumption that we do everything perfectly in terms of how the claim is managed by the pool. We are, actually, only a reimbursement organisation. The two functions of the pool are to reimburse and to advise on risk management. The decision about whether a claim is justified or not rests with the individual trust. However, I feel quite confident that the pool will become more influential on how claims are managed in their totality. I think that it has an important function in that.

Mr Kershaw: Byddwn, yn ddi-os. Nid oes byth ragdybiaeth ein bod yn gwneud popeth yn berffaith o ran y modd y rheolir yr hawliad gan y gronfa. Mewn gwirionedd, nid ydym yn fwy na chorff ad-dalu. Dwy swyddogaeth y gronfa yw ad-dalu a chynghori ar reoli risg. Lle'r ymddiriedolaeth unigol yw penderfynu a yw hawliad yn gyfiawn ai peidio. Fodd bynnag, teimlaf yn eithaf ffyddiog y daw'r gronfa'n fwy dylanwadol ynghylch y modd y rheolir hawliadau yn eu cyfanrwydd. Credaf fod iddi swyddogaeth bwysig yn hynny o beth.

[47] **Dafydd Wigley:** Yr wyf am drafod baich y gwaith. Mae'n amlwg ei fod yn cynyddu yn y maes hwn. Mae nifer yr achosion sydd yn dal ar agor yn cynyddu yn y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau. Dim ond

[47] **Dafydd Wigley:** I want to discuss the workload. It is obviously increasing in this area. The number of cases that are still open are increasing in the majority of trusts. Only four of the 15 have succeeded in reducing

pedair o'r 15 sydd wedi llwyddo i leihau the number of cases with which they have nifer yr achosion y maent wedi gorfod had to deal in 1999-2000. What measures ymdrin â hwy yn 1999-2000. Pa gamau are being taken in the 11 other trusts to clear sydd yn cael eu cymryd yn yr 11 the backlog of cases that are still open? ymddiriedolaeth arall i glirio'r llwyth wrth gefn o achosion sydd yn dal ar agor?

Mr Kershaw: This is really about trusts being very proactive in clearing out some of those cases, which are not necessarily cases where damages are paid. It is about clearing out those cases where, how can I put it, the claim is really not justified. That is a discipline that we need to push on trusts to make sure that, where there is no further action on a claim, something is done to close it. Some of the Welsh trusts have been more aggressive in that approach than others.

Mr Kershaw: Mae hyn yn ymwneud mewn gwirionedd â gweithredu rhagweithiol iawn gan ymddiriedolaethau wrth glirio rhai o'r achosion hynny, nad ydynt o reidrwydd yn achosion lle y telir iawndal. Mae'n ymwneud â chlirio'r achosion hynny, sut y gallaf ddweud, lle nad yw'r hawliad yn un cyfiawn mewn gwirionedd. Mae honno'n ddisgyblaeth y mae angen inni ei chymell ar ymddiriedolaethau i sicrhau, lle nad oes gweithredu pellach ar hawliad, y gwneir rhywbeth i'w gau. Bu rhai o ymddiriedolaethau Cymru'n fwy ymosodol yn y dull gweithredu hwnnw nag eraill.

[48] **Dafydd Wigley:** A fydech yn dweud mai dyna pam mae pedair ohonynt â ffigurau mwy llwyddiannus na'r 11 arall: hynny yw, eu bod yn cau achosion na ddylent ddod ymlaen? Mae'n amlwg bod hynny o fantais i bawb: os ydych yn gwastraffu llai o amser ar

[48] **Dafydd Wigley:** Would you say that that is why four of them have more successful figures than the other 11: that is, that they close cases that should not be continued? It is obvious that that is advantageous to everyone: if you waste less

yr achosion hynny, yr ydych yn gallu time on those cases, you can concentrate on canolbwyntio ar yr achosion sydd yn haeddu the cases that deserve to have time spent on amser. A deimlwch fod digon o waith yn them. Do you feel that enough work is being cael ei wneud yn yr 11 ymddiriedolaeth arall done in the other 11 trusts to close down i gau'r achosion hynny? Beth y gallwch ei those cases? What can you do to take this wneud i symud hyn ymlaen? forward?

Mr Kershaw: I am not sure. Obviously, trusts may have different approaches about how aggressively they close down cases, but your point is interesting. Perhaps, through the Welsh Risk Pool, we can pass the message on to trusts that we need to be a little more demanding in that area.

Mr Kershaw: Nid wyf yn siwr. Mae'n amlwg y gallai'r ymddiriedolaethau fod â gwahanol ddulliau gweithredu ynghylch pa mor ymosodol ydynt wrth gau achosion, ond mae'ch pwynt yn ddiddorol. Efallai, drwy Gronfa Risg Cymru, y gallwn gyfleu'r neges i'r ymddiriedolaethau bod angen inni fod ychydig yn fwy awdurdodol yn y maes hwnnw.

[49] **Dafydd Wigley:** Diolch yn fawr.

[49] **Dafydd Wigley:** Thank you very much.

[50] **Janet Davies:** You are saying that you are confident now that the trusts are moving towards better practice. It is certainly apparent that, at the centre—in the Assembly, at the Welsh Health Legal Services, and the Welsh Risk Pool level—there is an understanding of the issues and

[50] **Janet Davies:** Yr ydych yn dweud eich bod yn ffyddiog yn awr fod yr ymddiriedolaethau'n symud tuag at arfer gwell. Mae'n sicr yn amlwg, yn y canol—yn y Cynulliad, yng Ngwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru, ac ar lefel Cronfa Risg Cymru—fod dealltwriaeth o'r materion a'ch

that you are trying to grapple with this problem. However, I know that any report that we get is always, to a certain extent, beginning to be out of date by the time that we consider it and that things may move forward quite rapidly on the ground. However, I am still concerned that the national health service trusts do not have the expertise or the systems at the moment to carry through these good intentions. Could you give us any further assurance on whether they have the will and the ability to do what is needed and a real understanding of the problem?

Mrs Lloyd: The best evidence that I will be able to give the Assembly is when the clinical governance review is completed and reports back to me. It has looked very seriously at the state of the management of clinical governance in each trust in Wales. It is about management of claims and complaints because the two are inextricably linked. As a consequence of the review undertaken by my quality division, I will discuss—as part of my reviews of the management of the NHS trusts and health authorities—the processes, numbers of staff and training that they will put into place to manage this very important

bod yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon. Fodd bynnag, gwn fod unrhyw adroddiad a dderbyniwn bob tro'n dechrau dyddio, i ryw raddau, erbyn yr adeg pan ydym yn ei ystyried ac y gallai pethau symud ymlaen yn eithaf cyflym ar lawr gwlad. Fodd bynnag, yr wyf yn bryderus o hyd nad yw ymddiriedolaethau'r gwasanaeth iechyd gwladol yn meddu ar yr arbenigedd na'r systemau ar hyn o bryd i gyflawni'r bwriadau da hyn. A allech roi unrhyw sicrwydd pellach i ni ynghylch a oes ganddynt yr ewyllys a'r gallu i wneud yr hyn sydd ei angen a dealltwriaeth wirioneddol o'r broblem?

Mrs Lloyd: Y dystiolaeth orau y byddaf yn gallu ei rhoi i'r Cynulliad yw honno a fydd gennyf ar ôl i'r adolygiad llywodraethu clinigol ddod i ben ac adrodd yn ôl i mi. Mae wedi edrych o ddifrif ar gyflwr rheolaeth llywodraethu clinigol ym mhob ymddiriedolaeth yng Nghymru. Mae'n ymwneud â rheoli hawliadau a chwynion oherwydd mae cyswllt anorfod rhwng y ddau. O ganlyniad i'r adolygiad yr ymgwymerwyd ag ef gan fy adran ansawdd, byddaf yn trafod—fel rhan o'm hadolygiadau o reolaeth ymddiriedolaethau'r NHS a'r awdurdodau iechyd—y prosesau,

interface with the public in a better way, given the lessons that we will have been able to provide to them.

y niferoedd staff a'r hyfforddiant y byddant yn eu sefydlu i reoli'n well y rhyngwyneb pwysig iawn hwn â'r cyhoedd, ar sail y gwersi y byddwn wedi gallu eu darparu iddynt.

[51] **Janet Davies:** I will ask one fairly technical question; I do not know who is best placed to answer it. I understand that IT systems are being introduced far more widely in the national health service at the moment but that there is some concern about software compatibility, and about how the new programmes will link into paper records. Obviously we do not want to see things dropping through the middle.

[51] **Janet Davies:** Gofynnaf un cwestiwn eithaf technegol; ni wn pwy sydd yn y sefyllfa orau i'w ateb. Deallaf fod systemau TG yn cael eu cyflwyno'n llawer mwy eang yn y gwasanaeth iechyd gwladol ar y funud ond bod peth pryder ynghylch cydweddoldeb meddalwedd, ac ynghylch y modd y bydd y rhaglenni newydd yn cysylltu â chofnodion papur. Mae'n amlwg nad ydym yn dymuno gweld pethau'n disgyn drwy'r canol.

Mrs Lloyd: I would agree with that. There is a review going on of information technology and its management within the Assembly. I will have to submit a note on the date by which I expect that to be completed. However, you are absolutely right that there are many places now that are moving towards electronic patient records. We must ensure that those records can be appropriately shared throughout a community and that the information gathered

Mrs Lloyd: Byddwn yn cytuno â hynny. Mae adolygiad yn mynd ymlaen o dechnoleg gwybodaeth a'r dull o'i rheoli oddi mewn i'r Cynulliad. Bydd yn rhaid imi gyflwyno nodyn ar y dyddiad pan ddisgwyliaf i hynny gael ei gwblhau. Fodd bynnag, yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud bod llawer o leoedd yn awr sydd yn symud tuag at gofnodion cleifion electronig. Rhaid inni sicrhau y gellir rhannu'r cofnodion hynny'n briodol drwy gymuned ac nad yw'r wybodaeth a gesglir

does not conflict with any other information system that we use to gather either financial or management information. I would include this area in management information. Therefore, if I may provide you with a more detailed note on the intentions of the review and when we expect it to be completed, I hope that you would find that helpful.

yn mynd yn groes i unrhyw system wybodaeth arall a ddefnyddiwn i gasglu naill ai gwybodaeth ariannol neu wybodaeth rheoli. Byddwn yn cynnwys y maes hwn mewn gwybodaeth rheoli. Felly, os caf roi nodyn manylach i chi ar fwriadau'r adolygiad a pha bryd y disgwyliwn iddo gael ei gwblhau, gobeithiaf y byddech yn ei gael yn ddefnyddiol.

53. [52] **Janet Davies:** I presume that you have a dedicated section concentrating on it?

54. [52] **Janet Davies:** Cymeraf fod gennych is-adran benodol sydd yn canolbwyntio arno?

55. **Mrs Lloyd:** Yes, I do. I have not met them yet.

57. **Mrs Lloyd:** Oes, mae gennyf. Nid wyf wedi'u cyfarfod eto.

56.

58.

59. [53] **Janet Davies:** You can foresee an absolute nightmare situation if things went wrong?

61. [53] **Janet Davies:** Gallwch ragweld sefyllfa gwbl hunllefus os âi pethau o'i le?

62.

60.

63. **Mrs Lloyd:** Absolutely.

65. **Mrs Lloyd:** Yn sicr.

64.

66.

67. [54] **Janet Davies:** We will now move on to the last part of this evidence

69. [54] **Janet Davies:** Awn ymlaen yn awr at ran olaf y sesiwn tystiolaeth hwn,

session, which is concerned with reducing the incidence of clinical negligence. I will again begin asking the questions.

68.

71. There are substantial inroads being made to reduce the burden of clinical negligence. However, it is clear that the trusts need to reduce the likelihood of negligence incidents arising in the first place. It is better to stop them happening than learn how to handle them well: to be one step ahead. The Welsh risk management standards are an important plank in bringing this about. It seems disappointing that only five of the 15 trusts have achieved the benchmark of 75 per cent compliance with the standards last year. Have you any ideas on bringing the other 10 trusts up to the required standard?

72.

75. **Mrs Lloyd:** These standards are not easy to meet. They would be no use at all if they were easy to meet because then we would get a false picture of the state of readiness and standards within the NHS. As a consequence of the risk

sydd yn ymwneud â lleihau mynychder esgeulustod clinigol. Dechreuaf fi ofyn y cwestiynau unwaith eto.

70.

73. Gwneir cynnydd sylweddol wrth leihau baich esgeulustod clinigol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen i'r ymddiriedolaethau leihau'r tebygolrwydd i ddigwyddiadau o esgeulustod godi yn y lle cyntaf. Gwell eu hatal rhag digwydd na dysgu sut i'w trafod yn dda: bod un cam ar y blaen. Mae safonau rheoli risg Cymru'n elfen bwysig wrth wireddu hyn. Ymddengys yn siomedig mai dim ond pump o'r 15 o ymddiriedolaethau a gyrhaeddodd y feincnod o 75 y cant o gydymffurfiaid â'r safonau y llynedd. A oes gennych unrhyw syniadau ynghylch codi'r 10 ymddiriedolaeth arall at y safon ofynnol?

74.

77. **Mrs Lloyd:** Nid yw'r safonau hyn yn rhai hawdd eu cyrraedd. Ni fyddent o ddefnydd o gwbl pe byddent yn hawdd eu cyrraedd oherwydd wedyn caem ddarlun ffug o'r parodrwydd a'r safonau oddi mewn i'r NHS. O ganlyniad i'r

assessment and as part of the performance management system, we will go through the action plans that trusts have to improve their compliance with the standards in time for the next round of assessment, which will take place in a year's time. We would expect to see an improvement.

asesiad risg ac fel rhan o'r system rheoli perfformiad, byddwn yn mynd drwy'r cynlluniau gweithredu sydd gan yr ymddiriedolaethau er mwyn cydymffurfio'n well â'r safonau mewn pryd ar gyfer y cylch asesu nesaf, a fydd yn digwydd ymhnen blwyddyn. Disgwyliem weld gwelliant.

76.

78.

79. [55] **Janet Davies:** Do you think that the standard of 75 per cent compliance is set high enough?

81. [55] **Janet Davies:** A ydych o'r farn fod y safon o 75 y cant o gydymffurfriad wedi'i gosod yn ddigon uchel?

80.

82.

83. **Mrs Lloyd:** I think that that standard was set because we felt that it was achievable by some, not all. We wanted people to take this as a really serious exercise. Sometimes, if you set percentage standards too high, people almost give up before they start. We believe that this is a reasonable standard as a first step. We want all trusts in Wales to comply with this standard and we would expect those that have a good history of performance, which have not probably had quite as much disruption as others, to be able to exceed that standard. It is an ever-moving sliding

85. **Mrs Lloyd:** Credaf fod y safon wedi'i gosod am ein bod yn teimlo y gallai rhai ei chyrraedd, ac nid pawb. Yr oeddem yn dymuno i bobl dderbyn hwn fel ymarfer gwirioneddol o ddifrif. Weithiau, os gosodwch safonau canran yn rhy uchel, mae pobl bron â rhoi'r gorau iddi cyn iddynt ddechrau. Credwn fod hon yn safon resymol fel cam cyntaf. Dymunwn i'r holl ymddiriedolaethau yng Nghymru gydymffurfio â'r safon hon a byddem yn disgwyl i'r rhai sydd â hanes perfformiad da, nad amharwyd gymaint arnynt ag eraill yn ôl pob tebyg, allu rhagori ar y safon honno. Mae'n raddfa

scale. We expect the standards to become more purposeful and to improve how we collect the evidence to match the standards that must improve. We would expect a year-on-year improvement for individual trusts and for the corporate NHS throughout Wales and for the standards to increase and compliance with them to improve.

symudol sydd yn newid o hyd. Disgwyliwn i'r safonau ddod yn fwy bwriadol a gwella ein dull o gasglu'r dystiolaeth er mwyn cyfateb i'r safonau y mae'n rhaid iddynt wella. Disgwyliem welliant yn yr ymddiriedolaethau unigol a'r NHS corfforaethol ledled Cymru flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac i'r safonau godi ac i'r cydymffurfiad â hwy wella.

84.

[56] **Janet Davies:** So, we are looking at another process not an event?

87.

Mrs Lloyd: Yes, absolutely. The trouble with standards is that we must ensure that we never get into the habit of thinking 'this comes around once a year, what can we do to get all the evidence together, we have a month to do it' and 'thank goodness we have got that over for another year'. As part of the performance management programme and process that I will institute in the next financial year, there will be an ongoing dialogue with trusts about these really important issues for patients and for the staff themselves to ensure that there is a constant spotlight placed on the standard of care that we provide to patients and their relatives.

[57] **Janet Davies:** I will refer to three risk management standards. The Auditor General mentions that where overall compliance across Wales with the risk management standards was lowest—on the supervision of junior staff, communications between doctor and patients, and patient records—these correspond to the non-clinical errors that were found to be the prime reason behind quite a large proportion of negligence claims. Do you agree that this should give the national health service added reason to tackle these issues as a matter of urgency?

Mrs Lloyd: Indeed I do. Although they are

86.

[56] **Janet Davies:** Felly, yr ydym yn edrych ar broses arall ac nid digwyddiad?

88.

Mrs Lloyd: Ydym, yn hollol. Y drafferth gyda safonau yw bod yn rhaid inni sicrhau na fyddwn byth yn mynd i'r arfer o feddwl 'daw hyn unwaith y flwyddyn, beth y gallwn ei wneud i gasglu'r holl dystiolaeth, mae gennym fis i wneud hynny' a 'diolch byth fod hynny drosodd am flwyddyn arall'. Fel rhan o'r rhaglen a phroses rheoli perfformiad a sefydlaf yn y flwyddyn ariannol nesaf, bydd deialog barhaus â'r ymddiriedolaethau am y materion gwirioneddol bwysig hyn i gleifion ac i'r staff eu hunain i sicrhau bod pwyslais cyson ar safon y gofal a roddwn i gleifion a'u perthnasau.

[57] **Janet Davies:** Cyfeiriaf at dair safon rheoli risg. Dywed yr Archwilydd Cyffredinol, lle yr oedd y cydymffurfiad cyffredinol â'r safonau rheoli risg ar ei isaf ledled Cymru—ar oruchwyllo staff iau, cyfathrebu rhwng y meddyg a'r cleifion, a chofnodion cleifion—eu bod yn cyfateb i'r camgymeriadau anghlinigol y cafwyd eu bod yn brif reswm y tu ôl i gyfran eithaf mawr o'r hawliadau esgeulustod. A gytunwch y dylai hynny roi rheswm ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd gwladol fynd i'r afael â'r materion hyn fel mater brys?

Mrs Lloyd: Cytunaf, yn wir. Er mai safonau

technically non-clinical standards, they are very much wrapped up in the way in which clinical teams operate. Clinical staff have a duty of supervision of junior medical staff. I think that it can be seen that much of the General Medical Council's guidance to its clinical teams now has a very heavy emphasis on supervision, particularly of junior medical staff. That is why the contracts for junior medical staff have changed. The contract that is signed with a postgraduate dean for the training of junior staff has also changed to ensure that supervision, teaching and training of junior staff is fundamental to why they are with us in the first place. That will also be the case with the training of nurses and staff in professions allied to medicine.

anghlinigol ydynt yn dechnegol, maent ynghlwm i raddau helaeth wrth ddull y timau clinigol o weithredu. Mae dyletswydd ar staff clinigol i oruchwylio staff meddygol iau. Credaf y gellir gweld bod gan lawer o arweiniad y Cyngor Meddygol Cyffredinol i'w dimau clinigol bwyslais cryf iawn yn awr ar oruchwylio, yn enwedig mewn perthynas â staff meddygol iau. Dyna pam y mae'r contractau i staff meddygol iau wedi newid. Mae'r contract a arwyddir â deon ôl-raddedigion ar gyfer hyfforddi staff iau wedi newid hefyd i sicrhau bod goruchwylio, dysgu a hyfforddi staff iau yn rhan sylfaenol o'r rheswm y maent gyda ni yn y lle cyntaf. Bydd hynny'n wir hefyd am hyfforddi nyrsys a staff mewn proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth.

I have already mentioned that communication between patient and doctor is of critical importance. Some really good work to improve that is going on throughout Wales. However, we need to bring everyone up to the same standard. We must be able to communicate in a way that can be received and responded to by the patient.

Yr wyf wedi sôn eisoes fod cyfathrebu rhwng y claf a'r meddyg yn holl bwysig. Mae gwaith gwirioneddol dda i wella hynny'n mynd ymlaen ledled Cymru. Fodd bynnag, mae angen inni godi pawb i'r un safon. Rhaid inni allu cyfathrebu mewn modd y gall y claf ei dderbyn ac ymateb iddo.

Patients' records are kept in variable forms Cedwir cofnodion cleifion ar wahanol ffurfiau

in variable places. The patient's record is not seamless. That is why there is a section in the new plan for the NHS in Wales about improving access to records, improving electronic records and coming up with one record per patient for the future, rather than having a variety of records relating to the same patient scattered around the country, both in primary and secondary care. We need a comprehensive system. We will be working through the new plan to ensure that the standard of patient records is improved and that we have comprehensive patient records in the future. In the meantime, completing patients' records must be given priority.

mewn gwahanol leoedd. Nid yw cofnod y claf yn ddiasiad. Dyna pam y mae adran yn y cynllun newydd ar gyfer yr NHS yng Nghymru am wella mynediad at gofnodion, gwella cofnodion electronig a chreu un cofnod am bob claf ar gyfer y dyfodol, yn hytrach na chael amryw o gofnodion yn ymwneud â'r un claf ar wasgar o amgylch y wlad, mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Mae arnom angen system gynhwysfawr. Byddwn yn gweithio drwy'r cynllun newydd i sicrhau gwelliant yn safon cofnodion cleifion a bod gennym gofnodion cleifion cynhwysfawr yn y dyfodol. Yn y cyfamser, rhaid rhoi blaenoriaeth i gwblhau cofnodion cleifion.

[58] **Janet Davies:** Yes, there were some examples of where things had gone badly wrong in the report—I mean examples in the report, not the report itself going badly wrong. I would like to raise one point. It seems that we hear over and over again about how patients do not take in bad news when they are initially told about it. Is the need to give further opportunities and tell people the same thing several times perhaps being taken on board?

[58] **Janet Davies:** Ie, yr oedd rhai enghreifftiau lle yr oedd pethau wedi mynd yn ddrwg o'i le yn yr adroddiad— enghreifftiau yn yr adroddiad, yr wyf yn ei feddwl, nid yr adroddiad ei hun yn mynd yn ddrwg o'i le. Hoffwn godi un pwynt. Ymddengys ein bod yn clywed drosodd a thro am y modd nad yw cleifion yn amgyffred newyddion drwg pan ddywedir wrthynt yn y lle cyntaf. A ddeallir yr angen i roi cyfleoedd pellach a dweud yr un peth wrth bobl sawl gwaith efallai?

Mrs Lloyd: Yes, indeed. I think that the growth in the importance of the clinical team is allowing us to manage this particularly difficult aspect better. With the whole team involved in care, the whole team knows what the message will be. There are pilot schemes that have been most successful and have been rolled out throughout Wales in terms of how you ensure the patient is given a second opportunity to hear the message. The growth in the number of counsellors and specialist nurses has really improved the situation for patients. However, we must ensure that communication is consistent, and that everyone in Wales has access to a second chance to hear the message. I know that the trusts are working hard to ensure that they have back-up mechanisms. I think that all of us have had the experience, as patients as well as as staff, of not understanding the message because it is too complex and is something that you do not want to hear. In that case, you just grasp a bit of the message. We understand the problem. I know that an enormous amount of time and effort is being spent, particularly with the nursing staff, in ensuring that there is a back-up mechanism of which patients are aware

Mrs Lloyd: Deellir, yn wir. Credaf fod y cynnydd ym mhwysigrwydd y tîm clinigol yn caniatáu inni reoli'n well yr agwedd arbennig o anodd hon. A'r tîm cyfan yn gysylltiedig â gofal, mae'r tîm cyfan yn gwybod beth fydd y neges. Mae cynlluniau peilot a fu'n llwyddiannus dros ben ac a estynnwyd ledled Cymru o ran y modd yr ydych yn sicrhau y caiff y claf ail gyfle i glywed y neges. Mae'r cynnydd yn nifer y cynghorwyr a'r nyrsys arbenigol wedi gwella'r sefyllfa'n wirioneddol i gleifion. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau bod y cyfathrebu'n gyson, ac y caiff pawb yng Nghymru ail gyfle i glywed y neges. Gwn fod yr ymddiriedolaethau'n gweithio'n galed i sicrhau bod ganddynt fecanweithiau wrth gefn. Credaf fod pawb ohonom wedi cael y profiad, fel cleifion a hefyd fel staff, o beidio â deall y neges am ei bod yn rhy gymhleth ac yn rhywbeth na ddymunwch ei glywed. Yn yr achos hwnnw, nid ydych ond yn amgyffred rhan o'r neges. Deallwn y broblem. Gwn fod llawer iawn o amser ac ymdrech, yn enwedig gan y staff nyrsio, yn mynd at sicrhau bod mecanwaith wrth gefn y mae'r cleifion yn gwybod amdano a bod llinellau cymorth 24 awr a chynghorwyr galar ar waith i allu trafod

and that 24-hour helplines and bereavement counsellors are in place to be able to deal with patients' inquiries. ymholiadau'r cleifion.

[59] **Janet Davies:** Thank you. Karen, you wanted to ask a supplementary question on this.

[59] **Janet Davies:** Diolch. Karen, yr oeddech yn dymuno gofyn cwestiwn atodol ar hyn.

[60] **Karen Sinclair:** Yes. Janet mentioned that this is a process, rather than an event. However, five hospitals have reached the benchmark, presumably. What goals will you be setting them? I have visions of those hospitals sitting there saying, 'We are up to our 75 per cent'. There must be a process for them as well.

[60] **Karen Sinclair:** Oeddwn. Dywedodd Janet mai proses yw hon, yn hytrach na digwyddiad. Fodd bynnag, mae pum ysbyty wedi cyrraedd y feincnod, yn ôl pob tebyg. Pa nodau y byddwch yn eu gosod iddynt hwy? Gallaf weld yr ysbytai hynny'n eistedd yno gan ddweud, 'Yr ydym wedi cyrraedd y 75 y cant'. Rhaid cael proses ar eu cyfer hwy hefyd.

Mrs Lloyd: Yes. Those hospitals will go through the same process. We would expect them to be making the same leaps forward as others that have not achieved the 75 per cent benchmark. There will be standards at which they are not quite so good and we will expect them to improve their markings against those. Of course, the better you get, the less you have to pay into the Welsh Risk

Mrs Lloyd: Yn wir. Bydd yr ysbytai hynny'n mynd drwy'r un broses. Disgwyliem iddynt gymryd yr un camau bras ymlaen ag eraill nad ydynt wedi cyrraedd y feincnod o 75 y cant. Bydd safonau nad ydynt lawn cystal ynddynt a byddwn yn disgwyl iddynt wella eu marciau yn erbyn y rheini. Wrth gwrs, po gorau y byddwch, lleiaf y byddwch yn gorfod ei dalu i Gronfa Risg Cymru. Er

Pool. Although that is a minute incentive, it is, nevertheless, a recognised incentive for them. However, it is a continuing process. We want to make progress every year and not just let people sit on their laurels. Most people who do well always want to improve anyway.

[61] **Karen Sinclair:** So it will be clear?

Mrs Lloyd: It will be very clear.

[62] **Alison Halford:** You can have a rest, Mrs Lloyd; Mr Kershaw is coming in to bat for a while. Mr Kershaw, you say that your outfit is a reimbursement one and gives advice on risk management. When you reimburse, do you ever use confidentiality clauses in the settlements?

Mr Kershaw: May I ask my colleague to reply? I am not aware that we use confidentiality clauses.

Ms Walcot: No. Confidentiality clauses are

mai anogaeth fach iawn yw honno, mae'n anogaeth gydnabyddedig iddynt, er hynny. Fodd bynnag, mae'n broses barhaus. Dymunwn wneud cynnydd bob blwyddyn ac nid gadael i bobl orffwys ar eu bri yn unig. Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd yn gwneud yn dda yn dymuno gwella, beth bynnag.

[61] **Karen Sinclair:** Bydd yn eglur, felly?

Mrs Lloyd: Bydd yn eglur iawn.

[62] **Alison Halford:** Cewch seibiant, Mrs Lloyd; mae Mr Kershaw yn dod i fatio am ychydig. Mr Kershaw, dywedwch fod eich cwmni yn un ar gyfer ad-dalu a'i fod yn rhoi cyngor ar reoli risg. Pan ad-dalwch, a ydych yn defnyddio cymalau cyfrinachedd yn y setliadau o gwbl?

Mr Kershaw: A gaf ofyn i'm cydweithiwr ateb? Nid wyf yn ymwybodol ein bod yn defnyddio cymalau cyfrinachedd.

Ms Walcot: Na fyddwn. Mae cymalau

very hard to enforce and are not normally written into many of these settlements. I think that there have been some, but we are not able to enforce them anyway. Therefore, in general, they do not get written in to all settlements.

cyfrinachedd yn anodd iawn eu gorfodi ac ni chynhwysir hwy mewn llawer o'r setliadau hyn fel rheol. Credaf fod rhai wedi bod, ond ni allwn eu gorfodi, beth bynnag. Felly, yn gyffredinol, ni chynhwysir hwy yn yr holl setliadau.

[63] **Alison Halford:** Does that cause any concern to patients or yourselves? Some of these settlements are pretty hefty, are they not?

[63] **Alison Halford:** A yw hynny'n peri pryder o gwbl i gleifion neu i chi eich hunain? Mae rhai o'r setliadau hyn yn eithaf sylweddol, onid ydynt?

Mr Kershaw: I am not aware that that issue has been raised.

Mr Kershaw: Nid wyf yn ymwybodol bod y mater hwnnw wedi'i godi.

[64] **Alison Halford:** I am just interested because other organisations use confidentiality clauses and Sir John Bourne has frowned on this practice, which can be used to cover up bad management practices and so on. It must be borne in mind that you are quite big payers when it comes to compensation. I was just curious about making a comparison.

[64] **Alison Halford:** Yr unig reswm am fy niddordeb yw bod cyrff eraill yn defnyddio cymalau cyfrinachedd ac mae Syr John Bourne wedi gwgu ar yr arfer hwn, y gellir ei ddefnyddio i guddio arferion rheoli gwael ac yn y blaen. Rhaid cofio eich bod yn dalwyr eithaf mawr pan ddaw'n fater o iawndal. Nid oeddwn ond yn chwilfrydig ynghylch cymharu.

Mr Kershaw: I would be more than happy

Mr Kershaw: Byddwn yn falch iawn o fynd

to go back and check that for you. I am not aware that it has been an issue.

yn ôl a gwirio hynny i chi. Nid wyf yn ymwybodol iddo fod yn fater o dan sylw.

[65] **Alison Halford:** Mr Biggs, you are nodding. Do you want to add something?

[65] **Alison Halford:** Mr Biggs, yr ydych yn nodio'ch pen. A ddymunwch ychwanegu rhywbeth?

Mr Biggs: I do not think that I have anything to add.

Mr Biggs: Nid wyf yn credu bod gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu.

[66] **Alison Halford:** Go on, speak to me. You are very quiet.

[66] **Alison Halford:** Dewch ymlaen, siaradwch â mi. Yr ydych yn ddistaw iawn.

Mr Biggs: That is a very kind offer. I think that confidentiality clauses are more in the realm of the advice given by Welsh Health Legal Services, which gives advice to trusts, as opposed to the clear function of the pool. While I was nodding in terms of my past experience as a claims manager, my other experience with the Welsh Risk Pool is that it has a slightly different function.

Mr Biggs: Mae hynny'n gynnig caredig iawn. Credaf fod cymalau cyfrinachedd yn perthyn yn agosach i'r cyngor a roddir gan Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru, sydd yn cynghori ymddiriedolaethau, yn hytrach na swyddogaeth amlwg y gronfa. Er fy mod yn nodio fy mhen yn nhermau fy mhrofiad blaenorol fel rheolwr hawliadau, y profiad arall sydd gennyf gyda Chronfa Risg Cymru yw bod iddi swyddogaeth fymryn yn wahanol.

[67] **Alison Halford:** Mr Kershaw, what does the Welsh Risk Pool intend to do to bring up poorer performing trusts to the benchmark standard, particularly for those important risk management standards where compliance across Wales was lowest?

[67] **Alison Halford:** Mr Kershaw, beth y mae Cronfa Risg Cymru'n bwriadu ei wneud i godi'r ymddiriedolaethau sydd yn perfformio'n waelach i safon y feincnod, yn enwedig yn achos y safonau rheoli risg pwysig hynny lle yr oedd y cydymffurfiad ledled Cymru ar ei isaf?

Mr Kershaw: It is not the clear responsibility of the Welsh Risk Pool to increase the performance of trusts. That rests with the director of the NHS in Wales. What I can say is that publication of what the performance is, would, I hope, influence trusts to improve performance. I would like to add that we have the comprehensive Welsh risk management standards, which are contained in the blue folder on the table. This follows on from a point that was made earlier. I would never envisage that a trust would have 100 per cent compliance with those standards because they will always change. As we treat patients in different ways and as the law changes, those standards become more onerous. Trusts will therefore constantly strive to improve performance but against an ever-moving target. However, I think that the management of the performance of trusts

Mr Kershaw: Nid yw hybu perfformiad ymddiriedolaethau yn gyfrifoldeb clir ar Gronfa Risg Cymru. Cyfarwyddwr yr NHS yng Nghymru sydd yn gyfrifol am hynny. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw y byddai cyhoeddi'r hyn yw'r perfformiad yn dylanwadu ar yr ymddiriedolaethau, yr wyf yn gobeithio, i wella'u perfformiad. Hoffwn ychwanegu bod y safonau rheoli risg Cymreig cynhwysfawr gennym yn y ffolder glas ar y bwrdd. Mae hyn yn dilyn pwynt a wnaethpwyd yn gynharach. Ni ragwelwn byth y byddai ymddiriedolaeth yn cydymffurfio 100 y cant â'r safonau hynny oherwydd byddant yn newid o hyd. Wrth inni drin cleifion mewn gwahanol ffyrdd ac wrth i'r gyfraith newid, bydd y safonau hynny'n mynd yn drymach. Felly bydd yr ymddiriedolaethau'n ymdrechu'n gyson i wella'u perfformiad ond yn erbyn targed sydd yn symud o hyd. Fodd bynnag, credaf

against those standards is the responsibility of the director of the NHS in Wales.

fod rheoli perfformiad ymddiriedolaethau yn ôl y safonau hynny yn gyfrifoldeb i gyfarwyddwr yr NHS yng Nghymru.

Alison Halford: Is it fair to pass all of the parcel back to Mrs Lloyd when you said earlier, while giving evidence, that you have responsibility for giving advice on risk management?

Alison Halford: A yw'n deg rhoi'r cwbl o'r parcel yn ôl i Mrs Lloyd a chithau wedi dweud yn gynharach, wrth roi tystiolaeth, fod gennych gyfrifoldeb i roi cyngor ar reoli risg?

[68] **Mr Kershaw:** We mentioned earlier that our role in risk management is to encourage, train and support trusts in improving their risk management approaches. We do that partly through an assessment of those standards so that they know where they are. We also do that through the Risk Managers Network, which we set up a couple of years ago to encourage trusts to do things better, and through the training programme that we set up a year ago for risk managers. All of that did not exist two years ago. We are very much aware that we have a responsibility to promote risk management in trusts. The point that I was making was that the actual responsibility for managing the performance rests with the director of the NHS in Wales.

[68] **Mr Kershaw:** Dywedasom yn gynharach mai ein rôl mewn rheoli risg yw annog, hyfforddi a chynorthwyo ymddiriedolaethau wrth wella eu dulliau rheoli risg. Gwnawn hynny'n rhannol drwy asesiad o'r safonau hynny fel eu bod yn gwybod ym mha le y maent. Gwnawn hynny hefyd drwy'r Rhwydwaith Rheolwyr Risg, a sefydlasom rai blynyddoedd yn ôl er mwyn annog yr ymddiriedolaethau i wneud pethau'n well, a drwy'r rhaglen hyfforddi a sefydlasom flwyddyn yn ôl ar gyfer rheolwyr risg. Nid oedd dim o hynny'n bodoli ddwy flynedd yn ôl. Yr ydym yn ymwybodol iawn bod gennym gyfrifoldeb i hyrwyddo rheoli risg mewn ymddiriedolaethau. Y pwynt yr oeddwn yn ei wneud oedd mai cyfarwyddwr yr NHS yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb

gwirioneddol dros reoli'r perfformiad.

[69] **Alison Halford:** I am going to be beastly now, Mr Kershaw—something for which I am not known. As you have such a handle on the expertise needed to cope with these matters, why is your own trust below the benchmark? I cannot put it in a nicer way.

[69] **Alison Halford:** Yr wyf am fod yn annifyr yn awr, Mr Kershaw—rhywbeth nad wyf yn adnabyddus amdano. Gan fod gennych y fath afael yn yr arbenigedd sydd ei angen i ymdrin â'r materion hyn, pam y mae eich ymddiriedolaeth eich hun o dan y feincnod? Ni allaf ei eirio'n fwy caredig.

Mr Kershaw: I am very much aware of that. There is no doubt that my trust has to do better on these matters. We are a standards-driven organisation. We have been very preoccupied with other accreditation schemes over the last year—we have been involved in the health quality service, we have just received a third renewal of the charter mark for our acute services, and we are investors in people accredited. Therefore, we are very much a standards-driven organisation. We have had a slight disadvantage in that Mr Ian Biggs is shared between the Welsh Risk Pool and my own trust. Clearly, that was not sustainable. The work of the Welsh Risk Pool has grown enormously over the last two or three years, and we have now split the post so that we

Mr Kershaw: Yr wyf yn ymwybodol iawn o hynny. Nid oes amheuaeth bod yn rhaid i'm hymddiriedolaeth wneud yn well ar y materion hyn. Yr ydym yn gorff a yrrir gan safonau. Rhoesom lawer o'n sylw i gynlluniau achredu eraill dros y flwyddyn ddiwethaf—buom yn ymwneud â'r gwasanaeth ansawdd iechyd, mae'r nod siarter i'n gwasanaethau aciwt newydd ei hadnewyddu am y trydydd tro, ac fe'n hachredwyd yn fuddsoddwyr mewn pobl. Felly yr ydym yn gorff a yrrir gan safonau i raddau helaeth iawn. Buom o dan ychydig o anfantais am fod Mr Ian Biggs wedi'i rannu rhwng Cronfa Risg Cymru a'm hymddiriedolaeth i. Yr oedd yn amlwg na ellid parhau â hynny. Mae gwaith Cronfa Risg Cymru wedi tyfu'n aruthrol dros y

have a full time Welsh Risk Pool manager and a full-time manager for my own trust. Therefore, the answer to the question is that my trust is not performing as well as it should at the moment, but I hope that it will improve.

ddwy neu dair blynedd diwethaf, ac yr ydym bellach wedi rhannu'r swydd fel bod gennym reolwr llawn amser ar Gronfa Risg Cymru a rheolwr llawn amser ar fy ymddiriedolaeth i. Felly, yr ateb i'r cwestiwn yw nad yw fy ymddiriedolaeth yn perfformio cystal ag y dylai ar y funud, ond gobeithiaf y bydd yn gwella.

[70] **Alison Halford:** We need to press you a little on this. You tell us, quite rightly, that you have charter marks and such things, but you are still not hitting the benchmark. Therefore, can we put any faith in the areas of excellence that you are giving yourself? What is the point of an investors in people accreditation, or whatever, if you are failing to match a benchmark?

[70] **Alison Halford:** Mae angen inni bwysio amoch ychydig ar hyn. Yr ydych yn dweud wrthym, yn gwbl briodol, fod gennych nodau siarter a phethau o'r fath, ond yr ydych yn dal i beidio â chyrraedd y feincnod. Felly, a allwn ymddiried yn y meysydd rhagoriaeth yr ydych yn eu rhoi i chi eich hun? Beth yw diben achrediad buddsoddwyr mewn pobl, neu beth bynnag, os ydych yn methu â chyrraedd meincnod?

Mr Kershaw: There is a whole range of standards that trusts must meet, not just risk management standards or controls assurance standards. This is an approach to improve the manner in which we do things. I would never suggest that the actual clinical services within the trust are better or worse than anywhere else. We must aspire to these

Mr Kershaw: Mae amrediad eang o safonau y mae'n rhaid i ymddiriedolaethau eu cyrraedd, nid safonau rheoli risg neu safonau sicrwydd rheolaethau yn unig. Mae hyn yn ddull o wella'r modd yr ydym yn gwneud pethau. Ni fyddwn byth yn awgrymu bod y gwasanaethau clinigol presennol oddi mewn i'r ymddiriedolaeth yn well neu'n

standards, and I have said that we really need to improve on those.

waeth nag yn unman arall. Rhaid inni anelu at y safonau hyn, ac yr wyf wedi dweud bod gwir angen inni wella ar y rheini.

[71] **Alison Halford:** The fact that you have employed another person gives you greater capacity to do more and therefore improve your own performance perhaps?

[71] **Alison Halford:** Mae'r ffaith eich bod wedi cyflogi rhywun arall yn rhoi mwy o allu ichi wneud rhagor ac felly wella eich perfformiad eich hun efallai?

Mr Kershaw: As the Committee is aware, the trusts went through some complicated mergers—a reconfiguration, I think, in Wales—and there is no doubt that some of the trusts, and I think that this is stated in the report, were slightly disturbed during that period. I think that my trust, along with a number of others, has to improve.

Mr Kershaw: Fel y gwyr y Pwyllgor, aeth yr ymddiriedolaethau drwy rai cyfuniadau cymhleth—ailgyfluniad, yr wyf yn credu, yng Nghymru—ac nid oes amheuaeth bod rhai o'r ymddiriedolaethau, a chredaf fod yr adroddiad yn nodi hyn, wedi'u hanhrefnu ychydig yn ystod y cyfnod hwnnw. Credaf fod yn rhaid i'm hymddiriedolaeth i wella, ynghyd â nifer o rai eraill.

[72] **Alison Halford:** We were told that the Welsh risk management standards—that trips off the tongue, does it not—would take effect from January 2001. Are they? Are they in place?

[72] **Alison Halford:** Dywedwyd wrthym y byddai safonau rheoli risg Cymru—mae hynny'n hawdd ei ddweud, onid yw—yn dod i rym o Ionawr 2001. A ydynt? A ydynt ar waith?

Mr Kershaw: Yes. Those standards are

Mr Kershaw: Ydynt. Mae'r safonau hynny

now in place. Trusts will be assessed against those standards in June this year. We will also be employing an assessor this summer to assess all the trusts against those standards. The assessment period in question is between January and March 2001, and the assessment takes place in June.

[73] **Alison Halford:** Sir John Bourne's report gives £2.7 million as an illustration of potential savings arising from improved risk management standards—this figure is given on page 32, paragraph 4.19 of the report. In your view, what is the realistic level of savings that might accrue? Can we get a realistic level of savings?

Mr Kershaw: I am not certain in my own mind that there is a direct correlation between an improvement in the standards and a financial saving as a result of claims. One reason for that is that, as we have already heard this afternoon, the average time that it takes for a claim to be dealt with is four and a half years in totality. Therefore, what we do today to improve our services and systems may well not be seen for some

ar waith yn awr. Asesir yr ymddiriedolaethau yn ôl y safonau hynny ym Mehefin eleni. Byddwn hefyd yn cyflogi aseswr yr haf hwn i asesu'r holl ymddiriedolaethau yn ôl y safonau hynny. Mae'r cyfnod asesu dan sylw rhwng Ionawr a Mawrth 2001, a bydd yr asesiad ym Mehefin.

[73] **Alison Halford:** Mae adroddiad Syr John Bourne yn rhoi £2.7 miliwn fel enghraifft o'r arbedion posibl yn codi o well safonau rheoli risg—rhoddir y ffigur hwn ar dudalen 32, paragraff 4.19 yr adroddiad. Yn eich barn chi, beth yw lefel realistig yr arbedion a allai ddod o hynny? A allwn gael lefel realistig o arbedion?

Mr Kershaw: Nid wyf yn sicr yn fy meddwl fy hun fod cydberthynas uniongyrchol rhwng gwelliant yn y safonau ac arbediad ariannol o ganlyniad i hawliadau. Un rheswm am hynny, fel y clywsom eisoes y prynhawn yma, yw mai'r amser y mae'n ei gymryd i ddelio â hawliad ar gyfartaledd yw pedair blynedd a hanner i gyd. Felly mae'n ddigon posibl na welir canlyniad yr hyn a wnawn heddiw i wella ein gwasanaethau am

time in the future, depending on the length of the claim. I would probably agree that there is absolutely no doubt that improving risk management within health care organisations can ultimately only help to reduce the risk of damaged patients. I think that that is the really important issue. I am not sure whether I have a clearer view about the absolute amount of financial savings that would go with that.

[74] **Alison Halford:** This is my last question. We have been told that trusts that achieve the benchmark of 75 per cent compliance with the risk management standards benefit from a discount of £5,000. Given the cost of putting in place robust procedures in areas of risk, is that a sufficient incentive for trusts to take the necessary steps to improve their whole management systems?

Mr Kershaw: The mechanism is that for each claim that the trust might make against the Welsh Risk Pool for reimbursement, the trust will have a differential excess on that according to its position on the table of compliance with the standards. A trust could

beth amser i ddod, gan ddibynnu ar hyd amser yr hawliad. Byddwn yn cytuno, yn ôl pob tebyg, nad oes amheuaeth o gwbl y gall gwella rheoli risg oddi mewn i gyrff gofal iechyd wneud dim yn y pen draw ond helpu i leihau'r perygl o niwed i gleifion. Credaf mai hwnnw yw'r mater gwirioneddol bwysig. Nid wyf yn sicr a oes gennyf farn fwy clir am holl swm yr arbedion ariannol a fyddai'n mynd law yn llaw â hynny.

[74] **Alison Halford:** Dyma fy nghwestiwn olaf. Dywedwyd wrthym fod ymddiriedolaethau sydd yn cyrraedd y feincnod o 75 y cant o gydymffurfiad â'r safonau rheoli risg yn cael gostyngiad o £5,000. O ystyried cost sefydlu gweithdrefnau cadarn mewn meysydd risg, a yw hynny'n ddigon o anogaeth i'r ymddiriedolaeth gymryd y camau angenrheidiol i wella eu holl systemau rheoli?

Mr Kershaw: Y mecanwaith yw y codir tâl dros ben gwahanredol ar yr ymddiriedolaeth am bob hawliad y gallai ei gyflwyno i Gronfa Risg Cymru am ad-daliad, yn ôl ei safle yn y tabl cydymffurfiad â'r safonau. Gallai ymddiriedolaeth gael bod hynny'n eithaf

find that quite punitive in financial terms if it had a number of claims in a particular year. I cannot find a table to show you at the moment, but you will see that there are three different ranges according to how punitive that differential excess is. At the moment, and this is the first year that the Welsh Risk Pool has instigated this, we think that it is a good mechanism to encourage trusts to improve their performance against the standards. As a management group of the Welsh Risk Pool, we review that approach annually and that is already in our plans for this year.

cosbol yn ariannol os câi nifer o hawliadau mewn blwyddyn arbennig. Ni allaf ddod o hyd i dabl i ddangos hynny i chi ar y funud, ond byddwch yn gweld bod tri gwahanol amrediad yn ôl pa mor gosbol yw'r tâl dros ben gwahanredol hwnnw. Ar hyn o bryd, a hon yw'r flwyddyn gyntaf i Gronfa Risg Cymru roi hyn ar waith, credwn ei fod yn fecanwaith da er mwyn annog ymddiriedolaethau i wella eu perfformiad yn ôl y safonau. Fel grwp rheoli Cronfa Risg Cymru, yr ydym yn adolygu'r dull gweithredu hwnnw bob blwyddyn ac mae hynny eisoes yn ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn hon.

[75] **Alison Halford:** This really is my last question. Is there anything else that you need to do, if you say that it can be fairly punitive to trusts? What would you like to recommend?

[75] **Alison Halford:** Hwn yw fy nghwestiwn olaf, yn wir. A oes rhywbeth arall y mae angen ichi ei wneud, os dywedwch y gall fod yn eithaf cosbol i ymddiriedolaethau? Beth hoffech ei argymhell?

Mr Kershaw: There is a balance between encouraging, motivating and enthusing trusts to improve performance, and putting them in what could almost be described as financial distress. That is one of the reasons why we

Mr Kershaw: Mae cydbwysedd rhwng annog, symbylu a thanio brwdfrydedd ymddiriedolaethau i wella eu perfformiad, a'u rhoi yn yr hyn y gellid bron ei ddisgrifio'n gyni ariannol. Dyna un o'r rhesymau pam y

related part of the premium that the trust pays to the claims history over the last four years. It is only about 15 per cent of the addition that they pay every year. If we were to increase that there is the great potential that if a trust were to have, for example, two brain-damaged baby cases in one year, which might have had a gestation period of 15 years ago, it could suddenly be faced with a huge increase in the cost of the Welsh Risk Pool. For the director of the NHS in Wales, that might destabilise the financial position of some trusts. The balance is about doing things that will encourage and motivate trusts, adding a little spice of financial damages, but without destabilising them. Sometimes, that is quite a fine balance.

cysylltasom ran o'r premiwm y mae'r ymddiriedolaeth yn ei dalu â'r hanes o hawliadau dros y pedair blynedd cynt. Nid yw ond tua 15 y cant o'r ychwanegiad y maent yn ei dalu bob blwyddyn. Pe baem yn cynyddu hwnnw, mae posibilïad mawr, pe bai ymddiriedolaeth yn cael, er enghraifft, ddau achos o fabanod â niwed i'w hymennydd mewn un flwyddyn, a'r rheini wedi cymryd 15 mlynedd i ddod i'w terfyn, y gallai wynebu cynnydd anferth yn sydyn yng nghost Cronfa Risg Cymru. O safbwynt cyfarwyddwr yr NHS yng Nghymru, gallai hynny ddadsefydlogi sefyllfa ariannol rhai ymddiriedolaethau. Mae'r cydbwysedd yn ymwneud â gwneud pethau a fydd yn annog ac yn symbylu ymddiriedolaethau, ychwanegu ychydig o flas o gosbau ariannol, ond heb eu dadsefydlogi. Weithiau, mae'r cydbwysedd hwnnw'n eithaf tringar.

[76] **Janet Davies:** We are a bit ahead of time, but it would probably be a good idea to finish the evidence session before we have a coffee break. I think that everybody would prefer that.

[76] **Janet Davies:** Yr ydym ychydig o flaen amser, ond byddai'n syniad da gorffen y sesiwn tystiolaeth cyn inni gael egwyl goffi, yn ôl pob tebyg. Credaf y byddai hynny'n well gan bawb.

[77] **Jocelyn Davies:** I would like to ask

[77] **Jocelyn Davies:** Hoffwn holi ynghylch

about the reporting of the adverse incidents. Having a robust system is important by way of providing trusts with early warnings of potential incidents of negligence. In Wales, two trusts had not implemented such a system at the time of the field work for this report. Can you confirm that all trusts, including those two, have now implemented the system?

adrodd am y digwyddiadau adfydus. Mae cael system gadarn yn bwysig o ran rhoi rhybuddion cynnar i ymddiriedolaethau am ddigwyddiadau posibl o esgeulustod. Yng Nghymru, yr oedd dwy ymddiriedolaeth heb weithredu system o'r fath ar adeg y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn. A allwch gadarnhau bod yr holl ymddiriedolaethau, gan gynnwys y ddwy hyn, wedi gweithredu'r system bellach?

Mrs Lloyd: It is my understanding, given the briefing that I have had, that they have implemented the systems. I shall see all trusts in the next two months and I will meet with the chief executives of the trusts on Tuesday and I will establish once and for all whether or not they are complying with the reporting systems that we expect them to comply with.

Mrs Lloyd: Yr wyf yn deall, ar sail y cyfarwyddyd a gefais, eu bod wedi gweithredu'r systemau. Byddaf yn gweld yr holl ymddiriedolaethau yn y ddau fis nesaf a byddaf yn cyfarfod â phrif weithredwyr yr ymddiriedolaethau ddydd Mawrth a byddaf yn cadarnhau unwaith ac am byth a ydynt yn cydymffurfio â'r systemau adrodd y disgwyliwn iddynt gydymffurfio â hwy ai peidio.

[78] **Jocelyn Davies:** You talked earlier about being able to share information. Can you tell me what progress the Assembly has made in developing a standardised database for the reporting of adverse incidents?

[78] **Jocelyn Davies:** Soniasoch yn gynharach am allu rhannu gwybodaeth. A allwch ddweud wrthyf pa gynnydd a wnaeth y Cynulliad wrth ddatblygu cronfa ddata safonol ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau adfydus?

89. **Mrs Lloyd:** We are working with England at the moment on using the same sort of database that it will use to report adverse incidents because we feel that it is important that there is a standardised system across the United Kingdom so that we can share information on a wider scale. Those discussions are taking place at the moment. In the meantime, I have asked the trusts to advise me explicitly of their implementation programmes against the organisation with the memory, which has been rolled out throughout the country. The clinical governance review, to which I referred earlier, will give me chapter and verse on where all trusts now stand in terms of being able to input their information into the wider national clinical assessment authority that is being established, to ensure that we are compliant with that.

90. **Mrs Lloyd:** Yr ydym yn gweithio gyda Lloegr ar hyn o bryd ar ddefnyddio'r un math o gronfa ddata â hi i adrodd am ddigwyddiadau adfydus oherwydd teimlwn ei bod yn bwysig bod system safonol ledled y Deyrnas Unedig fel y gallwn rannu gwybodaeth ar raddfa ehangach. Mae'r trafodaethau hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, gofynnais i'r ymddiriedolaeth roi gwybod imi'n benodol am eu rhaglenni gweithredu mewn perthynas â'r drefniadaeth â'r cof, sydd wedi'i hymestyn ledled y wlad. Bydd yr adolygiad o lywodraethu clinigol, y cyfeiriais ato'n gynharach, yn rhoi pennod ac adnod i mi ynghylch sefyllfa bresennol yr holl ymddiriedolaethau o ran eu gallu i fewnbynnu eu gwybodaeth i'r awdurdod asesu clinigol cenedlaethol ehangach a sefydlir, i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â hynny.

[79] **Jocelyn Davies:** I will now move on to ask about the Risk Managers Network. It is a useful forum for disseminating information and sharing best practice.

[79] **Jocelyn Davies:** Af ymlaen yn awr i holi ynghylch y Rhwydwaith Rheolwyr Risg. Mae'n fforwm defnyddiol ar gyfer lledaenu gwybodaeth a rhannu'r arfer gorau. Fodd

However, the group's remit extends to all risk management issues, not just clinical negligence. Given the enormous scope for trusts to learn from each other's experience in preventing and handling clinical negligence, is this network sufficiently focused?

91.

Mrs Lloyd: I believe that it is. The issue of other types of risk—risk of danger and injury to staff—has been reasonably well established for a number of years, particularly through the health and safety inspections to which the NHS has been subjected over the past 10 years. I think that I will be asking the Welsh Risk Pool to assess whether or not that network is the competent organisation to share that information. However, I would certainly expect the Welsh Risk Pool itself to be networking with all trusts to ensure that they are receiving information pertinent to them, in terms of both clinical and non-clinical risk, and risk to staff.

[80] **Jocelyn Davies:** Could we talk a little now about alternative remedies? The Auditor General has mentioned the lack of

bynag, mae cylch gwaith y grwp yn cynnwys yr holl faterion rheoli risg, nid esgeulustod clinigol yn unig. O ystyried y cyfle enfawr i'r ymddiriedolaethau ddysgu o brofiadau ei gilydd wrth atal a thrafod esgeulustod clinigol, a yw ffocws y rhwydwaith hwn yn ddigonol?

92.

Mrs Lloyd: Credaf ei fod. Mae mater y mathau eraill o risg—risg o berygl ac anaf i staff—wedi'i sefydlu'n weddol dda ers rhai blynyddoedd, yn enwedig drwy'r arolygiadau iechyd a diogelwch ar yr NHS dros y 10 mlynedd diwethaf. Credaf y byddaf yn gofyn i Gronfa Risg Cymru asesu ai'r rhwydwaith hwnnw yw'r corff cymwys i rannu'r wybodaeth honno ai peidio. Fodd bynnag, byddwn yn sicr yn disgwyl i Gronfa Risg Cymru ei hun rwydweithio â'r holl ymddiriedolaethau i sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth sydd yn berthnasol iddynt, o ran risg clinigol a risg anghlinigol, a risg i staff.

[80] **Jocelyn Davies:** A allem sôn ychydig yn awr am feddyginiaethau amgen? Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi crybwyll y

channels of communication between clinicians and patients and also the secretive culture that some say exists in the NHS. Obviously, that is a barrier to learning from each other's mistakes. What have you done to ensure a more open culture?

diffyg cyfryngau cyfathrebu rhwng clinigwyr a chleifion a hefyd y diwylliant cyfrinachgar y mae rhai'n dweud ei fod yn bodoli yn yr NHS. Mae'n amlwg bod hynny'n rhwystr rhag dysgu o gamgymeriadau ei gilydd. Beth a wnaethoch i sicrhau diwylliant mwy agored?

Mrs Lloyd: As a consequence of the review of medical negligence and the review of the complaints system that has been going on during the past year, trusts have been encouraged to adopt a no blame culture, as I explained earlier. As part of the performance management system, we will be able to establish how far along the track they have got. One would expect the number of clinical incidents reported to rise but to change in their nature, in that possibly less serious incidents start to be reported, which incidents can be avoided and will be included in staff training. However, I cannot give you an assessment of how far we have progressed along that track until I have received the clinical governance report.

Mrs Lloyd: O ganlyniad i'r adolygiad o esgeulustod meddygol a'r adolygiad o'r system cwynion a fu'n mynd ymlaen yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, anogwyd yr ymddiriedolaethau i fabwysiadu diwylliant o beidio â bwrw bai, fel yr eglurais yn gynharach. Fel rhan o'r system rheoli perfformiad, byddwn yn gallu canfod pa mor bell yr aethant ar hyd y ffordd. Byddai rhywun yn disgwyl i nifer y digwyddiadau clinigol a adroddir gynyddu ond iddynt newid o ran eu natur, i'r graddau y dechreuir adrodd am ddigwyddiadau a allai fod yn llai difrifol, pa ddigwyddiadau y gellir eu hosgoi ac a gynhwysir mewn hyfforddiant staff. Fodd bynnag, ni allaf roi asesiad i chi o ba mor bell yr aethom ar hyd y ffordd honno hyd nes y byddaf wedi derbyn yr adroddiad llywodraethu clinigol.

[81] **Jocelyn Davies:** The alternative remedies such as mediation and ex gratia payments offer the prospect of resolving claims in a mutually satisfactory way for all involved. They also prevent costly legal proceedings. After all, some people say that all they wanted was an apology. What have you done to encourage the scope for that?

[81] **Jocelyn Davies:** Mae'r meddyginiaethau amgen fel cyfryngu a chydnyddiaethau'n cynnig y gobaith o benderfynu ar hawliadau mewn modd sydd yn foddhaol i bawb sydd yn gysylltiedig. Maent hefyd yn atal achosion cyfreithiol drud. Wedi'r cyfan, dywed rhai mai'r cwbl yr oedd arnynt ei angen oedd ymddiheuriad. Beth a wnaethoch i hybu'r cyfle ar gyfer hynny?

Mrs Lloyd: In the complaints procedure that exists at the moment, let alone the one that is about to come into being, clinical staff in the round have a responsibility and duty to provide an apology and an explanation if an incident arises. That is now a requirement of their professional bodies. That has certainly been encouraged in terms of the process that patients must go through in the complaints procedure, in that independent reviews cannot be accepted and instituted unless an explanation has been offered to the patient. There are some patients who wish to go to independent review without that. However, there are now certain processes in place which allow patients to seek the information that they require in order to make a judgment in the first instance and for our staff

Mrs Lloyd: Yn yr weithdrefn cwynion sydd yn bodoli ar hyn o bryd, heb sôn am yr un sydd ar fin dod i fodolaeth, mae gan yr holl staff clinigol gyfrifoldeb a dyletswydd i roi ymddiheuriad ac eglurhad os yw digwyddiad yn codi. Mae hynny'n ofyniad bellach gan eu cyrff proffesiynol. Hybwyd hynny'n sicr o ran y broses y mae'n rhaid i gleifion ei dilyn yn yr weithdrefn cwynion, i'r graddau na ellir derbyn a chychwyn adolygiadau annibynnol oni bai fod eglurhad wedi'i gynnig i'r claf. Mae rhai cleifion sydd yn dymuno troi at adolygiad annibynnol heb hynny. Fodd bynnag, mae prosesau penodol ar waith bellach sydd yn caniatáu i gleifion geisio'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen er mwyn gwneud dyfarniad yn y lle cyntaf ac i'n staff roi eglurhad iawn iddynt, ac ymddiheuriad lle

to provide them with a proper explanation, and an apology where that is appropriate. There has been a considerable increase in the use of those techniques.

y bo hynny'n briodol. Bu cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r technegau hynny.

The health service has always been somewhat nervous about ex gratia payments, in that I think it has always been quite nervous about whether or not it would be able to justify them as an appropriate use of the public purse's resources. Nevertheless, there is a growing incidence of ex gratia payments being used where, on thorough investigation within the organisation, fault is identified. Instead of putting the patient and the organisation through a tortuous legal process, an ex gratia payment for distress, pain or injury is offered to the individual. I would prefer it to be that way. I think that it is much better to face up to mistakes, deal with them proactively, see the patient and his or her relatives, admit where a mistake has been made and provide a proper explanation than to make the patient go through very difficult processes in order to get proper recompense. Do you want me to say something about mediation?

Mae'r gwasanaeth iechyd braidd yn nerfus erioed ynghylch cydnabyddiaethau, i'r graddau ei fod yn eithaf nerfus erioed, yr wyf yn credu, ynghylch a allai eu cyfiawnhau fel defnydd priodol o adnoddau'r pwrs cyhoeddus ai peidio. Er hynny, defnyddir cydnabyddiaethau'n fwy mynych lle, ar ôl ymchwiliad trwyadl oddi mewn i'r corff, y canfyddir bai. Yn lle gorfodi'r claf a'r corff i ddilyn proses gyfreithiol drofaus, cynnigir cydnabyddiaeth oherwydd gofid, poen neu anaf i'r unigolyn. Byddai'n well gennyf pe bai felly. Credaf ei bod yn well o lawer wynebu camgymeriadau, eu trafod yn rhagweithiol, gweld y claf a'i berthnasau, cyfaddef lle y gwnaethpwyd camgymeriad a chynnig eglurhad iawn yn hytrach na gorfodi'r claf i ddilyn prosesau anodd iawn er mwyn cael iawndal priodol. A ddymunwch imi ddweud rhywbeth am gyfryngu?

[82] **Jocelyn Davies:** If you like.

[82] **Jocelyn Davies:** Os dymunwch.

Mrs Lloyd: There is a scheme taking place in England, as has been described in the Auditor General's report, where mediation is offered on all claims. We should get the results of that in June 2001. In Wales, we decided that we would await the results of that fairly comprehensive exercise. We are working closely with the NHS litigation authority on that. We will therefore be able to form a judgment after June when the results of the experiments and pilot scheme are known to us, to roll out mediation and other forms of managing patients' complaints better.

Mrs Lloyd: Mae cynllun yn digwydd yn Lloegr, fel y'i disgrifiwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, lle y cynigir cyfryngu ar bob hawliad. Dylem gael canlyniadau hynny ym Mehefin 2001. Yng Nghymru, penderfynasom y byddem yn disgwyl canlyniadau'r ymarfer eithaf cynhwysfawr hwnnw. Yr ydym yn gweithio'n agos gydag awdurdod ymglyfreitha'r NHS ar hynny. Felly byddwn yn gallu ffurfio barn ar ôl mis Mehefin pan fyddwn yn gwybod canlyniadau'r arbrofion a'r cynllun peilot, er mwyn ymestyn cyfryngu a dulliau eraill o reoli cwynion cleifion yn well.

[83] **Jocelyn Davies:** I have one last question on managing patients' complaints better. I am sure that you are aware of *The Observer* article last July that said that beleaguered doctors were threatening to sue patients who complained for defamation and that the threat of the prosecution was being used by doctors in an attempt to hit back at the rising tide of complaints. Those findings emerged from a survey by the Association

[83] **Jocelyn Davies:** Mae gennyf un cwestiwn olaf ar reoli cwynion cleifion yn well. Yr wyf yn sicr y gwyddoch am yr erthygl yn *The Observer* fis Gorffennaf diwethaf a ddywedodd fod meddygon dan warchae yn bygwth erlyn cleifion a gwynai am ddifenwi a bod meddygon yn defnyddio'r bygythiad o erlyn mewn ymgais i daro'n ôl yn erbyn y llif cynyddol o gwynion. Daeth y canfyddiadau hynny o arolwg gan

of Community Health Councils. It found that in more than 20 per cent of health authorities doctors had threatened to sue patients for libel or slander for daring to complain. The survey found dozens of cases where patients had withdrawn complaints following the threat of legal action. In fact, it had warned off many patients. Would you expect patients to go down the route of the alternative remedy, where they are unprotected by a solicitor, I think, if they run the risk of being threatened with legal proceedings? It is a much more informal route. If you decide to sue, at least you then have the protection of a solicitor. How common—this is a survey done by the Association of Community Health Councils so it has some legitimacy—is it for people in Wales who dare to complain to be threatened with legal action themselves?

Mrs Lloyd: There are a number of issues in your question. In terms of how common it is in Wales, I have not seen the results of any Welsh survey independently undertaken. I will ask our Association of Community Health Councils for its view on that, and

Gymdeithas y Cynghorau Iechyd Cymuned. Canfu fod meddygon mewn mwy na 20 y cant o awdurdodau iechyd wedi bygwth erlyn cleifion am enllib ac athrod am feiddio cwyno. Darganfu'r arolwg ddwsinau o achosion lle'r oedd cleifion wedi tynnu cwynion yn ôl ar ôl bygythiad o achos cyfreithiol. Mewn gwirionedd, yr oedd wedi bod yn rhybudd i lawer o gleifion gadw draw. A fyddech yn disgwyl i gleifion ddilyn llwybr y feddyginiaeth amgen, lle nad ydynt wedi'u hamddiffyn gan gyfreithiwr, yr wyf yn credu, os ydynt yn mentro'r bygythiad o achos cyfreithiol? Mae'n llwybr mwy anffurfiol o lawer. Os penderfynwch erlyn, o leiaf wedyn y cewch eich amddiffyn gan gyfreithiwr. Pa mor gyffredin—arolwg a wnaethpwyd gan Gymdeithas y Cynghorau Iechyd Cymuned yw hwn felly mae iddo gryn ddilysrwydd—ydyw i bobl yng Nghymru sydd yn meiddio cwyno gael bygythiad o achos cyfreithiol eu hunain?

Mrs Lloyd: Mae nifer o faterion yn eich cwestiwn. O ran pa mor gyffredin ydyw yng Nghymru, ni welais ganlyniadau unrhyw arolwg yng Nghymru a ymgwymerwyd yn annibynnol. Byddaf yn gofyn i'n Cymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned am ei barn ar

provide you with its response. I think that the action described by *The Observer* is entirely unacceptable and I am sure that it would be unacceptable to the Assembly. If we are to deal properly with the concerns and complaints of individuals, we must be honest and open about it and we must engender a culture of openness and admitting mistakes where they occur. There are some complainants who really have had the answer and had it more than once, who will pursue their complaint. Basically the best way of dealing with them is to offer them an independent review so that the suspicion that the individual dealing with them might be covering up for his or her organisation can then be tested in a more independent way. However, I would be very concerned indeed if we found that hitting back at patients was a prevalent trend in Wales. I will be interested to see the findings of the Welsh Association of Community Health Councils, and will take up any concerns that I have, arising from its information, with the trusts concerned.

hynny, ac yn rhoi ei hymateb i chi. Credaf fod y camau a ddisgrifiwyd yn *The Observer* yn gwbl annerbyniol ac yr wyf yn sicr y byddai'n annerbyniol i'r Cynulliad. Os ydym i ymdrin yn briodol â phryderon a chwynion unigolion, rhaid inni fod yn onest ac yn agored yn ei gylch a rhaid inni feithrin diwylliant o weithredu agored a chyfaddef pan ddigwydd camgymeriadau. Mae rhai achwynwyr sydd wedi cael yr ateb mewn gwirionedd a hynny fwy nag unwaith, a fydd yn dilyn eu cwyn. Yn y bôn, y dull gorau o'u trafod yw cynnig adolygiad annibynnol iddynt fel y gellir rhoi prawf mwy annibynnol ar yr amheuaeth bod yr unigolyn sydd yn delio â hwy yn cuddio bai dros ei gorff. Fodd bynnag, byddwn yn bryderus dros ben os caem fod taro'n ôl yn erbyn cleifion yn duedd cyffredin yng Nghymru. Bydd o ddiddordeb imi weld canfyddiadau Cymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, a byddaf yn codi unrhyw bryderon sydd gennyf, ar sail ei gwybodaeth, gyda'r ymddiriedolaethau dan sylw.

[84] **Jocelyn Davies:** Could I ask Alison, from the legal services point of view, whether she is aware of ever having offered the advice to anyone who has come to the

[84] **Jocelyn Davies:** A gaf ofyn i Alison, o safbwynt y gwasanaethau cyfreithiol, a yw'n ymwybodol o fod wedi cynnig cyngor erioed i rywun a ddaeth at y gwasanaeth y gallai ef

service that he or she may threaten to sue for slander or defamation? neu hi fygwth erlyn am athrod neu ddifenwi?

Ms Walcot: No, I am not aware of any such cases.

Ms Walcot: Nac ydwyf, ni wn am unrhyw achosion o'r fath.

[85] **Jocelyn Davies:** Thank you.

[85] **Jocelyn Davies:** Diolch i chi.

[86] **Dafydd Wigley:** I just have a couple of points. Picking up on a term that was used—'mediation services'—are you looking at the possibility of a mediation service on an all-Wales level? To what extent is it more likely that you could achieve successful mediation if that process were taken away from the trust itself? There will always be a feeling of wanting to avoid blame or guilt; it is only natural that that should be the case. If you could settle those cases where there is a 90 per cent chance of having to settle, and do so out of court quickly, there might be a saving to be made. I do not know whether you are thinking of going down that road.

[86] **Dafydd Wigley:** Nid oes gennyf ond dau bwynt. Gan ddilyn term a ddefnyddiwyd—'gwasanaethau cyfryngu'—a ydych yn ystyried y posibiliad o wasanaeth cyfryngu ar lefel Cymru gyfan? I ba raddau y mae'n fwy tebygol y gallech sicrhau cyfryngu llwyddiannus os gallech gymryd y broses honno oddi wrth yr ymddiriedolaeth ei hun? Bydd teimlad bob amser o ddymuno osgoi bai neu euogrwydd; nid yw ond yn naturiol i hynny fod yn wir. Os gallech setlo'r achosion hynny lle y mae 90 y cant o debygolrwydd o orfod setlo, a gwneud hynny'n gyflym y tu allan i'r llys, mae'n bosibl y gellid cael arbediad drwy hynny. Ni wn a ydych yn ystyried dilyn y llwybr hwnnw.

Mrs Lloyd: I think that mediation is

Mrs Lloyd: Credaf fod cyfryngu'n waith

tremendously skilled. To provide training to the thousands of staff who might be involved in mediation would probably cost a fortune and might not be as effective. I think that, arising from the experiment that is going on in England, we need to think through how best we could operate mediation in a very professional and open way. Your suggestion is quite sensible and one that we would wish to take forward and test.

aruthrol o fedrus. Byddai darparu hyfforddiant i'r miloedd o staff a allai fod yn gysylltiedig â chyfryngu'n costio arian mawr yn ôl pob tebyg ac efallai na fyddai mor effeithiol. Credaf, ar sail yr arbrawf sydd yn mynd ymlaen yn Lloegr, fod angen inni ystyried yn ofalus sut y gallem weithredu cyfryngu orau mewn modd proffesiynol ac agored iawn. Mae'ch awgrym yn synhwyrol iawn ac yn un y dymunem fwrw ymlaen ag ef a rhoi prawf arno.

[87] **Dafydd Wigley:** Thank you. As a matter of interest, are you seeing any increase in lawyers being involved in cases on a 'no-win, no-fee' basis? We see adverts on television all the time, with due deference to the lawyers who are present here, which seem to encourage people to want to chase cases to law. Everybody should have their rights of course, but if things can be settled without recourse to law, that would obviously be in everybody's interest. Are you seeing any greater involvement of lawyers on that basis?

[87] **Dafydd Wigley:** Diolch i chi. Fel mater o ddiddordeb, a ydych yn gweld unrhyw gynnydd yn y rhan a gymerir gan gyfreithwyr mewn achosion ar sail 'dim ennil, dim ffi'? Gwelwn hysbysebion ar y teledu drwy'r amser, gyda phob dyledus barch i'r cyfreithwyr sydd yn bresennol yma, yr ymddengys eu bod yn cymell pobl i ddymuno mynd ag achosion i gyfraith. Dylai pawb gael ei hawliau wrth gwrs, ond os gellir setlo pethau heb droi at y gyfraith, mae'n amlwg y byddai hynny er budd pawb. A ydych yn gweld unrhyw gynnydd yn y rhan a gymerir gan gyfreithwyr ar y sail honno?

Mrs Lloyd: I think that Alison could

Mrs Lloyd: Credaf y gallai Alison ateb

probably answer that.

hynny, yn ôl pob tebyg.

Ms Walcot: There is a change in the funding for claimants bringing claims. There has been some phasing out of legal aid. There are claims that are now run on a conditional fee basis and there is legal insurance protection so that claimants may bring their claims under that if they are not eligible for legal aid. I am not sure what the actual figures are. They are obviously quite new claims, so I do not know at present how much of an impact they will have.

Ms Walcot: Mae newid yn yr ariannu i hawlwyrr sydd yn cyflwyno hawliadau. Bu rhywfaint o ddiddymu graddol o gymorth cyfreithiol. Mae hawliadau'n awr a redir ar sail ffi amodol ac mae amddiffyniad yswiriant cyfreithiol fel y gall hawlwyrr gyflwyno'u hawliadau o dan hynny os nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol. Nid wyf yn sicr beth yw'r union ffigurau. Mae'n amlwg eu bod yn hawliadau eithaf newydd, felly ni wn ar hyn o bryd faint o effaith a gânt.

[88] **Dafydd Wigley:** My worry is that there could be a mushrooming of claims. Heaven forbid that we go down the road of the United States where everybody resorts to legal action at the drop of a hat. That is why I am glad to hear about the mediation service. If that gets a good reputation, it will hopefully lead to legal action being avoided.

[88] **Dafydd Wigley:** Yr hyn sydd yn fy mhoeni i yw y gallai hawliadau dyfu dros nos. Na ato Duw inni ddilyn llwybr yr Unol Daleithiau lle y mae pawb yn troi at achos cyfreithiol ar yr esgus lleiaf. Dyna pam y mae'n dda gennyf glywed am y gwasanaeth cyfryngu. Os caiff hwnnw enw da, gobeithiaf y bydd yn arwain at osgoi achosion cyfreithiol.

[89] **Karen Sinclair:** Just to pick up on what Dafydd said, we have all watched with horror the 'where there is blame, there is a

[89] **Karen Sinclair:** Gan ddilyn yr hyn a ddywedodd Dafydd, yr ydym oll wedi gwyllo gydag arswyd yr hysbysebion 'lle y

claim' advertisements on the television. They are horrendous. However, on a 'no-fee' basis, I would think that companies would be very careful about what cases they would be prepared to take on. I think that it is an awful way of doing it—taking a percentage of the outcome—but I would have thought that companies would be very careful and would not pick up a case, if they did not think that it was a fairly solid one. That is the only solace you have on that.

Ms Walcot: Yes, I would agree.

[90] **Janet Davies:** I thank all the witnesses for their very full and helpful answers. This has been a very important session on an issue of increasing importance and concern. I am sure that we will re-visit this matter. Indeed, I will ask the Committee later whether, if we can fit it in, it would be willing to meet some representatives from trusts to discuss their points of view and the problems that they perceive. My view of the Audit Committee is that it exists not so much to apportion blame as to try to get better answers and improved practices. At the end of the day, that is more important than

mae bai, y mae hawliad' ar y teledu. Maent yn arswydus. Fodd bynnag, ar sail 'dim ffi', tybiaf y byddai cwmnïau'n dra gofalus ynghylch pa achosion y byddent yn barod i ymgymryd â hwy. Credaf fod hynny'n ffordd ofnadwy i'w wneud—cymryd canran o'r canlyniad—ond byddwn yn credu y byddai cwmnïau'n dra gofalus ac yn peidio a chymryd achos, os nad oeddent yn credu ei fod yn un eithaf cadarn. Dyna'r unig gysur sydd gennych ar hynny.

Ms Walcot: Ie, byddwn yn cytuno.

[90] **Janet Davies:** Diolchaf i'r holl dystion am eu hatebion llawn a defnyddiol iawn. Bu hwn yn sesiwn pwysig iawn ar fater o bwys a phryder cynyddol. Yr wyf yn sicr y byddwn yn dod yn ôl at y mater hwn. Yn wir, byddaf yn gofyn i'r Pwyllgor yn ddiweddarach, os gallwn gael lle iddo, a fyddai'n barod i gyfarfod â chynrychiolwyr o'r ymddiriedolaethau i drafod eu safbwyntiau a'r problemau a welant. Yn fy marn i mae'r Pwyllgor Archwilio'n bodoli nid yn gymaint i roi bai ond i geisio cael gwell atebion a gwell arferion. Yn y pen draw, mae hynny'n bwysicach na gweiddi ar bobl a

shouting at people and trying to say that they cheisio dweud bod bai arnynt.
are at fault.

Daeth y sesiwn gymryd tystiolaeth i ben am 3.25 p.m.

The evidence-taking session ended at 3.25 p.m.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pwyllgor Archwilio

The National Assembly for Wales

Audit Committee

Esgeulustod Clinigol yn y GIG yng Nghymru

Clinical Negligence in the NHS in Wales

Cwestiynau (91-221)

Questions (91-221)

Dydd Iau 3 Mai 2001

Thursday 3 May 2001

Aelodau o'r Cynulliad yn bresennol: Janet Davies (Cadeirydd), Alun Cairns, Jocelyn Davies, Janice Gregory, Alison Halford, Ann Jones, Lynne Neagle, Dafydd Wigley, Kirsty Williams.

Swyddogion yn bresennol: Gillian Body, Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru; Syr John Bourn, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Dave Powell, Swyddog Cydymffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Tystion: David Edwards, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro; Susan Hobbs, Prif Nyrs, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro; Hilary Peplar, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru; Julie Parry, Pennaeth Rheoli Risg Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru.

Assembly Members present: Janet Davies (Chair), Alun Cairns, Jocelyn Davies, Janice Gregory, Alison Halford, Ann Jones, Lynne Neagle, Dafydd Wigley, Kirsty Williams.

Officials present: Gillian Body, National Audit Office Wales; Sir John Bourn, Auditor General for Wales; Dave Powell, Compliance Officer of the National Assembly for Wales.

Witnesses: David Edwards, Chief Executive, Cardiff and Vale NHS Trust; Susan Hobbs, Chief Nurse, Cardiff and Vale NHS Trust; Hilary Peplar, Chief Executive, North East Wales NHS Trust; Julie Parry, Head of Risk Management, North East Wales NHS Trust.

*Dechreuodd y cyfarfod am 1.57 p.m.
The meeting began at 1.57 p.m.*

[91] **Janet Davies:** Good afternoon. I welcome everybody to this hearing of the Audit Committee. The purpose of the meeting is to take evidence in connection with the National Audit Office report for the Auditor General for Wales, *Clinical Negligence in the NHS in Wales.*

[91] **Janet Davies:** Prynhawn da. Croeso i bawb i'r eisteddiad hwn o'r Pwyllgor Archwilio. Pwrpas y cyfarfod yw derbyn tystiolaeth mewn perthynas ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Esgeulustod Clinigol yn y GIG yng Nghymru.*

We heard evidence on this last month, no, sorry on 8 March—we are into May by this time, are we not?—from the director of NHS Wales and others with Assembly-wide responsibilities regarding clinical negligence. Today we are looking forward to hearing from representatives of two of Wales’s national health service trusts. The Committee hopes that, by hearing from you and the trusts, it can gain a perspective from those who are responsible for managing clinical negligence on the ground, and a sense of the day-to-day issues that confront you in the trusts.

Clywsom dystiolaeth ar hyn y mis diwethaf, na, mae’n ddrwg gennyf, ar 8 Mawrth—mae’n fis Mai arnom erbyn hyn, onid ydyw?—gan gyfarwyddwr NHS Cymru ac eraill â chyfrifoldebau ar draws y Cynulliad parthed esgeulustod clinigol. Heddiw yr ydym yn edrych ymlaen at glywed oddi wrth gynrychiolwyr dwy o ymddiriedolaethau gwasanaeth iechyd gwladol Cymru. Gobaith y Pwyllgor yw y gall, drwy wrando arnoch chi a’r ymddiriedolaethau, gael safbwynt gan y rheini sydd yn gyfrifol am reoli esgeulustod clinigol ar y llawr, ac ymdeimlad o’r materion dydd-i-ddydd sydd yn eich wynebu chi yn yr ymddiriedolaethau.

Janice Gregory is substituting for Peter Law, who is not missing for any voluntary reason, but because he was previously a Member of the Cabinet and is therefore now excluded, unfortunately, from most of the Committee meetings.

Mae Janet Gregory yma yn lle Peter Law, sydd yn absennol nid am unrhyw reswm gwirfoddol, ond oherwydd iddo fod yn Aelod o’r Cabinet o’r blaen, a’i fod felly wedi’i gau allan, ysywaeth, o’r rhan fwyaf o gyfarfodydd y Pwyllgor.

I ask the witnesses to please introduce themselves.

Gofynnaf i’r tystion gyflwyno’u hunain, os gwelwch yn dda.

Ms Parry: I am Julie Parry, head of risk management, North East Wales NHS Trust.

Ms Parry: Julie Parry wyf fi, pennaeth rheoli risg, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru.

Ms Peplar: I am Hilary Peplar, chief executive, North East Wales Trust.

Ms Peplar: Hilary Peplar wyf fi, prif weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru.

Mr Edwards: I am David Edwards, chief executive of Cardiff and Vale NHS Trust.

Mr Edwards: David Edwards wyf fi, prif weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro.

Ms Hobbs: I am Susan Hobbs, chief nurse, Cardiff and Vale NHS Trust.

Ms Hobbs: Susan Hobbs wyf fi, prif nyrs, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro.

[92] **Janet Davies:** Thank you. The Assembly is a bilingual institution, so you may speak in Welsh or English as you wish. Translation equipment is available.

[92] **Janet Davies:** Diolch. Sefydliad dwyieithog yw'r Cynulliad, felly cewch siarad yn Gymraeg neu Saesneg fel y mynnwch. Mae offer cyfieithu ar gael.

The format is that we go through a series of questions. I will ask some, and Members will come in at certain sections. They may like to

Y patrwm yw y byddwn yn mynd drwy gyfres o gwestiynau. Byddaf fi'n gofyn rhai, a bydd Aelodau'n dod i mewn yma ac acw.

ask supplementary questions at some time. I will permit that to the best of my ability, time allowing. However, I do not intend the meeting to run over 5.30 p.m.

Efallai y dymunant ofyn cwestiynau atodol ar ryw adeg. Caniatâf hynny hyd y medraf, os bydd amser yn caniatáu. Fodd bynnag, ni fwriadaf i'r cyfarfod redeg yn hwyrach na 5.30 p.m.

I will now ask the first question. I address it to both trusts, but perhaps the North East Wales Trust would like to answer first. I will start by setting out where we have reached in our consideration of the important matter of clinical negligence. Following the Auditor General's report in early March, we took evidence, as I have already said. This session now gives the Committee the opportunity to gain your perspective, because you have responsibility at the sharp end within trusts for managing clinical negligence.

Gofynnaf y cwestiwn cyntaf yn awr. Fe'i cyfeirïaf at y ddwy ymddiriedolaeth, ond efallai yr hoffai Ymddiriedolaeth Gogledd Ddwyrain Cymru ateb gyntaf. Dechreuaf drwy amlinellu ble yr ydym wedi cyrraedd wrth ystyried mater pwysig esgeulustod clinigol. Yn dilyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ddechrau mis Mawrth, cymerasom dystiolaeth, fel y dywedais eisoes. Mae'r sesiwn hon yn awr yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor gael eich safbwynt chi, oherwydd mae gennych chi gyfrifoldeb yn y rheng flaen o fewn ymddiriedolaethau am reoli esgeulustod clinigol.

Will you give us a sense of the priority that you accord clinical negligence, and what steps, if any, you are taking to manage the problem?

A rowch chi syniad inni o'r flaenoriaeth a roddwch i esgeulustod clinigol, a pha gamau, os o gwbl, yr ydych yn eu cymryd i reoli'r broblem?

Ms Peplar: It has a very high priority within

Ms Peplar: Rhoddir blaenoriaeth uchel

the trust, although I must confess that that comes and goes throughout the year at different times because there are a range of competing priorities. So, there are particular times when a lot of attention is paid to it. In general terms, I think that over the past three to five years, the whole issue of clinical negligence has risen in the minds of chief executives and then taken a much stronger position in our thinking. I think that we have spent a lot of time actually looking at the ways in which we monitor what we are doing throughout the organisation and at how we connect what we do in different parts of the organisation and ensure that what we learn in one part is actually put into practice in another part. There is a constant dialogue around what we are picking up and learning with regard to clinical negligence.

I think, too, that the systems have developed and become more sophisticated. For example, as new information systems have become available, we have tried to use those and put them in, with varying effectiveness in different places. My sense is that throughout the community within the NHS, it has moved from being something that people saw as a

iawn iddo o fewn yr ymddiriedolaeth, er bod yn rhaid imi gyfaddef fod hynny'n mynd a dod drwy gydol y flwyddyn ar wahanol adegau oherwydd mae gennym amrediad o flaenoriaethau sydd yn cystadlu. Felly, mae rhai adegau arbennig pryd y rhoddir llawer o sylw iddo. Yn gyffredinol, dros y tair i bum mlynedd diwethaf, credaf fod holl gwestiwn esgeulustod clinigol wedi codi ym meddyliau prif weithredwyr ac wedi cymryd safle llawer cryfach yn ein meddwl. Credaf ein bod wedi treulio llawer o amser yn edrych go iawn ar y ffyrdd yr ydym yn monitro'r hyn a wnawn drwy'r sefydliad cyfan ac ar sut yr ydym yn cysylltu'r hyn a wnawn mewn gwahanol rannau o'r sefydliad ac yn sicrhau y caiff yr hyn a ddysgwn mewn un rhan ei droi'n ymarfer mewn rhan arall. Ceir deialog cyson ynghylch yr hyn yr ydym yn ei godi a'i ddysgu parthed esgeulustod clinigol.

Yr wyf yn meddwl, hefyd, fod y systemau wedi datblygu ac wedi mynd yn fwy soffistigedig. Er enghraifft, wrth i systemau gwybodaeth newydd ddod ar gael, yr ydym wedi ceisio'u defnyddio a'u rhoi i mewn, gydag effeithiolrwydd amrywiol mewn gwahanol fannau. Fy nheimplad i yw fod hyn, drwy'r gymuned gyfan o fewn yr NHS, wedi

bit of a pest to something that they really do consider to be quite vital. I think too, that a lot of staff have moved from feeling 'is this Big Brother watching over me all the time?', to a sense of understanding how it contributes to what people experience in the health service and to what they can learn. So I think that it has become a much more positive part of what we are doing.

[93] **Janet Davies:** Thank you. I invite the Cardiff and Vale NHS Trust to answer.

Mr Edwards: To give our perspective, and add to that, and agree with what Hilary was saying, it is a very high priority for Cardiff and Vale NHS Trust, and has been for some time, although the trust has only recently come into being in the last 12 months. It has been a high priority. I do not know whether Members have had a copy of the supplementary paper that we made available to you. I think that it sets out some of the fairly innovative things being done to try to

symud o fod yn rhywbeth yr oedd pobl yn ei weld fel tipyn o boen i fod yn rhywbeth y maent yn ystyried o ddifrif ei fod yn eithaf hanfodol. Yr wyf yn meddwl, hefyd, fod llawer o staff wedi symud o deimlo 'a yw'r Brawd Mawr yma'n gwyllo drosaf fi drwy'r amser?' i ymdeimlad o ddeall sut y mae'n cyfrannu at yr hyn y mae pobl yn ei brofi yn y gwasanaeth iechyd ac i'r hyn y gallant hwy ei ddysgu. Felly credaf ei fod wedi mynd yn rhan lawer mwy positif o'r hyn yr ydym yn ei wneud.

[93] **Janet Davies:** Diolch. Gwahoddaf Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i ateb.

Mr Edwards: I roi'n safbwynt ni, ac ychwanegu at hynny, a chytuno â'r hyn a ddywedodd Hilary, mae'n flaenoriaeth uchel iawn i Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, a hynny ers tro, er mai dim ond yn y 12 mis diwethaf y daeth yr ymddiriedolaeth i fodolaeth. Bu'n flaenoriaeth uchel. Ni wn a yw Aelodau wedi cael copi o'r papur atodol a ddarparwyd gennym ichi. Yr wyf yn meddwl bod hwnnw'n amlinellu rhai o'r pethau eithaf arloesol sydd yn cael eu

minimise risk and minimise the potential cost associated with clinical negligence. Clearly, what we need to do is to maximise the amount of funding that is available for patient care. Every £1 spent in meeting a legitimate claim is £1 that is not available for direct patient care. So it is a very high priority.

gwneud i geisio lleihau risg a lleihau'r gost botensial sydd yn gysylltiedig ag esgeulustod clinigol. Yn amlwg, yr hyn y mae angen inni ei wneud yw cynyddu i'r eithaf faint o arian sydd ar gael ar gyfer gofal cleifion. Mae pob punt a werir ar ateb hawliad cyfreithlon yn bunt nad yw ar gael ar gyfer gofal uniongyrchol i gleifion. Mae'n flaenoriaeth uchel iawn felly.

[94] **Janet Davies:** Thank you. Trusts have had a reconfiguration over the last two years, and that must have been an added management burden. Did the reconfiguration have an impact on your ability to deal with clinical negligence effectively, to handle claims better, and to reduce the incidence of negligence? Mr Edwards, would you like to reply first?

[94] **Janet Davies:** Diolch. Cafodd ymddiriedolaethau eu hailgyflunio yn y ddwy flynedd diwethaf, a bu hynny'n faich ychwanegol, mae'n rhaid. A effeithiodd yr ailgyflunio ar eich gallu i ddelio ag esgeulustod clinigol yn effeithiol, i ymdrin â hawliadau'n well, ac i leihau nifer yr achosion o esgeulustod? Mr Edwards, a hoffech chi ateb gyntaf?

Mr Edwards: I think that the various mergers and reconfigurations have been an opportunity. We have been able to rationalise the procedures and processes in the former trusts. So, for example, we think that there is about £40,000 that we can still save, directly as a result of reconfiguration, simply on the administration of the system

Mr Edwards: Yr wyf o'r farn fod yr amryfal gyfuniadau ac ailgyfluniadau wedi bod yn gyfle. Yr ydym wedi gallu rhesymoli'r gweithdrefnau a phrosesau yn yr hen ymddiriedolaethau. Felly, er enghraifft, credwn fod rhyw £40,000 y gallwn ei arbed o hyd, yn uniongyrchol o ganlyniad i'r ailgyflunio, yn syml ar weinyddiad y system o

within the trust. I know that that is relatively small in terms of the total sums spent on negligence. However, it is a small example of where reconfiguration is an opportunity, and it allows us, I think, to raise the standards within the trust to those that we regard as the best within our organisation. I do not think that it is also a situation that has allowed us to take our eye off the ball because, although we are talking about negligence here, we are talking about trying to reduce the incidence of negligence. Clinical governance is a very big issue in the national health service, and remains with us as a trust board. I had that particular responsibility, which I have delegated to Susan Hobbs as the Chief Nurse, so it is within the board itself and is never very far from our thoughts.

Ms Peplar: As far as I understand it, because I was not there when the trust was created, the sense that I have is that there were not any particular problems relating to the merger, except perhaps the timing of it. I think that there has been a lot of learning from the two different parts of the organisation that now make up one trust. I

fewn yr ymddiriedolaeth. Gwn mai swm cymharol fach yw hynny yn nhermau'r cyfansymiau a werir ar esgeulustod. Fodd bynnag, mae'n enghraifft fach o fan lle mae ailgyflunio'n gyfle, ac mae'n caniatáu inni, mi gredaf, godi'r safonau o fewn yr ymddiriedolaeth i fod yr hyn a ystyriwn yn orau o fewn ein sefydliad. Nid wyf yn meddwl ei bod hefyd yn sefyllfa sydd wedi caniatáu inni dynnu'n llygad oddi ar y bêl, oherwydd, er ein bod yn sôn am esgeulustod yma, sôn yr ydym am geisio lleihau achosion o esgeulustod. Mae llywodraethu clinigol yn bwnc mawr iawn yn y gwasanaeth iechyd gwladol, ac mae'n aros gyda ni fel bwrdd ymddiriedolaeth. Cefais i'r cyfrifoldeb arbennig hwnnw, yr wyf wedi'i ddirprwyo i Susan Hobbs y Brif Nyrs, felly mae'r mater o fewn y bwrdd ei hun ac nid yw byth ymhell iawn o'n meddyliau.

Ms Peplar: Yn ôl a ddeallaf fi, oherwydd nid oeddwn yno pan grëwyd yr ymddiriedolaeth, y teimlad a gaf fi yw nad oedd unrhyw broblemau arbennig cysylltiedig â'r uno, ac eithrio efallai ei amseriad. Yr wyf yn meddwl bod llawer wedi ei ddysgu gan y ddwy ran wahanol o'r sefydliad sydd erbyn hyn yn ffurfio un

think that it has also raised the profile of risk management in those parts of the trust where perhaps there was not the emphasis that there should have been. I think that the merger has been very beneficial for that aspect.

ymddiriedolaeth. Credaf ei fod hefyd wedi codi proffil rheoli risg yn y rhannau hynny o'r ymddiriedolaeth lle efallai nad oedd gymaint o bwyslais ag y dylasai fod. Yr wyf yn meddwl bod yr uno wedi bod yn fuddiol iawn o'r safbwynt hwnnw.

[95] **Dafydd Wigley:** Hoffwn ystyried y cynnydd o ran costau esgeulustod clinigol. Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyfeirio at y ffaith fod costau esgeulustod clinigol heddiw bedair gwaith yn uwch nag yr oedd yn 1996. I ba ffactorau y byddech yn priodoli'r cynnydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf?

[95] **Dafydd Wigley:** I would like to consider the increase in the cost of clinical negligence. The report of the Auditor General for Wales refers to the fact that the cost of clinical negligence is four times higher than it was in 1996. To what factors would you attribute the increase during the past five years?

Ms Peplar: If one reads the newspapers or listens to the radio, they are attributing it to a whole range of things, and I think it is very definitely extraordinarily multi-factorial. I think that the context in which we operate in society is very different indeed, and I think that people are more aware of being able to apply for damages. There are adverts on television and I think that people seem to see themselves being encouraged into picking up opportunities. I think that we are, in the health service, far more open about what we

Ms Peplar: O ddarllen y papurau newydd neu wrando ar y radio, maent yn ei briodoli i lu o bethau, ac yr wyf yn meddwl ei fod yn bendant iawn yn hynod o aml-ffactorol. Credaf fod y cyd-destun yr ydym ni'n gweithio ynddo mewn cymdeithas yn dra gwahanol wir, a chredaf fod pobl yn fwy ymwybodol o allu gwneud cais am iawndal. Ceir hysbysebion ar y teledu ac yr wyf yn meddwl fod pobl fel pe baent yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd. Credaf ein bod, yn y gwasanaeth iechyd, yn llawer mwy

do well and what we do not do so well, and we are trying to engage in far more of a dialogue with people with whom we work so that we can have a better discussion. However, as I say, within the social context that we operate, people will respond and react in particular ways and they are encouraged at the moment to hurtle forth into legal action at the slightest move.

Mr Edwards: I think that when the Woolf reforms were introduced we were told that there was likely to be a major increase in the amount of money that would have to be spent in this area and I think that that has come true. I think that individual settlements are higher, and we have managed to get rid of some of the—if I dare call them such—vexatious claims. However, those that come forward now are well worked up, with a smaller number of solicitor firms. So I think that the Woolf reforms are one of the issues. I think that the second issue, to add to the points that Hilary just made, is that service pressure is not less and there is increasing pressure on the service, despite the welcome investment from the Assembly. I think that

agored ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda a'r hyn nad ydym yn ei wneud cystal, ac yr ydym yn ceisio creu llawer mwy o ddeialog gyda phobl yr ydym yn gweithio â hwy fel y gallwn gael gwell trafodaeth. Fodd bynnag, fel y dywedais, o fewn y cyd-destun cymdeithasol yr ydym yn gweithio ynddo, bydd pobl yn ymateb ac yn adweithio mewn ffyrdd arbennig ac maent yn cael eu hannog ar hyn o bryd i ruthro i weithredu'n gyfreithiol ar yr ysgogiad lleiaf.

Mr Edwards: Credaf pan gyflwynwyd diwygiadau Woolf y dywedwyd wrthym ei bod yn debygol y byddai cynnydd mawr yn yr arian y byddai'n rhaid ei wario yn y maes hwn ac yr wyf yn meddwl fod hynny wedi dod yn wir. Credaf fod symiau iawndal unigol yn uwch, ac yr ydym wedi llwyddo i gael gwared ar rai o'r—os meiddiaf eu galw felly—hawliadau blinderus. Fodd bynnag, mae'r rheini a ddaw ymlaen erbyn hyn wedi'u paratoi'n dda, gyda nifer lai o gwmniau cyfreithwyr. Felly mae diwygiadau Woolf yn un o'r materion, dybiwn i. Credaf mai'r ail fater, ag ychwanegu at y pwyntiau a wnaeth Hilary yn awr, yw nad yw'r pwysau gwasanaeth yn llai a bod pwysau cynyddol ar y gwasanaeth, er gwaethaf y buddsoddiad

that is an issue. I think that those are two very key factors.

derbyniol iawn gan y Cynulliad. Credaf fod hynny'n fater. Mae'r rheini'n ddau ffactor allweddol iawn, dybiwn i.

[96] **Dafydd Wigley:** Yr ydych, mae'n amlwg, yn ymwybodol o'r tueddiadau cyffredinol a byddwch yn gyfarwydd â pharagraffau 2.20 a 2.21 ynglyn â'r costau cynyddol. I ba raddau y byddech yn dweud fod y patrwm o fewn eich ymddiriedolaethau yn cydreddeg â'r patrwm cenedlaethol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn—hynny yw, y cynnydd o bedair gwaith? Ai eich profiad chi yw fod eich patrwm yn debyg iawn i hynny, neu a ydyw'n well neu'n waeth? Beth fyddech chi'n ei ddweud? A yw'n debyg?

[96] **Dafydd Wigley:** You are obviously aware of the general trends and you will be familiar with paragraphs 2.20 and 2.21, which relate to the increasing costs. To what extent would you say that the pattern within your trusts coincides with the national pattern that is described in this report—that is, the fourfold increase? Is it your experience that your pattern is very similar to that, or is it better or worse? What would you say? Is it similar?

Ms Peplar: It is very similar in North East Wales NHS Trust; very similar indeed. I think that it is quite interesting to note, in terms of the expenditure—I have been just looking at the last few months—that, in fact, about a third goes into the costs of it and only about two-thirds actually goes into payments. However, it has risen in more or less the same way over the last three to five years.

Ms Peplar: Y mae'n debyg iawn yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru, yn debyg iawn iawn. Credaf ei bod yn eithaf diddorol nodi, yn nhermau'r gwariant—dim ond ar yr ychydig fisoedd diwethaf y bûm yn edrych—fod oddeutu un rhan o dair o'r arian, mewn gwirionedd, yn mynd i dalu costau'r peth a dim ond dwy ran o dair yn mynd i'r taliadau eu hunain. Fodd bynnag, y mae wedi codi fwy neu lai yr un modd dros y tair i bum mlynedd diwethaf.

[97] **Dafydd Wigley:** A gaf ofyn ichi ar gefn hynny, cyn troi at Mr Edwards, yn eich profiad chi, a yw'r costau esgeulustod clinigol yn debyg o barhau i godi yn ôl y patrwm hwn o fewn eich ardal chi?

[97] **Dafydd Wigley:** May I ask you, on the back of that, before turning to Mr Edwards, in your own experience, are the clinical negligence costs likely to continue to increase according to this pattern in your area?

Ms Peplar: I think that we are likely to see a bit more of an increase, as David has said, following on from the Woolf report, over the next few years. However, I think that it should then even out. We are still waiting to see how many more claims are coming through the health authorities, which may be fairly ancient claims that are now beginning to come out of the woodwork. We have had, I think, nine more in the last year that have suddenly come out and those are all pretty hefty ones.

Ms Peplar: Yr wyf yn meddwl ein bod yn debygol o weld ychydig mwy o gynnydd, fel y dywedodd David, yn dilyn oddi ar adroddiad Woolf, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, credaf y dylai lefelu wedyn. Yr ydym yn dal i aros i weld faint yn rhagor o hawliadau a ddaw drwy'r awdurdodau iechyd, a all fod yn hawliadau eithaf hynafol sydd bellach yn dechrau ymddangos o'r pren. Cawsom, mi gredaf, naw yn fwy yn y flwyddyn ddiwethaf a ymddangosodd yn sydyn, a'r rheini i gyd yn rhai eithaf swmpus.

[98] **Dafydd Wigley:** A, hyd y gwyddoch, mae'r hen achosion hynny wedi dod i'r amlwg—nid oes llawer o'r golwg yn dal i ddisgwyl i ddod?

[98] **Dafydd Wigley:** And, as far as you are aware, those old cases have come to the fore—not many remain hidden and waiting to come forward?

Ms Peplar: No.

Ms Peplar: Nac oes.

[99] **Dafydd Wigley:** A gaf droi at Mr Edwards gyda'r un cwestiynau? A ydych yn adlewyrchu'r patrwm cenedlaethol, neu a ydych yn wahanol iddo? I ba raddau mae'r patrwm yn debyg o barhau?

[99] **Dafydd Wigley:** May I turn to Mr Edwards with the same questions? Are you reflecting the national pattern, or do you differ from it? To what extent is the pattern likely to continue?

Mr Edwards: I think that the pattern is likely to continue. Of course, we are providing many very specialist services for Wales in a complex service, and some of the services like neurosurgery and very high risk obstetrics are very much with us. So I think that the risks are greater. We must therefore do what we can to minimise those risks. We have put that in place. However, if you look at the figures for Cardiff and Vale NHS Trust, the actual cash payments were just over £1 million in 1999-2000, rising from what they were in 1998-99. So I think that the trend that we are seeing in the overall report will be repeated in Cardiff and Vale NHS Trust, though not so much in the number of claims. However, certainly in terms of the cost, I think that they will

Mr Edwards: Yr wyf yn meddwl fod y patrwm yn debygol o barhau. Wrth gwrs, yr ydym yn darparu llawer o wasanaethau arbenigol iawn i Gymru mewn gwasanaeth cymhleth, ac mae rhai o'r gwasanaethau fel llawdriniaeth nerfol ac obstetreg risg uchel yma i aros. Felly mae'r risgiau'n fwy, dybiwn i. Rhaid inni wneud yr hyn a allwn, felly, i leihau'r risgiau hynny. Yr ydym wedi rhoi hynny ar waith. Fodd bynnag, os edrychwch ar ffigurau Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, ychydig dros £1 filiwn oedd y taliadau arian gwirioneddol yn 1999-2000, yn codi o'r hyn oeddent yn 1998-99. Felly yr wyf o'r farn y caiff y duedd a welwn yn yr adroddiad cyffredinol ei hailadrodd yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, er nad yn gymaint yn nifer yr hawliadau. Fodd

increase.

bynnag, yn sicr yn nhermau'r gost, credaf mai cynyddu a wnânt.

[100] **Dafydd Wigley:** A fyddech chi'n dweud fod gennych nifer o hen achosion sydd yn dal i ddod i'r amlwg, neu a ydych yn dechrau cyrraedd rhyw lefel gyda'r rheini hefyd?

[100] **Dafydd Wigley:** Would you say that you have many old cases waiting to come to the fore, or are you starting to reach some level with those as well?

Mr Edwards: Those old cases have come to the fore, but they are still around. That is not complete yet.

Mr Edwards: Mae'r hen achosion hynny wedi dod i'r amlwg, ond maent yma o hyd. Nid yw hynny wedi'i gwblhau eto.

[101] **Dafydd Wigley:** O diar. Yn olaf, trof yn benodol at Ms Peplar. Deallaf fod y darpariaethau ariannol a wnaethpwyd gan eich ymddiriedolaeth o ran esgeulustod clinigol wedi codi'n sylweddol rhwng Mawrth 1999 a Mawrth 2000—cynnydd o dros 50 y cant, o £2.5 miliwn i dros £4.2 miliwn. Gallai hynny fod, wrth gwrs, o ganlyniad i gymhlethdodau yn deillio o'r broses gyfuno yn rhannol. A allwch roi unrhyw oleuni pellach inni am y rhesymau dros y cynnydd arbennig o uchel yn y cyfnod hwnnw?

[101] **Dafydd Wigley:** Oh dear. Finally, I turn specifically to Ms Peplar. I understand that the financial provisions made by your trust in terms of clinical negligence increased significantly between March 1999 and March 2000—an increase of over 50 per cent, from £2.5 million to over £4.2 million. Of course, that could be as a result in part of problems arising from the merger process. Can you shed any further light for us on the reasons for the extremely high increase during that period?

Ms Peplar: I think that it is almost entirely to do with the merger, as I understand it historically. I do not think that there has been a significant increase or change in the number of claims coming through over that three to four year period. My understanding, historically, is that it is related to that.

Ms Peplar: Yr wyf yn meddwl fod a wnelo'r peth bron yn gyfangwbl â'r uno, fel y deallaf fi'r mater yn hanesyddol. Nid wyf yn meddwl bod cynnydd na newid arwyddocaol wedi bod yn nifer yr hawliadau a ddaeth drwodd yn ystod y cyfnod tair i bedair blynedd hwnnw. Fy nealltwriaeth i, yn hanesyddol, yw ei fod yn gysylltiedig â hynny.

[102] **Janet Davies:** Jocelyn, would you like to come in on this? I will then call Alison.

[102] **Janet Davies:** Jocelyn, a hoffech chi ddod i mewn ar hyn? Wedyn byddaf yn galw ar Alison.

[103] **Jocelyn Davies:** Ms Peplar, you described this increase as being due to the fact that the patients have more 'opportunities'. However, I think that we must acknowledge that a patient cannot bring a case unless he or she has suffered damage due to someone's negligence—not by someone's mistake; the patient must prove that the damage is due to negligence. Obviously, it is not entirely due to the fact that people have woken up to the fact that they have the right. There must be an

[103] **Jocelyn Davies:** Ms Peplar, disgrifiasoch y cynnydd hwn fel un a ddigwyddodd oherwydd y ffaith y caiff y cleifion fwy o 'gyfleoedd'. Fodd bynnag, yr wyf yn meddwl fod yn rhaid inni gydnabod na all claf ddwyn achos oni bai ei fod neu ei bod wedi dioddef niwed oherwydd esgeulustod rhywun—nid oherwydd camgymeriad; mae'n rhaid i'r claf brofi fod y niwed yn ganlyniad esgeulustod. Yn amlwg, nid yw hyn i'w briodoli'n gyfangwbl i'r ffaith fod pobl wedi deffro i'r ffaith fod yr hawl

acknowledgement of the negligence that exists.

ganddynt. Rhaid cydnabod yr esgeulustod sydd yn bodoli.

Ms Peplar: I think that that is right to some extent, but I think that there has genuinely been an issue of people actually becoming clearer about where negligence has taken place. I think that there has often been negligence and people have not been aware of that. I think that, now that we are discussing things much more and there is far more openness within the health service, that has changed considerably.

Ms Peplar: Credaf fod hynny'n gywir i ryw raddau, ond credaf fod pobl yn wirioneddol wedi dod yn fwy ymwybodol ynghylch achosion lle bu esgeulustod. Credaf fod esgeulustod wedi digwydd yn aml ac nad oedd pobl yn ymwybodol o hynny. Credaf, gan ein bod bellach yn trafod llawer mwy ar bethau a bod pethau'n llawer mwy agored o fewn y gwasanaeth iechyd, fod hynny wedi newid yn sylweddol.

[104] **Jocelyn Davies:** Yes, but the patient only has an 'opportunity' if he or she has suffered damage due to someone's negligence. Is that not only right?

[104] **Jocelyn Davies:** Do, ond dim ond os yw'r claf wedi dioddef niwed oherwydd esgeulustod rhywun y caiff 'gyfle'. Onid dim ond iawn yw hynny?

Ms Peplar: Yes.

Ms Peplar: Ie.

[105] **Janet Davies:** Alison wants to come in on this.

[105] **Janet Davies:** Mae ar Alison eisiau dod i mewn ar hyn.

[106] **Alison Halford:** My question is also

[106] **Alison Halford:** I chi y mae fy

directed at you, Hilary. Hilary Peplar and I have drunk tea together, so I will not be in too attacking a mode this afternoon—not that I ever am, of course.

nghwestiwn i hefyd, Hilary. Mae Hilary Peplar a mi wedi cyd-yfed te, felly ni fyddaf yn rhy ymosodol y prynhawn yma—nid fy mod i fyth, wrth gwrs.

I must take issue with you when you say that nine more claims ‘came out of the woodwork’ from last year. Does that not fly in the face of the fact that risk management assessment has been going on for some time? Therefore, have I misunderstood you? Why is it that nine claims could suddenly arrive from nowhere?

Rhaid imi ddadlau â chi pan ddywedwch y daeth naw hawliad arall ‘allan o’r pren’ ers y llynedd. Onid yw hynny’n mynd yn gwbl groes i’r ffaith fod asesiadau rheoli risg yn digwydd ers tro? Felly, a ydwyf fi wedi’ch camddeall chi? Pam y gallai naw hawliad fod wedi ymddangos yn sydyn o unlle?

Ms Peplar: These are nine claims that have come up via the health authority. That means that they actually go back some considerable time. They are being dealt with by the health authority, because it was the organisation that had responsibility before the new trust existed. So they have been around for some time; people just have not brought them through the system.

Ms Peplar: Naw hawliad yw’r rhain a gododd drwy’r awdurdod iechyd. Mae hynny’n golygu eu bod yn mynd yn ôl gryn amser mewn gwirionedd. Yr awdurdod iechyd sydd yn delio â hwy, oherwydd mai ef oedd y corff a oedd â chyfrifoldeb cyn i’r ymddiriedolaeth newydd fodoli. Felly mae’n rhaid eu bod o gwmpas ers tro; dim ond fod pobl heb ddod â hwy drwy’r system.

[107] **Alison Halford:** Therefore, you have inherited problems within the health authority?

[107] **Alison Halford:** Yr ydych wedi etifeddu problemau o fewn yr awdurdod iechyd, felly?

Ms Peplar: We are working with the health authority. The health authority has the responsibility for dealing with the claims. If you break down the complaints that relate to either the current trust or its predecessor or some part of it before, then those that took place before a particular date will be dealt with via the host health authority, as a responsible area. However, of course, we will work in partnership with it, because we will probably have the records and so on. The claims may go back several years, so the staff may not be around. However, it is an issue of actually looking to the records that we would have.

[108] **Alison Halford:** So it is not a question of the health authority and the health trust not speaking to each other?

Ms Peplar: Not at all, no.

[109] **Alison Halford:** Right. Are you sure

Ms Peplar: Yr ydym yn gweithio gyda'r awdurdod iechyd. Gan yr awdurdod iechyd y mae'r cyfrifoldeb am ddelio â'r hawliadau. Os dadansoddwch yr hawliadau sydd yn ymwneud â naill ai'r ymddiriedolaeth gyfredol neu ei rhagflaenydd neu ryw ran ohono yn flaenorol, yna byddir yn delio â'r rheini a ddigwyddodd cyn dyddiad penodol drwy'r awdurdod iechyd perthnasol, fel man cyfrifol. Fodd bynnag, wrth reswm, byddwn ni'n cydweithio ag ef mewn partneriaeth, oherwydd mae'n debyg mai gennym ni y bydd y cofnodion ac ati. Gall yr hawliadau fynd yn ôl flynyddoedd lawer, felly efallai na fydd y staff o gwmpas. Fodd bynnag, mater ydyw o edrych ar y cofnodion a fyddai gennym.

[108] **Alison Halford:** Felly nid mater nad yw'r awdurdod iechyd a'r ymddiriedolaeth iechyd yn siarad â'i gilydd ydyw?

Ms Peplar: Ddim o gwbl, na.

[109] **Alison Halford:** Iawn. A ydych yn

about that?

siwr am hynny?

Ms Peplar: On that one, yes. I think that we work well together.

Ms Peplar: Ar hynny, ydwyf. Yr wyf fi'n meddwl ein bod yn gweithio'n dda gyda'n gilydd.

[110] **Janet Davies:** Could we turn to part three of the report, and begin with the issue of management information? The Auditor General has highlighted an apparent lack of even basic management information on clinical negligence claims at both the trusts and at the Assembly. Do you agree that better information on the subject, such as the causes of negligence, is a prerequisite to the effective management of clinical negligence? Perhaps you would like to start, Mr Edwards.

[110] **Janet Davies:** A gawn ni droi at ran tri yr adroddiad, a dechrau gyda mater gwybodaeth reoli? Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu sylw at ddiffyg ymddangosiadol gwybodaeth reoli sylfaenol, hyd yn oed, ar hawliadau am esgeulustod clinigol yn yr ymddiriedolaethau ac yn y Cynulliad. A ydych yn cytuno bod gwell gwybodaeth ar y pwnc, megis y ffactorau wrth wraidd esgeulustod, yn anhepgor i reolaeth effeithiol ar esgeulustod clinigol? Efallai yr hoffech chi ddechrau, Mr Edwards.

Mr Edwards: I am more than happy to pick that up. If I think about the specifics in relation to Cardiff and Vale NHS Trust first, we have had a computerised database on our claims history since before 1997. The issue that faces us now is to try to bring together the claims history, the complaints history and the critical incidents history, so

Mr Edwards: Yr wyf yn fwy na bodlon i ateb y pwynt hwnnw. Os meddyliaf am y manylion mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yn gyntaf, mae gennym gronfa ddata gyfrifiadurol ar ein hanes gyda hawliadau er cyn 1997. Y mater sydd yn ein hwynebu yn awr yw ceisio dod â'r hanes hawliadau, yr

that we pull all that together—because they are inter-related—if we are going to learn from any mistakes we make, put them right and improve our clinical performance.

hanes cwynion a'r hanes digwyddiadau critigol ynghyd, fel ein bod yn tynnu hynny i gyd ynghyd—oherwydd mae cydberthynas rhyngddynt—os ydym am ddysgu o unrhyw gamgymeriadau a wnawn, eu cywiro a gwella'n perfformiad clinigol.

There is a system called SAFECODE. Both trusts are actually looking to implement that at the moment. I would like to think that we might be able to do something along those lines for Wales as a whole, because SAFECODE is a system invented in the NHS for the NHS. It is not an external system or simply a financial system. Therefore, I think that I want to leave you with that point about inter-relationship. I think that that is important.

Mae system o'r enw SAFECODE. Mae'r ddwy ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn ystyried gweithredu honno. Hoffwn feddwl y gallem wneud rhywbeth ar y llinellau hynny i Gymru gyfan, gan fod SAFECODE yn system a ddyfeisiwyd yn yr NHS i'r NHS. Nid system allanol mohoni, na system ariannol yn unig. Felly, yr wyf yn meddwl yr hoffwn eich gadael gyda'r pwynt hwnnw am gydberthynas. Credaf fod hynny'n bwysig.

The system is also important in terms of learning and comparability between trusts. I would like to see a situation where the claims managers from across Wales are able to compare information to learn and to go back into their organisations and try to improve. Therefore, I think that there is a patchiness across Wales. We would certainly like to offer our own situation since 1997 as

Mae'r system yn bwysig hefyd yn nhermau dysgu a chymharu rhwng ymddiriedolaethau. Hoffwn weld sefyllfa lle gall y rheolwyr hawliadau o Gymru benbaladr gymharu gwybodaeth er mwyn dysgu a mynd yn ôl i'w sefydliadau a cheisio gwella. Felly, yr wyf yn meddwl fod y sefyllfa ar draws Cymru'n dameidiog. Yn sicr, hoffem gynnig ein sefyllfa'n hunain ers 1997 fel tystiolaeth

evidence that we have addressed the management information issue, but it is only going so far. I think that there is still some way to go yet, along the lines that I have mentioned.

[111] **Janet Davies:** Thank you, Mr Edwards. Ms Peplar, would you agree with that? Do you want to add to it?

Ms Peplar: I would entirely support that, yes. I think that the need for a comprehensive system is vital.

[112] **Janet Davies:** Fine. Thank you. The National Audit Office Wales visited five trusts last year as part of its fieldwork, including both of your trusts, and examined them in perhaps more detail than some other trusts. Since then, has there been any progress in terms of the information you have on claims within your trusts? Can you give any examples where performance information has revealed improvements you may have had in performance?

ein bod wedi mynd i'r afael â chwestiwn gwybodaeth reoli, ond dim ond mynd cyn belled yw hynny. Credaf fod tipyn o ffordd i fynd eto, ar hyd y llinellau a grybwyllais.

[111] **Janet Davies:** Diolch, Mr Edwards. Ms Peplar, a fyddech chi'n cytuno â hynny? Oes arnoch chi eisiau ychwanegu ato?

Ms Peplar: Fe fyddwn yn cefnogi hynny'n llwyr. Yr wyf yn meddwl fod yr angen am system gynhwysfawr yn hollbwysig.

[112] **Janet Davies:** Iawn. Diolch. Ymwelodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru â phum ymddiriedolaeth y llynedd fel rhan o'i gwaith maes, gan gynnwys eich ymddiriedolaethau chi'ch dau, a'u harchwilio efallai'n fanylach na rhai ymddiriedolaethau eraill. Ers hynny, a fu symud ymlaen o gwbl yn nhermau'r wybodaeth sydd gennych ar hawliau o fewn eich ymddiriedolaethau? A allwch roi unrhyw enghreifftiau lle mae gwybodaeth perfformiad wedi datgelu gwelliannau a fu yn eich perfformiad efallai?

Ms Peplar: We have now introduced a system by which we, on a regular basis, actually look at the claims that have come in. We categorise those in various different ways. We review them on a very frequent basis. We look at how we can actually try to expedite the process and we also try to draw from the information that we are now getting internal learning factors, so that we can share those around and look at them. We still, I think, have a way to go in terms of increasing our ability to prevent things happening, and we are looking at that with some urgency at the moment. However, I think that the systems have progressed a long way in the last year.

[113] **Janet Davies:** We are pleased to hear that. Mr Edwards, do you want to add anything?

Mr Edwards: With your permission, Chair, I would like to bring Ms Hobbs in at this point. I mentioned that we have a claims database, and we have good information.

Ms Peplar: Yr ydym bellach wedi cyflwyno system lle byddwn ni, yn rheolaidd, yn edrych ar yr hawliadau a ddaeth i mewn. Byddwn yn eu dosbarthu mewn amryw o wahanol ffyrdd. Byddwn yn eu hadolygu'n aml iawn. Edrychwn ar sut y gallwn fynd ati i geisio hwyluso'r broses a cheisiwn hefyd dynnu ffactorau dysgu mewnol o'r wybodaeth a gawn yn awr, fel y gallwn rannu'r rheini o gwmpas ac edrych arnynt. Mae gennym gryn ffordd i fynd o hyd, mi gredaf, yn nhermau gwella'n gallu i atal pethau rhag digwydd, ac yr ydym yn edrych ar hynny gyda pheth brys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, credaf fod y systemau wedi cymryd camau breision yn y flwyddyn ddiwethaf.

[113] **Janet Davies:** Mae'n dda gennym glywed hynny. Mr Edwards, a oes arnoch chi eisiau ychwanegu unrhyw beth?

Mr Edwards: Gyda'ch caniatâd, Gadeirydd, hoffwn ddod â Ms Hobbs i mewn yn y fan hon. Soniais fod gennym gronfa ddata hawliadau, ac mae gennym

However, the whole emphasis is on trying to reduce the number of incidents that happen in the first place. I would like Ms Hobbs to try to tie some of the issues together.

Ms Hobbs: I think that you have had the opportunity to read the supplementary information, so I will not go through that in detail. I think, however, that what we continue to build on is an infrastructure that we started in September 1997. It obviously predates two reconfigurations. However, it has been very important, both in terms of bringing together clinicians, particularly, in an environment of shared learning, but also, I think, it fits in with our culture of trying to resolve issues for patients, carers and staff, at a very early stage. I think that what David has alluded to is trying to introduce that into a more technically-based management information system, so that we can track when a complaint looks as if it is going to become a claim, or when an incident looks as if it will become a complaint, which might also become a claim. So we can try, wherever possible, through a sort of risk avoidance and risk management, to achieve that local and early resolution. However,

wybodaeth dda. Fodd bynnag, mae'r holl bwyslais ar geisio lleihau nifer y digwyddiadau sydd yn digwydd yn y lle cyntaf. Hoffwn i Ms Hobbs geisio clymu rhai o'r materion wrth ei gilydd.

Ms Hobbs: Yr wyf yn meddwl eich bod wedi cael y cyfle i ddarllen y wybodaeth ategol, felly nid af drwy hynny'n fanwl. Yr wyf yn meddwl, fodd bynnag, mai'r hyn yr ydym yn dal i adeiladu arno yw isadeiledd a ddechreuwyd gennym ym Medi 1997. Yn amlwg, yr oedd hynny cyn y ddau ailgyfluniad. Fodd bynnag, bu'n bwysig iawn, yn nhermau dod â chlinigwyr ynghyd, yn arbennig, mewn amgylchedd o rannu dysg, ond hefyd, mi gredaf, mae'n cyd-fynd â'n diwylliant o geisio datrys materion i gleifion, gofawyr a staff, yn gynnar iawn. Credaf mai'r hyn y mae David wedi ei grybwyll yw ceisio cyflwyno hynny i mewn i system wybodaeth reoli fwy technegol ei sail, fel y gallwn weld pa bryd y mae cwyn yn edrych fel pe bai am droi'n hawliad, neu ba bryd y mae digwyddiad yn edrych fel pe bai am droi'n gwyn, a allai yn ei thro droi'n hawliad. Felly gallwn geisio, lle bynnag y bo modd, drwy ryw fath o osgoi risg a rheoli risg, sicrhau'r datrysiad lleol a chynnar

what is important, and my colleagues have already highlighted this, is the fact that we try to manage, and demonstrate that we are managing, through good information, and that we share and disseminate that information and are open about it. We work very well with our legal colleagues, particularly, in that respect. So that when mistakes happen, and claims are made, we actually go back and learn to try to minimise the chances of similar occurrences in the future. It is all about risk management; we will never completely avoid it, because that is the nature of the business that we are in. I think that we have done a lot, and it has been a high priority for us, but we continue to learn.

hwynnw. Fodd bynnag, y peth pwysig, ac mae fy nghydweithwyr eisoes wedi amlygu hyn, yw'r ffaith ein bod yn ceisio rheoli, ac yn dangos ein bod yn rheoli, drwy wybodaeth dda, a'n bod yn rhannu ac yn gwasgaru'r wybodaeth honno a'n bod yn agored ynglyn â hi. Cydweithiwn yn dda iawn gyda'n cyfeillion cyfreithiol, yn arbennig, yn hynny o beth. Felly pan ddigwydd camgymeriadau, ac y gwneir hawliadau, awn yn ôl a dysgu ceisio lleihau'r siawns y digwydd rhywbeth tebyg yn y dyfodol. Rheoli risg yw'r cyfan; ni wnawn fyth ei osgoi'n gyfangwbl, oherwydd dyna natur y busnes yr ydym ynddo. Yr wyf yn meddwl ein bod wedi gwneud llawer, a bu'n flaenoriaeth uchel inni, ond yr ydym yn dal i ddysgu.

[114] **Janet Davies:** Right. So it is fair to say that you are working quite hard on this. Do you feel that there are any barriers that hinder your ability to gather appropriate information?

[114] **Janet Davies:** Iawn. Felly mae'n deg dweud eich bod yn gweithio'n eithaf caled ar hyn. A ydych yn teimlo fod unrhyw rwystrau sydd yn amharu ar eich gallu i gasglu gwybodaeth briodol?

Ms Hobbs: As my colleagues have already alluded to, and as was very marked in the Auditor General's report, there has not been

Ms Hobbs: Fel y crybwyllodd fy nghydweithwyr eisoes, ac fel yr oedd yn amlwg iawn yn adroddiad yr Archwilydd

one standardised system anywhere in the UK. There have been different systems and they have perhaps had a financial focus, or a complaints focus, or an incident focus. Up to a year ago, in our own trust we had three different approaches to recording incidents. We do not do that now, we have a single incident form, a single point of data entry, and a single team of trained people analysing and churning out that data.

We want to build on our experience with the system that is used also—as it happens—in North East Wales NHS Trust and Swansea NHS Trust, and is managed, as has been said, by the NHS. It was developed in Scotland at the University of Strathclyde for the NHS. I think that it is a developmental tool, because the authors and architects of that system are working with us.

We all have risk managers in our trusts, who network extremely well; they are very competent. They work closely with the Welsh Risk Pool, and what I would like to see is that in Wales we build on our good

Cyffredinol, ni chafwyd un system safonol yn unlle yn y DU. Cafwyd systemau gwahanol a oedd efallai'n canolbwyntio ar yr arian, neu ar y cwynion, neu ar y digwyddiadau. Hyd at flwyddyn yn ôl, yn ein hymddiriedolaeth ni yr oedd gennym dair ffordd wahanol o fynd ati i gofnodi digwyddiadau. Ni wnawn hynny bellach, mae gennym un ffurflen ddi-gwyddiad, un pwynt rhoi data i mewn, ac un tîm o bobl hyfforddedig yn dadansoddi'r data hynny ac yn eu troi allan.

Mae arnom eisiau adeiladu ar ein profiad gyda'r system a ddefnyddir hefyd—fel mae'n digwydd—yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, ac a reolir, fel y soniwyd, gan yr NHS. Fe'i datblygwyd yn yr Alban ym Mhrifysgol Ystrad Clud ar gyfer yr NHS. Arf datblygiadol ydyw yn fy nhyb i, oherwydd mae awduron a phenseiri'r system honno'n gweithio gyda ni.

Mae gennym i gyd reolwyr risg yn ein hymddiriedolaethau, sydd yn rhwydweithio'n eithriadol o dda; maent yn gymwys iawn. Gweithiant yn agos gyda Chronfa Risg Cymru, a beth yr hoffwn i ei weld yw ein

experience and support a single database. Rather than organisations just doing their own thing, I would like us to actually support one system, in the interests of better care, early resolution, and good information.

bod ni yng Nghymru'n adeiladu ar ein profiad da ac yn cynnal un cronfa ddata. Yn hytrach na bod pob corff yn dilyn ei drywydd ei hun, hoffwn inni gynnal un system, er budd gwell gofal, datrys cynnar a gwybodaeth dda.

[115] **Janet Davies:** When you get the analysis, is it coming to managers who are capable of taking the necessary remedial action? By that, I mean that they have the necessary seniority—I am not casting aspersions on anyone's ability here—and that this high-level reporting goes to senior management.

[115] **Janet Davies:** Pan gewch chi'r dadansoddiad, a gaiff ei roi i reolwyr a all weithredu arno yn ôl yr angen? Wrth ddweud hynny, meddwl yr wyf fod ganddynt hwy'r safle uchel angenrheidiol—nid wyf yn bwrw amheuan ar allu neb yma—a bod yr adroddiadau lefel-uchel hyn yn mynd i ddwylo uwch reolwyr.

Ms Hobbs: If I could just share what happens within Cardiff and Vale NHS Trust—I am sure that colleagues will want to have the same opportunity. Our reports on incidents are reported every month, and are presented every month to our clinical risk management committee. That is part of our clinical governance structure, and it includes all the general managers, senior clinicians and medical director. The information is there, and remedial action can be agreed, and if signed off by the executive board and by the

Ms Hobbs: Pe cawn i rannu am eiliad yr hyn sydd yn digwydd o fewn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro—yr wyf yn siwr yr hoffai cyd-swyddogion gael yr un cyfle. Cawn ni adroddiadau ar ddiwyddiadau bob mis, ac fe'u cyflwynir bob mis i'n pwyllgor rheoli risg glinigol. Mae hynny'n rhan o'n strwythur llywodraethu clinigol, ac mae'n cynnwys yr holl reolwyr cyffredinol, uwch glinigwyr a'r cyfarwyddwr meddygol. Mae'r wybodaeth yno, a gellir cytuno ar sut i weithredu i unioni'r sefyllfa, a

trust board, more by exception. It is very much a part of our clinical governance arrangements, and the decisions are made by people who can make decisions. The only other thing that I would say is that within that we work very closely with colleagues in health and safety, because there are a lot of shared issues.

[116] **Janet Davies:** Ms Peplar, we have talked for quite a long time with Cardiff and Vale NHS Trust. Can I take you back and ask about the systems and progress that you are making in North East Wales NHS Trust?

Ms Peplar: As you heard, we have the same underpinning system, and we are finding that extremely helpful. I would agree that having a common system across Wales would be very useful. In terms of the internal systems of the organisation, I do not think that we are quite as advanced, and it is something that we are very clear that we need to do. We have been looking recently at how we ensure that we have proper connections between what we learn through clinical audit, what we learn through the complaints process, what we learn through clinical negligence, and what we learn in clinical governance, and we are starting to bring those together. I think that there is still a little way for us to go as an organisation on that, but we are moving in the right direction. We are also looking at how we feed back what we have learnt into the system and ensure that that does not just go to where perhaps an incident has happened, but is actually discussed and taken around the whole of the organisation. We still have a way to go on that, but we are working towards that. My sense is that there is far more openness to that happening than maybe there was about 18 months ago within the organisation, and people are readier to discuss

hynny, os y'i llofnodir gan y bwrdd gweithredol a bwrdd yr ymddiriedolaeth, yn fwy drwy eithriad. Mae'n bendant iawn yn rhan o'n trefniadau llywodraethu clinigol ni, a gwneir y penderfyniadau gan bobl sydd yn gallu gwneud penderfyniadau. Yr unig beth arall a ddywedwn yw ein bod yn gweithio'n agos iawn o fewn hynny gyda chydswyddogion ym maes iechyd a diogelwch, oherwydd mae llawer o faterion sydd yn gyffredin inni.

[116] **Janet Davies:** Ms Peplar, yr ydym wedi siarad am amser gweddol faith gydag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. A gaf fi fynd â chi'n ôl a holi am y systemau a sut yr ydych yn dod ymlaen yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru?

Ms Peplar: Fel y clywsoch, mae gennym ninnau'r un system isgynhaliol, ac mae hynny'n ddefnyddiol iawn inni. Cytunaf y byddai cael system gyffredin ar draws Cymru o fudd mawr. Yn nhermau systemau mewnol y sefydliad, nid wyf yn meddwl ein bod wedi mynd iawn mor bell, ac mae'n rhywbeth yr ydym yn glir iawn bod angen inni ei wneud. Buom yn edrych yn ddiweddar ar sut yr ydym yn sicrhau fod gennym gysylltiadau iawn rhwng yr hyn a ddysgw'n drwy archwilio clinigol, yr hyn a ddysgw'n drwy'r broses gwynion, yr hyn a ddysgw'n drwy esgeulustod clinigol, a'r hyn a ddysgw'n mewn llywodraethu clinigol, ac yr ydym yn dechrau dod â'r rheini ynghyd. Yr wyf yn meddwl fod gennym ryw ychydig o ffordd i fynd eto fel sefydliad yn hynny o beth, ond yr ydym yn symud i'r cyfeiriad iawn. Yr ydym hefyd yn edrych ar y modd y byddwn yn bwydo'r hyn a ddysgw'yd yn ôl i mewn i'r system ac yn sicrhau nad dim ond mynd i'r fan lle efallai y digwyddodd digwyddiad a wneir, ond y trafodir y peth a'i rannu o gwmpas y sefydliad cyfan. Mae gennym beth ffordd i fynd ar hynny, ond yr ydym yn gweithio tuag at hynny. Fy nheimlad i yw bod y sefydliad yn llawer mwy agored i hynny ddigwydd nag ydoedd efallai ryw 18 mis yn ôl, ac

and to actually look at the learning.

[117] **Janet Davies:** Can you also confirm that this goes to senior management?

Ms Peplar: Yes, it does.

[118] **Alun Cairns:** I would like to continue on the same lines. Mr Edwards, Ms Hobbs talked about the lessons that are being learned. What is the practical process for which feedback is given into the system so that lessons are learned within the trust?

Mr Edwards: There are a number of routes. You have a copy of our various committee structures that indicate the levels of involvement and the integration between management and clinicians. We have a devolved management structure, with clinicians involved right at the heart of our management process. So the outcomes of our claims management committee and the outcomes of our risk management committee go back into all the service groups, so that we can actually look at the incidents and the lessons that we learn. May I refer you to page 5 of our supplementary report, which I think highlights the point that you are making very well, where, as a result of that close liaison, we have been able to highlight those examples where changes in practice have taken place for those colleagues who have not been able to identify this? For example, the report notes on page 5:

‘Review of the use of syringe pumps following a serious incident. The remedial action taken is now held as being best practice.’

That is the sort of mechanism used, and there are some practical examples of where that has been successful.

[119] **Alun Cairns:** Thank you for that. Ms Peplar, can you offer similar examples of how you have actually learned from the lessons of having to pay compensation claims in your trust?

Ms Peplar: I can quote some examples but I will ask Julie Parry to perhaps take us

mae pobl yn barotach i drafod ac i edrych ar y dysgu.

[117] **Janet Davies:** A allwch chi gadarnhau hefyd bod hyn yn mynd i’r uwch reolwyr?

Ms Peplar: Ydyw, y mae.

[118] **Alun Cairns:** Hoffwn innau barhau ar hyd yr un llinellau. Mr Edwards, soniodd Ms Hobbs am y gwersi sydd yn cael eu dysgu. Beth yw’r broses ymarferol ar gyfer bwydo adborth yn ôl i mewn i’r system fel y dysgir gwersi o fewn yr ymddiriedolaeth?

Mr Edwards: Mae sawl llwybr. Mae gennych gopi o’n gwahanol strwythurau pwyllgorau sydd yn dangos y lefelau cyfranogiad a’r integreiddiad rhwng rheolwyr a chlinigwyr. Strwythur rheoli datganoledig sydd gennym, ac mae clinigwyr yn gyfranogol wrth galon ein proses reoli. Felly mae canlyniadau’n pwyllgor rheoli hawliadau a chanlyniadau’n pwyllgor rheoli risg yn mynd yn ôl i’r holl grwpiau gwasanaeth, fel y gallwn edrych o ddifrif ar y digwyddiadau ac ar y gwersi a ddysgwn. A gaf fi eich cyfeirio at dudalen 5 yn ein hadroddiad ategol, sydd, mi dybiaf, yn tanlinellu’r pwynt a wnewch chi yn dda iawn, lle, o ganlyniad i’r cydgysylltu agos hwnnw, yr ydym wedi gallu amlygu’r enghreifftiau hynny lle digwyddodd newidiadau mewn ymarfer i’r cydweithwyr hynny sydd heb fod wedi gallu gweld hyn? Er enghraifft, nodi’r adroddiad ar dudalen 5:

‘Adolygu defnydd pypmiau chwistrellu yn dilyn digwyddiad difrifol. Caiff y gweithredu adferol a ddigwyddodd ei ddal bellach fel enghraifft o’r ymarfer gorau.’

93. Dyna’r math o fecanwaith a ddefnyddir,

ac mae rhai enghreifftiau ymarferol o

fannau lle bu hynny’n llwyddiannus.

[119] **Alun Cairns:** Diolch ichi am hynny. Ms Peplar, a allwch chi gynnig enghreifftiau tebyg o sut yr ydych yn wir wedi dysgu o’r gwersi o orfod talu hawliadau iawndal yn eich ymddiriedolaeth?

Ms Peplar: Gallaf ddyfynnu rhai enghreifftiau ond gofynnaf i Julie Parry efallai

through one or two clear ones.

fynd â ni drwy un neu ddwy o rai clir.

Ms Parry: Certainly. It is very similar in terms of the use of committees that the trust has established. Again, we report incidents on a monthly basis through our risk management committee, which is actually a sub-committee of the trust board. When we do have adverse incidents, particularly the exceptional reporting, the committee produces an action plan that is then devolved across the trust using the directorate structure system. We also have directorate-led risk management groups. So each of our directorates has a group of people who lead, or look at, claims, complaints and our adverse events. It is devolved down through the directorates in a similar way.

Ms Parry: Wrth gwrs. Mae'n debyg iawn yn nhermau'r defnydd o bwyllgorau y mae'r ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu. Eto, byddwn yn adrodd ar ddigwyddiadau yn fisol drwy'n pwyllgor rheoli risg, sydd mewn gwirionedd yn is-bwyllgor i fwrdd yr ymddiriedolaeth. Pan gawn ddigwyddiadau niweidiol, yn enwedig yr adroddiadau eithriadol, bydd y pwyllgor yn llunio cynllun gweithredu a drosglwyddir wedyn ar draws yr ymddiriedolaeth gan ddefnyddio system y strwythur cyfarwyddiaethau. Mae gennym grwpiau rheoli risg hefyd dan arweiniad cyfarwyddiaethau. Felly mae gan bob un o'n cyfarwyddiaethau grwp o bobl sydd yn arwain, neu'n edrych ar, hawliadau, cwynion a'n digwyddiadau niweidiol. Fe'i trosglwyddir i lawr drwy'r cyfarwyddiaethau mewn modd tebyg.

[120] **Alun Cairns:** Trusts are much larger now than they used to be. What difficulties does that introduce to your feedback system?

[120] **Alun Cairns:** Mae ymddiriedolaethau yn llawer mwy erbyn hyn nag yr arferent fod. Pa anawsterau y mae hynny'n eu cyflwyno i'ch system adborth?

Ms Parry: Feedback is the most difficult area and we are working on that at the moment. It has taken some time to establish this system of reporting. In terms of the Chair's question regarding barriers, I would suggest that the biggest one is culture, which has been very difficult to overcome. In terms of the difficulty with feedback, it has been a long job to get people comfortable with reporting. Now, we must look at what we are offering back in terms of the actions that have been taken. There is a danger that we can take a very good practice action, which gives us best practice, and, as a result, we do not necessarily tell the person who originally reported the incident. So we are still working on it. We still have a lot of contact with people. When they report adverse events then we will always report back if an investigation has taken place. However, it is not as well established as it should be. That is an area that we are still working on.

[121] **Alun Cairns:** Mr Edwards gave an example of where his trust had learned lessons and had changed the procedures in terms of using a syringe. Can you give a

Ms Parry: Adborth yw'r maes anoddaf ac yr ydym yn gweithio ar hynny ar hyn o bryd. Mae wedi cymryd cryn amser i sefydlu'r system adrodd hon. Yn nhermau cwestiwn y Cadeirydd parthed rhwystrau, hoffwn awgrymu mai diwylliant yw'r rhwystr mwyaf, sydd wedi bod yn anodd i'w oresgyn erioed. Yn nhermau'r anhawster gydag adborth, bu'n dasg hirfaith cael pobl i fod yn gyfforddus gydag adrodd. Yn awr, rhaid inni edrych ar yr hyn yr ydym yn ei gynnig yn ôl, yn nhermau'r modd y gweithredwyd. Y mae perygl y gallwn weithredu'n ymarferol mewn ffordd dda iawn, sydd yn sicrhau'r ymarfer gorau, a'n bod, o ganlyniad, efallai heb ddweud wrth y sawl a adroddodd am y digwyddiad. Felly yr ydym yn dal i weithio ar hynny. Mae gennym lawer o gysylltiad â phobl o hyd. Pan adroddant ar ddigwyddiadau niweidiol yna byddwn bob amser yn adrodd yn ôl os bydd ymchwiliad wedi digwydd. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i sefydlu gystal ag y dylai fod. Dyna faes yr ydym yn gweithio arno o hyd.

[121] **Alun Cairns:** Rhoddodd Mr Edwards enghraifft o fan lle yr oedd ei ymddiriedolaeth wedi dysgu gwersi ac wedi newid y gweithdrefnau o ran defnyddio

practical example of where you have learned lessons within the trust and have actually changed procedures?

Ms Parry: Certainly. We had the introduction of a fairly new and very basic piece of equipment into the organisation. The decision made in terms of its introduction was that a cascade training system would be used so that one individual per ward would be trained to cascade. Following some trend analysis of our incidents, we had a significant increase in needle sticks following the use of that piece of equipment. It became apparent that the training was not working. As a result of that, that piece of equipment was removed across the trust and we resorted back to our old piece of equipment until we had established a correct procedure for implementing equipment and training.

[122] **Alun Cairns:** Thank you for that. It seems as though the feedback is working its way through and, as you say, you are continually making improvements on that. If I

chwistrell. A allwch chi roi enghraifft ymarferol o fan lle'r ydych chi wedi dysgu gwersi o fewn yr ymddiriedolaeth ac wedi mynd ati i newid gweithdrefnau?

Ms Parry: Wrth gwrs. Cawsom gyflwyniad darn o offer eithaf newydd a sylfaenol iawn i'r sefydliad. Y penderfyniad a wnaethpwyd parthed ei gyflwyno oedd y byddem yn defnyddio system hyfforddi raeadraidd fel y câi un unigolyn ar bob ward ei hyfforddi i raeadru. Wedi rhywfaint o ddadansoddi tueddiadau ein digwyddiadau, cawsom gynnydd sylweddol mewn achosion o nodwyddau sownd ar ôl defnyddio'r darn offer hwnnw. Daeth yn amlwg nad oedd yr hyfforddiant yn gweithio. O ganlyniad i hynny, rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r darn offer hwnnw ar draws yr ymddiriedolaeth ac aethom yn ôl at ein hen offer hyd nes y byddem wedi sefydlu gweithdrefn briodol ar gyfer gweithredu'r offer a'r hyfforddiant.

[122] **Alun Cairns:** Diolch ichi am hynny. Mae'n debyg fod yr adborth yn gweithio'i ffordd drwodd ac, fel y dywedaso, yr ydych yn gwneud gwelliannau ar hynny'n

can turn to Mr Edwards and Ms Peplar, what about the situation between trusts, not only your own trusts individually, but those throughout the whole of the NHS in Wales? If an incident has posed a risk in one trust, how is that message cascaded across to other trusts that might find themselves in similar circumstances?

barhaus. Os caf fi droi at Mr Edwards a Ms Peplar, beth am y sefyllfa rhwng ymddiriedolaethau, nid dim ond eich ymddiriedolaethau chi'ch hun yn unigol, ond y rheini drwy'r NHS gyfan yng Nghymru? Os oes un digwyddiad wedi achosi risg mewn un ymddiriedolaeth, sut y caiff y neges honno ei lledaenu ar draws i ymddiriedolaethau eraill a allai eu cael eu hunain mewn amgylchiadau tebyg?

Mr Edwards: If it is a serious incident, we have a sentinel reporting system, which is for Wales as a whole. So that provides the opportunity for that sharing and learning and, more importantly, for the avoidance of that happening elsewhere. For the myriad of incidents, or near misses, that could happen, I do not think that that is well developed at all. I said earlier about colleagues meeting across Wales to review this against a common database. I think that that would rectify the problem that we currently have.

Mr Edwards: Os ydyw'n ddigwyddiad difrifol, mae gennym system adrodd gwarchodol, sydd ar gyfer Cymru gyfan. Felly mae hynny'n darparu'r cyfle ar gyfer y broses honno o rannu a dysgu ac, yn bwysicach, ar gyfer osgoi bod hynny'n digwydd yn rhywle arall. Ar gyfer y lluo o ddigwyddiadau, neu achosion trwch-blewyn, a allai ddigwydd, nid wyf yn meddwl fod hynny wedi'i ddatblygu'n dda o gwbl. Soniais yn gynharach am gydweithwyr yn cyfarfod ledled Cymru i adolygu hyn yn erbyn cronfa ddata gyffredin. Credaf y byddai hynny'n cywiro'r broblem sydd gennym yn awr.

[123] **Alun Cairns:** Do you have any

[123] **Alun Cairns:** A oes gennych chi

different views, Ms Peplar?

unrhyw sylwadau gwahanol, Ms Peplar?

Mrs Peplar: I would agree. I think that the only established format, which perhaps Julie could talk more about, is the Risk Managers Network, which meets on a regular basis and exchanges ideas.

Mrs Peplar: Fe fyddwn yn cytuno. Credaf mai'r unig fformat sefydledig, y gallai Julie efallai siarad mwy amdano, yw'r Rhwydwaith Rheolwyr Risg, sydd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyfnewid syniadau.

Ms Parry: That is right. We do adverse reporting, which is circulated among the risk managers. We meet every six weeks and we do anonymous reporting into that committee. Adverse events are shared across Wales in terms of the events that have happened and the lessons that have been learnt.

Ms Parry: Mae hynny'n gywir. Adroddwn ar ddigwyddiadau niweidiol, a chylchredeg hynny o gwmpas y rheolwyr risg. Deuwn ynghyd bob chwe wythnos a rhown adroddiadau dienw i'r pwyllgor hwnnw. Rhennir digwyddiadau niweidiol ledled Cymru yn nhermau'r hyn a ddigwyddodd a'r gwersi a ddysgwyd.

[124] **Alun Cairns:** My next question was going to be about the Risk Managers Network. Is that an effective forum for the dissemination of information?

[124] **Alun Cairns:** Yr oeddwn wedi bwriadu holi nesaf ynghylch y Rhwydwaith Rheolwyr Risg. A yw hwnnw'n fforwm effeithiol ar gyfer lledaenu gwybodaeth?

Ms Parry: Yes, definitely.

Ms Parry: Ydyw, yn bendant.

[125] **Alun Cairns:** Are there practical examples of where best practice in one trust has been learned in another?

[125] **Alun Cairns:** A oes enghreifftiau ymarferol o fannau lle cafodd ymarfer gorau mewn un ymddiriedolaeth ei ddysgu mewn un arall?

Ms Parry: You are probably aware of the adverse event in terms of the removal of kidneys, for instance. That has certainly been very topical within the Risk Managers Network for some time now. Obviously, it has been difficult for that reporting to go on while the investigations are continuing. However, certainly in terms of best practice, the changes made by that trust have been shared across the whole of Wales. We have been able to take that back to our trusts and ensure that we have similar systems, or systems that will suit our trust, in place to prevent that from happening again.

Ms Parry: Mae'n debyg eich bod yn ymwybodol o'r digwyddiad niweidiol parthed tynnu arennau, er enghraifft. Yn sicr bu hynny'n destun cyfoes iawn o fewn y Rhwydwaith Rheolwyr Risg ers tro bellach. Yn amlwg, bu'n anodd adrodd ar hynny tra mae'r ymchwiliadau'n parhau. Fodd bynnag, yn sicr o ran ymarfer gorau, cafodd y newidiadau a wnaethpwyd gan yr ymddiriedolaeth honno eu rhannu ar draws Cymru gyfan. Yr ydym wedi gallu mynd â hynny'n ôl i'n hymddiriedolaethau a sicrhau fod gennym systemau tebyg, neu system a fydd yn addas i'n hymddiriedolaeth ni, yn eu lle er mwyn atal hynny rhag digwydd eto.

[126] **Alun Cairns:** Mr Edwards, I ask you or Ms Hobbs, what other lessons could the Cardiff and District Community NHS Trust have learnt through the network that has been established?

[126] **Alun Cairns:** Mr Edwards, gofynnaf i chi neu Ms Hobbs, pa wersi eraill allasai Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Cylch eu dysgu drwy'r rhwydwaith sydd wedi'i sefydlu?

Mr Edwards: I will ask Ms Hobbs to answer this point, if I may.

Mr Edwards: Gofynnaf i Ms Hobbs ateb y pwynt hwn, os caf.

Ms Hobbs: I would agree with Julie Parry that the Risk Managers Network works well. I think that it also works well because of its connection with the Welsh Risk Pool. There is a huge opportunity there to share learning. We have three risk managers in our trust and they work very much within the different service groups. So I think that there is a great wealth of expertise there. What our three managers do when they return from working with those groups, is immediately tell the rest of us what has been going on and that comes out in a brief that is also reported to the main risk committee so that we can try to disseminate that as well. Julie's example of how we can learn both through being very honest and open either about things that have happened or where things might have happened is very valuable and continues to be very valuable. Something that we have done, which really came out of a Risk Pool assessment, was to introduce better identification of patients and better inter-hospital transfer of patients. I think that that is something that the Welsh Risk Pool was quite keen to see and something that the

Ms Hobbs: Hoffwn gytuno gyda Julie Parry fod y Rhwydwaith Rheolwyr Risg yn gweithio'n dda. Credaf ei fod hefyd yn gweithio'n dda oherwydd ei gysylltiad â Chronfa Risg Cymru. Mae yno gyfle enfawr i rannu dysg. Mae gennym dri rheolwr risg yn ein hymddiriedolaeth ni ac maent yn gweithio i raddau helaeth iawn o fewn y gwahanol grwpiau gwasanaeth. Felly yr wyf o'r farn fod cyfoeth mawr o arbenigedd yno. Yr hyn a wna'n tri rheolwr pan ddychwelant o weithio gyda'r grwpiau hynny, yw dweud yn syth wrth y gweddill ohonom beth sydd wedi bod yn digwydd a daw hynny allan mewn briff a gaiff hefyd ei adrodd i'r prif bwyllgor risg fel y gallwn geisio lledaenu hynny hefyd. Mae enghraifft Julie o sut y gallwn ddysgu drwy fod yn onest ac agored iawn un ai am bethau sydd wedi digwydd neu lle y gallai pethau fod wedi digwydd, yn werthfawr iawn ac yn parhau i fod yn werthfawr iawn. Un peth yr ydym wedi'i wneud, a ddeilliodd mewn gwirionedd o asesiad gan y Gronfa Risg, oedd cyflwyno gwell dulliau adnabod cleifion a gwell dull o drosglwyddo cleifion rhwng ysbytai. Credaf fod hynny'n rhywbeth

Welsh risk managers have been very pleased to push forward. I think that it is a good partnership.

yr oedd Cronfa Risg Cymru'n eithaf awyddus i'w weld ac yn rhywbeth y mae rheolwyr risg Cymru wedi bod yn falch iawn i'w wthio ymlaen. Credaf ei bod yn bartneriaeth dda.

[127] **Alun Cairns:** Page 26 of the report mentions the Losses and Special Payments Register and says that it is a potentially useful source of information on claims but that management and ownership have prevented it becoming operational. What is your view on the potential usefulness of the system? That is to Ms Peplar.

[127] **Alun Cairns:** Ar dudalen 26 yr adroddiad crybwyllir y Gofrestr Golledion a Thaliadau Arbennig a dywedir ei bod yn ffynhonnell a allai fod yn ddefnyddiol i roi gwybodaeth am hawliadau ond bod rheolaeth a pherchenogaeth wedi ei hatal rhag dod yn weithredol. Beth yw'ch barn chi ar ddefnyddioldeb posibl y system? Cwestiwn i Ms Peplar yw hwn.

Ms Peplar: I have talked to a number of people about this to try to understand it, because since I have come into the trust I have found quite a lot of hostility towards this scheme. As I understand it, it is a scheme that was devised within the financial departments but not particularly to pick up this purpose. There is a sense that it is being enforced on the trusts and people feel a little bit that they are trying to adapt a scheme that does not properly work to a purpose that has some benefits, but not the benefits for

Ms Peplar: Yr wyf wedi siarad â nifer o bobl am hyn er mwyn ceisio'i ddeall, oherwydd ers i mi ddod i mewn i'r ymddiriedolaeth yr wyf wedi canfod cryn dipyn o elyniaeth tuag at y cynllun hwn. Yn ôl a ddeallaf fi, cynllun ydyw a ddyfeisiwyd o fewn yr adrannau cyllid ond nid yn arbennig i gyflawni'r pwrpas hwn. Mae ymdeimlad ei fod yn cael ei orfodi ar yr ymddiriedolaethau ac mae pobl yn teimlo i ryw raddau eu bod yn ceisio addasu cynllun nad yw'n gweithio'n iawn i bwrpas sydd â rhai manteision, ond

which we are really looking. So there is quite a lot of resistance to it, which I have certainly picked up on since I came to Wales. As I say, my understanding is that that is based on the fact that it is a scheme that is being stretched to fit and does not do so properly and that there is a need to devise a proper scheme. There are real anxieties among the clinicians about confidentiality relating to this. Therefore, people are not picking it up and embracing it. I think that we should look for something that will offer us, across the whole of Wales, what we are looking for in this.

nid y manteision yr ydym yn edrych amdanynt mewn gwirionedd. Felly mae cryn dipyn o wrthsafiad iddo, sydd yn sicr wedi bod yn amlwg i mi ers imi ddod i Gymru. Fel y dywedaf, fy nealltwriaeth i yw fod hynny'n seiliedig ar y ffaith mai cynllun ydyw sydd yn cael ei ymestyn i ffitio ac nad yw'n gwneud hynny'n iawn a bod angen dyfeisio cynllun iawn. Mae gwir bryderon ymysg y clinigwyr ynghylch cyfrinachedd yn y mater yma. Felly, nid yw pobl yn ei godi i fyny a'i goleddu. Credaf y dylem chwilio am rywbeth a wnaiff gynnig i ni, ar draws Cymru gyfan, yr hyn yr ydym yn chwilio amdano yn hyn o beth.

[128] **Alun Cairns:** Thank you. Mr Edwards?

[128] **Alun Cairns:** Diolch. Mr Edwards?

Mr Edwards: I have nothing much to add other than to agree with that and to refer back to my earlier comments in relation to SAFECODE and the way in which that brings together a number of different systems, which I think will be necessary. Let us get something that is fit for purpose. I am not denigrating it but certainly the noise about trying to fit something that is not absolutely right for the purpose has come to

Mr Edwards: Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu ac eithrio cytuno â hynny a chyfeirio'n ôl at fy sylwadau cynharach parthed SAFECODE a'r modd y mae hynny'n dwyn ynghyd nifer o wahanol systemau, a fydd yn fy mam i yn angenrheidiol. Gadewch inni gael rhywbeth sydd yn addas i'r pwrpas. Nid wyf yn ei ddirio ond yn sicr mae'r synau ynghylch ceisio ffitio rhywbeth nad yw'n gwbl briodol

me as well as to Hilary.

i'r pwrpas wedi fy nghyrraedd innau yn ogystal â Hilary.

[129] **Alun Cairns:** Part of the reason for the delay has been that it has expanded and evolved from its original concept. Do you think that it should return to its original concept and purpose or should it be expanded to fit the wider picture of the problems that we have identified?

[129] **Alun Cairns:** Rhan o'r rheswm am yr oedi yw ei fod wedi ehangu ac esblygu o'i gysyniad gwreiddiol. Ydych chi'n meddwl y dylai ddychwelyd at ei gysyniad a'i bwrpas gwreiddiol ynteu a ddylid ei ehangu i ffitio i ddarlun ehangach y problemau yr ydym wedi'u nodi?

Mr Edwards: I would like to see the sort of system that I was talking about with SAFECODE developed.

Mr Edwards: Hoffwn weld datblygu'r math o system yr oeddwn yn sôn amdani gyda SAFECODE.

[130] **Alison Halford:** You commented on the Losses and Special Payments Register. I think that you said that it is a system that has been forced and stretched and that there are real anxieties about confidentiality. Our brief tells us that this is a National Assembly initiative. Is that correct? Although it is at an embryonic stage, our brief indicates that it should improve the information available on clinical negligence. We are told that it should have become operational in April 2000. There has been a glitch and it will now not

[130] **Alison Halford:** Gwnaethoch sylw am y Gofrestr Golledion a Thaliadau Arbennig. Credaf ichi ddweud mai system ydyw sydd wedi'i gwthio a'i gorymestyn a bod gwir bryderon ynghylch cyfrinachedd. Dywed ein briff mai menter y Cynulliad Cenedlaethol yw hon. A yw hynny'n gywir? Er mai yn ei babandod y mae, dywed ein briff y dylai wella'r wybodaeth sydd ar gael ar esgeulustod clinigol. Dywedir wrthym y dylasai fod wedi dod yn weithredol ym mis Ebrill 2000. Cafwyd mân broblem ac ni fydd

come on-stream until perhaps 2001-02. Our brief indicates that there is nothing terribly wrong with it, but you are indicating that there is something wrong with it. I would like to tease that out of you both, please.

Ms Peplar: Certainly, when I joined the trust that is what I heard from everybody. Indeed, before coming here I asked my director of finance what he thought about it. He said that it is not designed for that and it is not suitable. He was fairly dismissive of the attempts that have been made to try to make it work in that way. I do not know if Julie would like to add to that in terms of some of the reasons why it is problematic.

Ms Parry: Since the establishment of the Risk Managers Network this subject has been on the agenda in terms of us being encouraged to use this system for reporting. Certainly, in the early days we were encouraged to use it as a financial tool rather than a tool for adverse reporting. Another thing that has come out of our discussions is this worry about confidentiality. When you are trying to reassure clinicians about

bellach yn rhedeg tan 2001-02 efallai. Yn ôl ein briff nid oes dim byd mawr o'i le arni, ond yr ydych chi'n awgrymu bod rhywbeth o'i le arni. Hoffwn gael fy ngoleuo gennych chi'ch dau ar hynny, os gwelwch yn dda.

Ms Peplar: Yn sicr, pan ymunais i â'r ymddiriedolaeth dyna beth a glywais i gan bawb. Yn wir, cyn dod yma mi holais fy nghyfarwyddwr cyllid am ei fam ef amdani. Dywedodd ef nad yw wedi'i gynllunio ar gyfer hynny ac nad yw'n addas. Yr oedd yn wffio braidd at yr ymgeision a wnaethpwyd i geisio'i chael i weithio yn y ffordd honno. Ni wn a hoffai Julie ychwanegu at hynny o ran rhoi rhai o'r rhesymau pam y mae problemau gyda'r system.

Ms Parry: Ers sefydlu'r Rhwydwaith Rheolwyr Risg mae'r pwnc hwn ar yr agenda o safbwynt ein hannog ni i ddefnyddio'r system hon ar gyfer adrodd. Yn sicr, yn y dyddiau cynnar fe'n hanogwyd i'w defnyddio fel erfyn cyllidol yn hytrach nag erfyn ar gyfer adrodd digwyddiadau niweidiol. Peth arall a ddaeth allan o'n trafodaethau yw'r pryder hwn ynghylch cyfrinachedd. Pan ydych chi'n ceisio rhoi

reporting and the level of confidentiality that they will get when they report and then you tell them that you are going to put further information outside of your organisation that will identify them, then that obviously gravely concerns clinicians. We have had some mix-up certainly within our trust about who should be the lead for LaSPaR. Documentation has come to me through the Risk Pool and then when we followed it up, we realised that it should have gone to the finance staff, and then, in fact, it did go to the finance staff. Finance is using it, but it is certainly not being used by the claims man or by myself at the moment.

[131] **Alison Halford:** So, who is driving this? We are told that it is a useful database. Ms Hobbs has talked about the need for a single information database, which is all to do with collecting evidence—information that will stop some of these claims. Whose confidentiality are you concerned about? Is it a case of Dr Bloggs making a frightful mess and therefore you do not put that information on the register?

sicrwydd i glinigwyr ynghylch adrodd a'r lefel o gyfrinachedd a gânt pan fyddant yn adrodd, ac wedyn eich bod yn dweud wrthynt eich bod yn mynd i roi gwybodaeth bellach y tu allan i'ch sefydliad a fydd yn dangos pwy ydynt, yna'n amlwg mae hynny'n peri pryder mawr i glinigwyr. Yr ydym wedi cael rhyw gymysgwch yn sicr o fewn ein hymddiriedolaeth ynghylch pwy ddylai fod yn arwain ar gyfer LaSPaR. Daeth dogfennaeth ataf fi drwy'r Gronfa Risg ac wedyn, wrth inni ddilyn y mater, sylweddolwyd y dylasai fod wedi mynd at y staff cyllid, ac wedyn, yn wir, fe'i hanfonwyd at y staff cyllid. Mae'r adran gyllid yn ei defnyddio, ond yn sicr nid yw'n cael ei defnyddio gan y dyn hawliadau na gennyf fi ar hyn o bryd.

[131] **Alison Halford:** Felly, pwy sydd yn gyrru hyn? Dywedir wrthym ei bod yn gronfa ddata ddefnyddiol. Mae Ms Hobbs wedi siarad am yr angen am un gronfa ddata wybodaeth, sydd yn fater o gasglu tystiolaeth—gwybodaeth a rydd derfyn ar rai o'r hawliadau hyn. Cyfrinachedd pwy sydd yn eich poeni? Ai achos o Dr hwn-a-hwn yn gwneud llanast ofnadwy ydyw, a chithau felly ddim yn rhoi'r wybodaeth honno ar y

gofrestr?

Ms Parry: Yes.

Ms Parry: Ie.

[132] **Alison Halford:** Surely that cuts across the whole idea of trying to improve the national health service's system? So you are pandering to the needs of a consultant who has made a mistake that is going to cost the taxpayer many thousands of pounds, but we are not allowed to know about it because of the feelings of Dr so-and-so?

[132] **Alison Halford:** Siawns nad yw hynny'n torri ar draws yr holl syniad o geisio gwella system y gwasanaeth iechyd gwladol? Felly yr ydych yn porthi anghenion ymgynghorydd sydd wedi gwneud camgymeriad a fydd yn costio miloedd ar filoedd o bunnoedd i'r trethdalwr, ond ni chawn ni wybod am y mater oherwydd teimladau Dr hwn-a-hwn?

Ms Parry: In terms of Caldicott, there is patient-identifiable information, particularly in adverse events. In extreme adverse events with clinical conditions, patients become identifiable, which goes against the principles of Caldicott. Also other questions have been asked relating to the Data Protection Act 1984.

Ms Parry: O ran Caldicott, y mae gwybodaeth y gellir adnabod y claf oddi wrthi, yn enwedig mewn digwyddiadau niweidiol. Mewn digwyddiadau eithriadol o niweidiol gyda chyflyrau clinigol, mae modd adnabod cleifion, sydd yn groes i egwyddorion Caldicott. Mae cwestiynau eraill wedi'u gofyn hefyd ynghylch Deddf Gwarchod Data 1984.

[133] **Alison Halford:** I do not want to take this discussion over and I do not really

[133] **Alison Halford:** Nid oes arnaf eisiau meddiannu'r drafodaeth hon ac ni wn am

know about Caldicott, but in terms of bad practitioners, we know very well of the damage that has been done by hundreds of bad operations—women’s internal operations and that sort of thing. If you are not prepared to divulge your bad clinicians because of confidentiality, then the system must be a little fudged, perhaps?

Caldicott mewn gwirionedd, ond yn nhermau ymarferwyr gwael, gwyddom yn burion am y niwed a wnaethpwyd gan gannoedd o lawdriniaethau gwael—llawdriniaethau mewnol merched a’r math yna o beth. Os nad ydych yn barod i ddatgelu’ch clinigwyr gwael oherwydd cyfrinachedd, yna rhaid bod y system wedi’i chyfaddawdu ychydig, efallai?

Ms Peplar: May I try to clarify that? Clearly one should not try to protect a bad practitioner in the way that you are identifying. However, I think that what we are trying to do is offer the opportunity for people to debate where things go wrong in a way that is not necessarily about saying that someone is a bad practitioner *per se* right across the board, and that everything he or she does is wrong, but about offering an opportunity for people to talk honestly about mistakes that they make and actually learn from each other about that. Their feeling is that the LaSPaR process does not actually help them discuss that in a way that protects the patient and protects them as individuals who may have got perhaps one thing wrong. That, I think, is very different from the rogue or bad practitioner, where I would entirely

Ms Peplar: A gaf fi geisio egluro hynny? Yn amlwg ni ddylid ceisio gwarchod ymarferwr gwael yn y modd yr ydych chi’n ei ddisgrifio. Fodd bynnag, yr wyf yn meddwl mai’r hyn yr ydym yn ceisio’i wneud yw cynnig y cyfle i bobl drafod lle mae pethau’n mynd o chwith mewn ffordd nad yw o reidrwydd yn golygu dweud fod rhywun yn ymarferwr gwael *per se* drwyddo draw, a bod popeth a wna yn anghywir, ond yn hytrach yn golygu cynnig cyfle i bobl siarad yn onest am gamgymeriadau a wnânt a chael dysgu oddi wrth ei gilydd am hynny. Eu teimlad hwy yw nad yw’r broses LaSPaR yn eu helpu mewn gwirionedd i drafod mewn ffordd sydd yn gwarchod y claf ac yn eu gwarchod hwy fel unigolion sydd efallai wedi gwneud un camsyniad. Mae hynny, dybiwn i, yn wahanol iawn i’r ymarferwr drwg neu wael,

agree that we would have to take action. It would not be appropriate to try to improperly protect that individual. We need to separate those two aspects out and the feeling among clinicians is that the scheme under LaSPaR does not allow them to have that proper debate and they are also very concerned about the confidentiality of patient material.

lle byddwn yn cytuno'n llwyr y byddai'n rhaid inni weithredu. Ni fyddai'n briodol ceisio gwarchod yr unigolyn hwnnw. Mae angen gwahanu'r ddwy agwedd hyn a'r teimlad ymhlith clinigwyr yw nad yw'r cynllun dan LaSPaR yn caniatáu iddynt gael y drafodaeth briodol honno, ac maent yn bryderus iawn hefyd ynghylch cyfrinachedd deunydd ar gleifion.

[134] **Janet Davies:** Kirsty, you wanted to raise something?

[134] **Janet Davies:** Kirsty, yr oedd arnoch chi eisiau codi rhywbeth?

[135] **Kirsty Williams:** It relates to what Alison raised about the issue of protecting consultants rather than the public. Given the new emphasis on clinical governance and the very strong responsibilities that you as chief executives of trusts have towards clinical governance, do you agree that what we should be concerned about is opening up the culture within the NHS and encouraging and protecting potential whistleblowers who may like to discuss with other colleagues potential worries that they have about colleagues' standards? That openness is not encouraged by LaSPaR, and if we are to create a system that encourages openness, and offers the

[135] **Kirsty Williams:** Mae'n ymwneud â'r hyn a gododd Alison ynghylch y cwestiwn o warchod ymgynghorwyr yn hytrach na'r cyhoedd. O gofio'r pwyslais newydd ar reolaeth glinigol a'r cyfrifoldebau cryf iawn sydd gennych chi fel prif weithredwyr ymddiriedolaethau tuag at reolaeth glinigol, ydych chi'n cytuno mai'r hyn y dylem fod yn poeni yn ei gylch yw agor y diwylliant o fewn yr NHS ac annog a gwarchod darpar chwythwyr chwib a fyddai efallai'n dymuno trafod pryderon sydd ganddynt am safonau cydweithwyr gyda chydweithwyr eraill? Nid yw LaSPaR yn annog y natur agored honno, ac os ydym am

opportunity for people to talk about mistakes and improve their practice, then we need to take on board the issue of confidentiality. We must also realise that the consequences of putting excessive pressure on clinicians can lead to damaging effects on services that are available to patients within hospitals. The trend is to centralise services in places like the University Hospital of Wales because people in smaller institutions are not particularly confident about carrying out those risky procedures because of this atmosphere in which we could potentially find ourselves working.

greu system sydd yn annog pobl i fod yn agored, ac yn cynnig cyfle i bobl siarad am gamgymeriadau a gwella'u hymarfer, yna mae angen inni ystyried cwestiwn cyfrinachedd. Rhaid inni sylweddoli hefyd y gall canlyniadau rhoi gormod o bwysau ar glinigwyr arwain at effeithiau niweidiol ar wasanaethau sydd ar gael i gleifion mewn ysbytai. Y duedd yw canoli gwasanaethau mewn lleoedd fel Ysbyty Prifysgol Cymru oherwydd nad yw pobl mewn sefydliadau llai'n arbennig o hyderus ynghylch cyflawni'r gweithdrefnau llawn risg hyn oherwydd yr awyrgylch hwn y gallem o bosibl ganfod ein bod yn gweithio ynddo.

Mr Edwards: May I say how much I agree with that last contribution? I think that that is absolutely right. We are a more open culture. We are trying to develop a learning culture within the service to encourage people to come forward to report near misses as well as actual events. We are not looking for a blame culture, but we are also certainly not looking to protect those that might actually do harm to the public. That is the last thing that we want. In relation to the service as a whole, if you take Cardiff and Vale NHS Trust, we have 520,000

Mr Edwards: A gaf i ddweud gymaint yr wyf yn cytuno â'r cyfraniad diwethaf hwnnw? Credaf fod hynny yn llygad ei le. Yr ydym yn ddiwylliant mwy agored. Yr ydym yn ceisio datblygu diwylliant o ddysgu o fewn y gwasanaeth er mwyn annog pobl i ddod ymlaen i adrodd am ddiwyddiadau 'trwch-blewyn' yn ogystal â digwyddiadau go iawn. Nid ydym yn edrych am ddiwylliant gosod bai, ond hefyd yn sicr nid ydym yn edrych tuag at warchod y rheini a allai wneud gwir niwed i'r cyhoedd. Dyna'r peth olaf y mae arnom ei eisiau. Yng nghyd-

individual patient contacts every year. If you multiply that by the numbers of relatives, patients and members of staff that talk to each other about particular events or procedures, it is many millions. Most of those go well and are a tribute to the professionalism of the staff in the NHS. Some of them do not go well. We need to ensure that we continue to lift those standards, but also keep it in perspective. In terms of LaSPaR—just a final point from me—I would certainly not wish to challenge the Auditor General at all. It could become a useful tool. The question is should it, and whether there are more appropriate tools for that purpose.

[136] **Alison Halford:** It is just our job to scrutinise. We have a job to do and it is important that we hear from you what you think of systems as well.

Mr Edwards: Absolutely.

destun y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, os cymerwch Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, cawn 520,000 o gysylltiadau â chleifion unigol bob blwyddyn. Os lluoswch hynny â niferoedd y perthnasau, cleifion ac aelodau staff sydd yn siarad â'i gilydd am ddigwyddiadau neu weithdrefnau arbennig, mae'n filiynau lawer. Mae'r rhan fwyaf o'r rheini'n mynd yn dda ac yn deyrnged i broffesiynoldeb y staff yn yr NHS. Mae rhai ohonynt heb fynd cystal. Mae angen inni sicrhau ein bod yn parhau i godi'r safonau hynny, ond hefyd ei gadw mewn persbectif. Yn nhermau LaSPaR—dim ond pwynt olaf gennyf fi—yn sicr ni hoffwn herio'r Archwilydd Cyffredinol o gwbl. Gallai ddod yn arf defnyddiol. Y cwestiwn yw, a ddylai, ac a oes arfau mwy priodol i'r diben hwnnw.

[136] **Alison Halford:** Ein gwaith ni yw archwilio. Mae gennym orchwyl i'w gyflawni ac mae'n bwysig ein bod yn clywed gennych chi beth yr ydych chi'n ei feddwl am systemau hefyd.

Mr Edwards: Yn hollol.

[137] **Alison Halford:** Thank you.

[137] **Alison Halford:** Diolch.

[138] **Janet Davies:** It is very valuable if you can suggest that there are other, better ways of doing it. I would now like to move on to the causes of negligence and that part of the report. Ann Jones would like to pursue that.

[138] **Janet Davies:** Mae'n werthfawr iawn os gallwch chi awgrymu bod ffyrdd eraill, gwell, o wneud pethau. Hoffwn symud ymlaen yn awr at achosion esgeulustod a'r rhan honno o'r adroddiad. Hoffai Ann Jones fynd ar ôl hynny.

[139] **Ann Jones:** A good example of the operational benefits that can accrue from access to good management information is the Auditor General's analysis of the causes of negligence. I am looking at the report from paragraph 3.2 on page 18 onwards, and, in particular, paragraph 3.22. Based on that analysis, across Wales a third of clinical negligence claims involved administrative or systems errors that were not due to clinical judgment or skill, costing the NHS substantial sums of money each year. To what extent does that finding meet with your experiences and the knowledge of claims within your own trust? Shall we start down south and work up north?

[139] **Ann Jones:** Enghraifft dda o'r buddiannau gweithredol a all ddeillio o gael mynediad at wybodaeth reoli dda yw dadansoddiad yr Archwilydd Cyffredinol o achosion esgeulustod. Yr wyf yn edrych ar yr adroddiad o baragraff 3.2 ar dudalen 18 ymlaen, ac, yn arbennig, baragraff 3.22. Ar sail y dadansoddiad hwnnw, ledled Cymru yr oedd traean o'r hawliadau am esgeulustod clinigol yn ymwneud â chamgymeriadau systemau neu weinyddol nad oedd yn ymwneud â barn neu fedr clinigol, gan gostio symiau sylweddol o arian i'r NHS bob blwyddyn. I ba raddau mae'r canfyddiad hwnnw'n cyfateb i'ch profiadau chi a'r wybodaeth am hawliadau o fewn eich ymddiriedolaeth chi'ch hun? Beth am gychwyn i lawr yn y de a gweithio'n ffordd i

fyny i'r gogledd?

Mr Edwards: I could not put my hand on my heart and say that there is no evidence at all of where we could look at our administration and tighten it up. However, I think that, for us, is a very minor part of the issue. We can certainly do better and I am sure that we all feel that across Wales. However, if we look at the claims evidence mainly against the actual service that we provide for people, we think that we have the systems in place. For example, the clinical claims review committee that we currently run—which is very challenging—with peers, examines the clinical and the administrative aspects of the way in which we deal with claims. It is there. We will continue to reassure the Audit Committee that we are trying to minimise administrative errors and costs associated with that. From my point of view, the two biggest cost savings come from trying to first, avoid the incident in the first place and, secondly, to reduce the length of time that it takes for these cases to be settled. That is why I mentioned the clinical claims review committee. It is so that we can make those settlements before they get anywhere near

Mr Edwards: Ni allwn roi fy llaw ar fy nghalon a dweud nad oes dim tystiolaeth o gwbl o fannau lle galledd edrych ar ein gweinyddiad a'i dynhau. Fodd bynnag, i ni, credaf mai rhan fach iawn o'r mater yw hynny. Yn sicr gallwn wneud yn well ac yr wyf yn siwr ein bod i gyd yn teimlo hynny ledled Cymru. Fodd bynnag, os edrychwn ar y dystiolaeth hawliadau yn bennaf yn erbyn y gwasanaeth a ddarparwn i bobl, credwn fod y systemau yn eu lle gennym. Er enghraifft, mae'r pwyllgor adolygu hawliadau clinigol a redir gennym ar hyn o bryd—sydd yn heriol iawn—gyda chymheiriaid, yn archwilio agweddau clinigol a gweinyddol y modd y deliwn â hawliadau. Y mae yno. Byddwn yn parhau i sicrhau'r Pwyllgor Archwilio ein bod yn ceisio lleihau camgymeriadau gweinyddol a'r costau cysylltiedig â hynny. O'm safbwynt i, daw'r ddau arbediad cost mwyaf o geisio, yn gyntaf, osgoi'r digwyddiad yn y lle cyntaf ac, yn ail, byrhau'r amser a gymer i setlo'r achosion hyn. Dyna pam y soniais am y pwyllgor adolygu hawliadau clinigol. Ei nod yw ein galluogi i wneud y setliadau hyn cyn iddynt fynd ar gyfyl y llysoedd.

courts.

Ms Peplar: I think that I would support that, although I think that we probably have further to go in terms of ensuring that our record keeping is particularly up to date. That is an area about which I have real anxiety. When I talk to staff about why there are issues in record keeping, what I hear back is that it is very difficult under pressure to ensure that we are absolutely on top of everything. The amount of training has improved and increased enormously to ensure that people are fully aware of their responsibilities around effective and appropriate record keeping. However, I think that we still have a way to go with that.

Ms Peplar: Yr wyf yn meddwl y byddwn innau'n cefnogi hynny, er fy mod yn meddwl fod gennym ffordd bellach i fynd, mae'n debyg, yn nhermau sicrhau fod ein trefn gadw cofnodion yn arbennig o gyfoes. Dyna faes sydd yn peri gwir bryder imi. Pan siaradaf â staff ynghylch pam y mae problemau gyda chadw cofnodion, yr hyn a glywaf yn ôl yw ei bod hi'n anodd iawn dan bwysau i sicrhau bod gennym reolaeth lwyr dros bopeth. Mae'r hyfforddiant a ddarperir wedi gwella ac wedi cynyddu'n aruthrol er mwyn sicrhau fod pobl yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau ynghylch cadw cofnodion yn effeithiol ac yn briodol. Fodd bynnag, credaf fod gennym beth ffordd i fynd gyda hynny eto.

[140] **Ann Jones:** Thank you. You mentioned your clinical claims review committee, Mr Edwards. Do you think that you can do more to address the core reasons behind these non-clinical errors? In particular, if you look at figure 3.4 on page 20 of the report, do you think that you can do any more?

[140] **Ann Jones:** Diolch. Soniasoch am eich pwyllgor adolygu hawliadau clinigol, Mr Edwards. A ydych chi'n meddwl y gallwch wneud mwy i ddatrys y rhesymau creiddiol y tu ôl i'r camgymeriadau anghlinigol hyn? Yn enwedig, os edrychwch ar ffigur 3.4 ar dudalen 20 yn yr adroddiad, a ydych yn meddwl y gallwch wneud unrhyw beth mwy?

Mr Edwards: May I ask Sue Hobbs to come in, if that is okay with you?

Mr Edwards: A gaf fi ofyn i Sue Hobbs ddod i mewn, os yw hynny'n iawn gennych chi?

[141] **Ann Jones:** Fine, yes.

[141] **Ann Jones:** Ydyw, iawn.

Mr Edwards: In terms of the day-to-day issues around this, Sue?

Mr Edwards: Yn nhermau'r materion dydd-i-ddydd ynghylch hyn, Sue?

Ms Hobbs: When I first looked at this report, I looked at figure 3.4 and thought, 'yes that actually reflects quite a lot of our own concerns'. In fact, if I can just go away from claims for a moment and look at complaints, one of the commonest causes of complaint is about communication and/or poor record keeping. It is amazing to me that in 2001 we still seem to keep five or six sets of records. Patients' records are patients' records. They are not doctors' records or nurses' records, or physios' records, they are patients' records. I think that there are two things about that. Culturally, we have to achieve that objective, but I think that technically we are probably going to have to

Ms Hobbs: Pan edrychais ar yr adroddiad hwn gyntaf, edrychais ar ffigur 3.4 a meddwl, 'ie, mae hynny'n adlewyrchu llawer o'n pryderon ni'n hunain'. Mewn gwirionedd, os caf fi symud oddi wrth hawliadau am funud ac edrych ar gwynion, un o'r achosion mwyaf cyffredin dros gwyno yw cyfathrebu a/neu gadw cofnodion gwael. Mae'n rhyfeddol i mi ein bod ni yn 2001 yn dal fel petaem yn cadw pump neu chwe set o gofnodion. Cofnodion cleifion yw cofnodion cleifion. Nid cofnodion meddygon ydynt na chofnodion nyrsys, na chofnodion ffisios, ond cofnodion cleifion. Yr wyf yn meddwl fod dau beth ynglyn â hynny. Yn ddiwylliannol, rhaid inni gyrraedd y nod

invest in that achievement of objective by working towards electronic patient records. hwnnw, ond yn dechnegol mae'n debyg y bydd yn rhaid inni fuddsoddi i gyflawni'r nod hwnnw drwy weithio tuag at gofnodion cleifion electronig.

I am sorry if that sounds a bit of a sales pitch, but I believe in it because I believe that it minimises the amount of time that fairly pressurised clinicians have to spend on duplicating effort when a patient goes on his or her journey through the healthcare system. When I—because I do an awful lot of this work on behalf of the trust—go back over records and try to link events, it is remarkably difficult. So I think that those figures are of concern, and I think that we could, as a health community, do something to address that. However, I think that it needs commitment and probably needs a lot of resource. I think, as has already been mentioned, that we have to make some cultural shifts. However, it can be done, because it does seem to me to be such an obvious thing to do. So I would only agree with what is stated in the report, really.

Mae'n ddrwg gennyf os yw hynny'n swnio'n debyg i froliant gwerthu, ond yr wyf yn credu ynddo am fy mod yn credu ei fod yn lleihau'r amser y mae'n rhaid i glinigwyr sydd eisoes dan gryn bwysau ei dreulio ar ddyblygu ymdrechion pan aiff claf ar ei daith neu ei thaith drwy'r system gofal iechyd. Pan af yn ôl drwy gofnodion—byddaf yn gwneud peth wmbredd o'r gwaith hwn ar ran yr ymddiriedolaeth—a cheisio cysylltu digwyddiadau, mae'n hynod o anodd. Felly yr wyf o'r farn fod y ffigurau hyn yn destun pryder, a chredaf y gallem, fel cymuned iechyd, wneud rhywbeth i ddatrys hynny. Fodd bynnag, credaf fod y gwaith yn galw am ymrwymiad, a llawer o adnoddau, mae'n debyg. Yr wyf yn meddwl, fel a grybwyllwyd eisoes, fod rhaid inni wneud ambell symudiad diwylliannol. Fodd bynnag, y mae modd ei wneud, oherwydd mae'n ymddangos i mi yn beth mor amlwg i'w wneud. Felly ni fyddwn ond yn cytuno â'r hyn a ddywedir yn yr adroddiad, a dweud y gwir.

[142] **Ann Jones:** Hilary, you said you had a little bit further to go than perhaps Mr Edwards's trust. Do you think there is more that you can do? What are the core reasons behind these non-clinical errors that you are going to address?

[142] **Ann Jones:** Hilary, dywedasoich fod gennyh chi ychydig yn fwy o ffordd i fynd nag ymddiriedolaeth Mr Edwards, efallai. A ydych chi'n meddwl bod yna fwy y gallwch ei wneud? Beth yw'r rhesymau craidd y tu ôl i'r camgymeriadau anghlinigol hyn yr ydych chi am fynd i'r afael â hwy?

Ms Peplar: I think that we need to constantly work with all staff. I think that there is often an emphasis on induction, new staff and staff in training. It is my experience that we need to work with staff who are often very experienced and here for a long time, and actually talk with them again and again about the importance of effective record keeping. I think that we have to talk with some of the older staff particularly, about communication and the need for taking time over communication and making that communication as effective as possible. I think that, at the moment, in training there is often time spent on some of these areas for new starters. However, I think that it is some of the staff that have been with us for a longer time with whom we need to spend time.

Ms Peplar: Yr wyf yn meddwl bod angen inni weithio'n gyson gyda'r holl staff. Credaf y ceir pwyslais yn aml ar gyflwyno staff, staff newydd a staff mewn hyfforddiant. Yn fy mhrofiad i, mae angen gweithio gyda staff sydd yn aml yn brofiadol iawn ac yma ers amser maith, a mynd ati i siarad â hwy dro ar ôl tro am bwysigrwydd cadw cofnodion yn effeithiol. Credaf fod yn rhaid inni siarad gyda rhai o'r staff hyn yn arbennig, ynghylch cyfathrebu a'r angen i gymryd amser dros gyfathrebu a sicrhau bod y cyfathrebu hwnnw mor effeithiol ag sydd yn bosibl. Credaf fod amser hyfforddi ar hyn o bryd yn cael ei dreulio'n aml ar rai o'r meysydd hyn i staff newydd. Fodd bynnag, yr wyf yn meddwl mai gyda rhai o'r staff sydd wedi bod gyda ni ers cyfnod hirach y mae angen inni dreulio amser.

I think that we need to make it easier, too, for people. What they are being asked to record is nowadays a lot more complex than maybe it was 10, 20, 15 years ago. I think that one of the important issues is that we are asking the health service to work across a number of different systems into primary care, back from primary care into the acute and into social care systems, and I think that that is why I would say that it is not just a sales pitch that Sue was making. It is vital that we have electronic connections that ensure we do not have the confusions and complications that have arisen and which underpin, I think, some of these statistics.

Credaf fod angen inni ei gwneud yn haws i bobl hefyd. Mae'r hyn y gofynnir iddynt ei gofnodi heddiw yn llawer mwy cymhleth nag ydoedd efallai 10, 20, 15 mlynedd yn ôl. Un peth pwysig yn fy marn i yw ein bod yn gofyn i'r gwasanaeth iechyd weithio ar draws nifer o wahanol systemau i mewn i ofal sylfaenol, yn ôl o ofal sylfaenol i'r aciwt ac i mewn i systemau gofal cymdeithasol, a dyna pam, mi dybiaf, y dywedwn innau nad dim ond broliant gwerthu a gawsom gan Sue. Mae'n hanfodol inni gael cysylltiadau electronig fydd yn sicrhau na chawn y dryswch a'r cymhlethdodau a gafwyd ac sydd yn sail, mi gredaf, i rai o'r ystadegau.

[143] **Ann Jones:** The Auditor General provides an example of the potential savings that would arise from reducing the instances of these non-clinical errors by a third. So, in your view, what is a reasonable level of reduction for you to aim for? If you are aiming for that level of reduction, when do you aim to achieve your reduction?

[143] **Ann Jones:** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi enghraifft o'r arbedion potensial a godai o dorri traean ar yr achosion hyn o gamgymeriadau anghlinigol. Felly, yn eich barn chi, beth sydd yn lefel resymol o leihad ichi anelu ati? Os ydych yn anelu at y lefel honno o leihad, pa bryd yr anelwch at sicrhau'r lleihad hwnnw?

Ms Peplar: It feels like quite a high level at

Ms Peplar: Mae'n teimlo fel lefel uchel

this moment. I am sure in the longer run we should be aiming towards that, and we will do, but I think that we have got a long way to go internally. It is about the culture that we have to change in terms of people seeing the real importance of record keeping and working together, across professions, on effective record keeping. I would look to a two to five year programme, which I know is a very long time, but it is realistic in terms of the demands placed upon clinicians at this moment, and it is something that I think also needs to be kept going. It is not a one-off. It is something that we need to keep working on.

braidd ar hyn o bryd. Yr wyf yn siwr y dylem fod yn anelu at hynny yn y tymor hwy, ac fe wnawn, ond yr wyf yn meddwl fod gennym ffordd bell i fynd yn fewnol. Mae a wnelo hyn â'r diwylliant y mae'n rhaid inni ei newid fel bod pobl yn gweld gwir bwysigrwydd cadw cofnodion a chydweithio, ar draws proffesiynau, ar gadw cofnodion effeithiol. Byddwn i'n edrych am raglen dwy i bum mlynedd, sydd yn amser maith, mi wn, ond sydd yn realistig yn nhermau'r galwadau a wneir ar glinigwyr ar hyn o bryd, ac mae'n rhywbeth y credaf hefyd y mae'n rhaid dal ati gydag ef. Nid rhywbeth unwaith ac am byth ydyw. Mae'n rhywbeth y mae angen inni barhau i weithio arno.

[144] **Ann Jones:** Okay. Do you think you have the systems in place to track how you are doing in reducing these errors, or have you just made a start?

[144] **Ann Jones:** Iawn. Ydych chi'n meddwl fod y systemau yn eu lle gennych i olrhain sut yr ydych yn llwyddo i leihau'r camgymeriadau hyn, ynteu ai dim ond newydd ddechrau yr ydych chi?

Ms Peplar: Yes, I think that we are getting there. I am more confident.

Ms Peplar: Ydwyf, yr wyf yn meddwl ein bod ar y trywydd. Yr wyf yn fwy hyderus.

[145] **Ann Jones:** Would you like to try to tell us some of the systems that you have put in place to reduce these errors?

[145] **Ann Jones:** Hoffech chi geisio dweud wrthym beth yw rhai o'r systemau yr ydych wedi'u sefydlu i leihau'r camgymeriadau hyn?

Ms Peplar: I think that as we examine the complaints and the claims and look at them in some detail, we are becoming clearer and are more able to analyse those and break them down and then return to where they started, but also to return through the whole system. We can then adapt our training in accordance with that so that we reflect what we have learnt from the analysis.

Ms Peplar: Yr wyf yn meddwl wrth inni archwilio'r cwynion a'r hawliadau ac edrych arnynt mewn cryn fanylder, ein bod yn cael darlun cliriach a'n bod yn fwy abl i ddadansoddi'r rhain a'u dadelfennu ac yna i fynd yn ôl i'w man cychwyn, ond hefyd i fynd yn ôl drwy'r system gyfan. Wedyn gallwn addasu'n hyfforddiant yn unol â hynny fel ein bod yn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r dadansoddiad.

[146] **Ann Jones:** Mr Edwards, would you like to answer?

[146] **Ann Jones:** Mr Edwards, a hoffech chi ateb?

Mr Edwards: Yes. I did not want to come across as complacent in terms of the stage that we have reached, but I think that we have put quite a few things in place. There is a potential reduction. I would not want to put a figure on it. I have already indicated a small figure of £40,000, which will come out of the reconfiguration savings, and we are

Mr Edwards: Hoffwn. Nid oeddwn eisiau ymddangos yn hunan-fodlon yn nhermau'r cam yr ydym wedi'i gyrraedd, ond credaf ein bod wedi rhoi tipyn go lew o bethau yn eu lle. Mae yna leihad posibl. Ni hoffwn osod ffigur arno. Yr wyf eisoes wedi crybwyll swm bach o £40,000, a ddaw allan o'r arbedion ar ailgyflunio, ac yr ydym yn

happy to sign up to that. I think that we need to go in the same direction as Hilary. There is always more that we can do, and I think that the way of monitoring that, as far as the Committee is concerned, is through the new performance management arrangements of the service that will be implemented as a result of the implementation of the new plan for Wales later this year.

[147] **Kirsty Williams:** This is on the issue of electronic patient records. Forgive me, Chair, because it is an area that interests me. With regard to your enthusiasm for electronic patient records, would you also admit that for some professionals there are issues about who has access to that information, especially if we are making that information available through from primary care into secondary, tertiary and into social care sectors? There is some nervousness about who may or may not see those patient records. You talked about one system for Wales in terms of recording data with regard to incidents. Would you not agree that we need to be looking to minimise the number of systems capturing patient data in Wales and that we should not be going down the path of having trusts or configurations of trusts hapus i lofnodi i hynny. Credaf fod angen inni fynd i'r un cyfeiriad â Hilary. Y mae rhagor y gallwn ei wneud bob amser, a chredaf mai'r ffordd i fonitro hynny, o safbwynt y Pwyllgor, yw drwy drefniadau rheoli perfformiad newydd y gwasanaeth, a weithredir yn sgîl gweithredu'r cynllun newydd i Gymru'n ddiweddarach eleni.

[147] **Kirsty Williams:** Ar fater cofnodion electronig i gleifion. Maddeuwch imi, Gadeirydd, oherwydd mae'n faes sydd o ddiddordeb imi. Parthed eich brwdfrydedd dros gofnodion cleifion electronig, a fydddech yn cyfaddef hefyd fod rhai gweithwyr proffesiynol yn pryderu ynghylch pwy gâi fynediad at y wybodaeth honno, yn enwedig os ydym yn darparu'r wybodaeth honno drwodd o ofal sylfaenol i mewn i'r sectorau gofal eilaidd, trydyddol a gofal cymdeithasol? Mae rhywfaint o nerfusrwydd ynghylch pwy gaiff a phwy na chaiff weld y cofnodion cleifion hynny. Soniasoch am un system i Gymru yn nhermau cofnodi data ynglyn â digwyddiadau. Oni chytunech fod angen inni edrych tuag at leihau nifer y systemau sydd yn dal data cleifion yng Nghymru ac na ddylem fod yn mynd i lawr y

developing certain systems that do not talk to systems in the south, mid Wales or, even to systems in England, given the nature of care in Wales, with people having to travel into different trusts?

llwybr o gael ymddiriedolaethau neu gyfuniadau o ymddiriedolaethau'n datblygu systemau arbennig na allant siarad â systemau yn y de, y canolbarth, neu hyd yn oed â systemau yn Lloegr, o gofio natur gofal yng Nghymru, lle mae pobl yn gorfod teithio i wahanol ymddiriedolaethau?

Mr Edwards: In terms of the second point, I absolutely agree with that. That is why I made the plea earlier for a single system, not only across Wales, but also integrating claims, incidents and complaints. In relation to your first point, we are a while away from the electronic patient record. There are some confidentiality issues around it both for professionals and for patients. We will need to resolve those. In the information strategy for Wales I think that it is something like five or six years' away and will require more than the investment that we have in the plans so far. Sorry about that.

Mr Edwards: Ar yr ail bwynt, cytunaf yn llwyr â hynny. Dyna pam y gwneuthum y ple yn gynharach am un system unigol, nid yn unig ar draws Cymru, ond hefyd i integreiddio hawliadau, digwyddiadau a chwynion. Parthed eich pwynt cyntaf, yr ydym beth ffordd i ffwrdd oddi wrth y cofnod cleifion electronig. Mae rhai cwestiynau cyfrinachedd yn ei gylch i weithwyr proffesiynol ac i gleifion. Bydd angen datrys y rheini. Yn y strategaeth wybodaeth i Gymru, credaf ei fod rywbeth fel pump neu chwe blynedd i ffwrdd, ac y bydd yn galw am fwy na'r buddsoddiad sydd gennym yn y cynlluniau hyd yma. Mae'n ddrwg gennyf am hynny.

[148] **Janet Davies:** Lynne Neagle would like to ask you some questions about who manages the claims.

[148] **Janet Davies:** Hoffai Lynne Neagle ofyn rhai cwestiynau ichi ynghylch pwy sydd yn rheoli'r hawliadau.

[149] **Lynne Neagle:** My first question is to Ms Peplar. I understand that it was at your trust that the National Audit Office encountered the problems concerning the reporting lines for claims management referred to in paragraph 3.39 of the report. Will you tell us if these problems have been resolved, and, if so, with what outcome?

Ms Peplar: When the trust was created it went through a particularly difficult year or so. The appointment of the chief executive of the trust in 1999 was late. The person who took up post then became ill some nine months after he took up the post and there was a peculiar period while things were being sorted out in terms of an acting person being put in charge, which was at the point of the visit. My appointment followed and I took up my post in July of last year. Since then, we have started to bring all the systems together so that we are connecting properly. I think that it was just a blip, an unfortunate blip, relating both to when the trust was set up and what happened in the nine-month period following that set-up. I do not think

[149] **Lynne Neagle:** I Ms Peplar y mae fy nghwestiwn cyntaf. Deallaf mai yn eich ymddiriedolaeth chi y canfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol y problemau gyda'r llinellau adrodd ar gyfer rheoli hawliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.39 yr adroddiad. A ddywedwch wrthym a yw'r problemau hyn wedi'u datrys, ac, os ydynt, beth oedd y canlyniad?

Ms Peplar: Pan grëwyd yr ymddiriedolaeth fe aeth drwy ryw flwyddyn arbennig o anodd. Yr oedd penodiad prif weithredwr yr ymddiriedolaeth yn 1999 yn hwyr. Wedyn aeth y sawl a gafodd y swydd yn sâl ryw naw mis wedi iddo gymryd y swydd a chafwyd cyfnod rhyfedd tra'r oedd pethau'n cael eu rhoi i drefn yn nhermau rhoi person dros-dro wrth y llyw, a dyna pryd y bu'r ymweliad. Wedyn fe'm penodwyd i a deuthum i'm swydd ym mis Gorffennaf y llynedd. Ers hynny, yr ydym wedi dechrau dod â'r holl systemau ynghyd fel ein bod yn cysylltu'n iawn. Dim ond baglu a wnaethom, gredaf fi, baglad anffodus, yn ymwneud â'r adeg pryd y sefydlwyd yr ymddiriedolaeth a'r hyn a ddigwyddodd yn y cyfnod naw mis

that it was anything deeper or more problematic than that. The systems are now connected up well. We are very clear about the lines of accountability. In terms of risk management and clinical governance, we have non-executives who are chairs of those groups who report directly to the board for those groups. It is very clear who does what.

wedi'r sefydlu hwnnw. Ni chredaf ei fod yn ddim dyfnach na mwy problemus na hynny. Mae'r systemau bellach wedi'u cysylltu'n dda. Yr ydym yn glir iawn ynghylch llinellau atebolrwydd. Yn nhermau rheoli risg a llywodraethu clinigol, mae gennym bobl anweithredol sydd yn cadeirio'r grwpiau hynny sydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r bwrdd ar ran y grwpiau hynny. Mae'n glir iawn pwy sydd yn gwneud beth.

[150] **Lynne Neagle:** Thank you. Mr Edwards, how is the management of claims structured in your trust?

[150] **Lynne Neagle:** Diolch. Mr Edwards, beth yw'r strwythur rheoli hawliadau yn eich ymddiriedolaeth chi?

Mr Edwards: In the paper with which we provided you, the two appendices at the back show the inter-relationship between risk claims and clinical governance. I think that that is clear and I would ask Sue to put a bit more flesh on those particular bones if that is okay with you.

Mr Edwards: Yn y papur a ddarparwyd gennym ichi, mae'r ddau atodiad yn y cefn yn dangos y gydberthynas rhwng hawliadau risg a llywodraethu clinigol. Yr wyf yn meddwl fod hynny'n glir a hoffwn ofyn i Sue roi ychydig mwy o gig ar yr esgyrn arbennig hynny os yw hynny'n iawn gennych chi.

Ms Hobbs: The claims manager—we have a claims manager and an assistant claims manager now—reports to me directly. He is actually part of our clinical governance team.

Ms Hobbs: Bydd y rheolwr hawliadau—mae gennym reolwr hawliadau a rheolwr hawliadau cynorthwyol erbyn hyn—yn adrodd i mi'n uniongyrchol. Yn wir, mae'n

As you can see from the supplementary information, what I was working on and managed to implement within the last year, was actually bringing together a group of very experienced and senior managers with a lot of expertise, who always, if you like, had a clinical governance function—although maybe it had not been called that before—into a common area both physically and professionally, so that they could share and develop together. So that is the way that it works. It is very much a part of our governance arrangements.

rhan o'n tîm llywodraethu clinigol. Fel y gwelwch o'r wybodaeth ategol, yr hyn y bûm i'n gweithio arno, ac y llwyddais i'w weithredu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, oedd dod ynghyd â grwp o reolwyr uwch a phrofiadol iawn gyda llawer o arbenigedd, a oedd wastad, os hoffwch chi, wedi cael swyddogaeth llywodraethu clinigol—er efallai na chawsai ei alw'n hynny o'r blaen—a dod â hwy i le cyffredin yn gorfforol ac yn broffesiynol, fel y gallent rannu a datblygu gyda'i gilydd. Felly dyna sut y mae'n gweithio. Mae'n rhan bwysig iawn o'n trefniadau llywodraethu.

It is quite a big caseload, which is why we have actually now expanded that and given those people more support than they had before. I think that there are, and I would agree entirely, that there are some training needs that need to be met. I think that within Wales we need to perhaps look at how we can best maximise training and opportunities for those people. There is no doubt that they are going to need it in the future. I think that that is also something that has come out of the introduction of the Woolf reforms, and certainly, for example, my assistant claims manager will be starting an LL.M. degree in

Mae'n faich achosion gweddol fawr, a dyna pam yr ydym bellach wedi ehangu hynny a rhoi mwy o gefnogaeth i'r bobl hynny nag a gawsant o'r blaen. Credaf fod, a chytunaf yn llwyr, fod rhai anghenion hyfforddi y mae angen eu hateb. Yr wyf yn meddwl bod angen i ni yng Nghymru edrych efallai ar sut y gallwn sicrhau'r hyfforddiant a'r cyfleoedd gorau i'r bobl hynny. Nid oes amheuaeth y bydd arnynt ei angen yn y dyfodol. Credaf fod hynny hefyd yn rhywbeth a ddaeth allan o gyflwyno diwygiadau Woolf, ac yn sicr, er enghraifft, bydd fy rheolwr hawliadau cynorthwyol yn cychwyn gradd LL.M. ym

October this year. I think that these things are going to become almost prerequisite in the future.

mis Hydref eleni. Yr wyf yn meddwl bod y pethau hyn yn mynd i fod bron yn anhepgor yn y dyfodol.

[151] **Lynne Neagle:** Thank you. My next question relates to training anyway, and is to both trusts. Can you tell us what you have done to ensure that the relevant staff have had the training necessary to fulfil their demanding roles?

[151] **Lynne Neagle:** Diolch. Mae a wnelo fy nghwestiwn nesaf â hyfforddiant beth bynnag, ac mae'n gwestiwn i'r ddwy ymddiriedolaeth. A allwch chi ddweud wrthym beth yr ydych wedi'i wneud i sicrhau bod y staff perthnasol wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni'u rolau anodd?

Ms Peplar: Julie is fully trained and has been on the appropriate training that is available. We have had a problem with our claims manager in identifying appropriate training for her. She is actually this year engaged on the Royal College course, but the emphasis in that is far more on risk management and there are only really a couple of modules that actually deal with claims management.

Ms Peplar: Mae Julie wedi'i hyfforddi'n llawn ac wedi derbyn yr hyfforddiant priodol sydd ar gael. Cawsom broblem canfod hyfforddiant priodol i'n rheolwraig hawliadau. Mae hi ar gwrs y Coleg Brenhinol eleni, mewn gwirionedd, ond mae'r pwyslais yn hwnnw yn llawer mwy ar reoli risg, a dim ond un neu ddau o'r modiwlau mewn gwirionedd sydd yn ymdrin â rheoli hawliadau.

The most useful training that she has been able to acquire—other than going on to some kind of legal qualification, and I would

Yr hyfforddiant mwyaf defnyddiol y mae hi wedi gallu ei gael—ar wahân i fynd ymlaen at ryw fath o gymhwyster cyfreithiol, ac yr

concur that that is the way forward—has been that that has been offered via firms of solicitors. Often for us in North East Wales NHS Trust that means actually going across the border into England. There is a difficulty about different systems there on one or two things, but in terms of the basic principles, that has been the most helpful training that we have been able to get hold of.

wyf yn cyd-fynd mai dyna'r ffordd ymlaen—yw hwnnw a gynigiwyd drwy gwmmniau cyfreithwyr. Yn aml i ni yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru bydd hynny'n golygu mynd dros y ffin i Loegr. Ceir anhawster ynghylch systemau gwahanol yno ar un neu ddau o bethau, ond yn nhermau'r egwyddorion sylfaenol, dyna oedd yr hyfforddiant mwyaf buddiol y gallem gael gafael arno.

She is, as I say, engaged on the Royal College course, but it is not particularly relevant to claims management, and we do need a course that is both relevant and accredited. There is nothing available at the moment.

Y mae hi, fel y dywedais, yn dilyn cwrs y Coleg Brenhinol, ond nid yw'n arbennig o berthnasol i reoli hawliadau, ac mae angen cwrs sydd yn berthnasol ac wedi'i achredu. Nid oes dim byd ar gael ar hyn o bryd.

Mr Edwards: The only thing that I would like to add is that, Cardiff and Vale NHS Trust being a relatively new trust, we are trying to grow a new culture, arising really from five previous cultures and that is going to take a while. It does not happen in five minutes.

Mr Edwards: Yr unig beth yr hoffwn i ei ychwanegu yw bod Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, fel ymddiriedolaeth gymharol newydd, yn ceisio tyfu diwylliant newydd, sydd yn codi yn y bôn o bum diwylliant blaenorol, ac mae hynny'n mynd i gymryd amser. Nid yw'n digwydd mewn pum munud.

We have an organisational development programme, which has been running for over a year now. It will continue to run, I think, for—I do not know—certainly the next five years. It is within that context that I think that I need to answer the question because if we are looking to try to reduce incidents, then we have to have a proper development programme to meet the needs of the organisation.

In terms of the claims department, the claims manager is Institute of Healthcare Management qualified, with 20 years' experience of claims. He is very confident.

The assistant, as Sue has already said, is embarking on the Masters in Law in October. We are encouraging people to get professional qualifications and the necessary skills training that they need to do the job.

[152] **Lynne Neagle:** Thank you. I understand that in both your trusts, the

Mae gennym raglen ddatblygu corfforaethol, sydd yn rhedeg ers dros flwyddyn bellach. Bydd yn parhau i redeg, mi gredaf, am—wn i ddim—yn sicr y pum mlynedd nesaf. O fewn y cyd-destun hwnnw y mae angen imi ateb y cwestiwn, yr wyf yn meddwl, oherwydd os ydym am geisio lleihau nifer y digwyddiadau, yna rhaid inni gael rhaglen ddatblygu iawn i ateb anghenion y sefydliad.

O ran yr adran hawliadau, mae gan y rheolwr hawliadau gymhwyster gyda'r Sefydliad Rheoli Gofal Iechyd, gydag 20 mlynedd o brofiad gyda hawliadau. Mae'n hyderus iawn.

Mae'r rheolwr cynorthwyol, fel y dywedodd Sue yn barod, yn ymgymryd â chwrs gradd Meistr yn y Gyfraith ym mis Hydref. Anogwn bobl i gael cymwysterau proffesiynol a hyfforddiant yn y sgiliau angenrheidiol y mae eu hangen arnynt i wneud y gwaith.

[152] **Lynne Neagle:** Diolch. Deallaf fod nifer yr hawliadau newydd, yn eich dwy

number of new claims exceeded those that you resolved during that particular year. Can you tell us what practical steps you have taken to deal with that backlog?

ymddiriedolaeth, yn uwch na'r nifer a ddatryswyd gennych yn ystod y flwyddyn arbennig honno. A allwch chi ddweud wrthym pa gamau ymarferol yr ydych wedi'u cymryd i ddelio â'r llwyth hwnnw sydd wedi cronni?

Ms Peplar: It is quite a difficult one, this one, in terms of what we actually focus upon, and spend our time upon. Some choices have been made, I think, to try to look at those that were already outstanding rather than address the new ones. Sometimes, you can speed up the new ones, and we have looked at whether or not the introduction of mediation, or whatever, would help. However, there has been a reluctance, particularly from claimants, to actually engage in that form of approach. We have found it very difficult to speed things up through those kinds of approaches.

Ms Peplar: Mae hwn yn fater eithaf anodd, yn nhermau beth y canolbwyntiwn arno mewn gwirionedd, a threulio'n hamser arno. Mae rhai dewisiadau wedi'u gwneud, mi gredaf, i geisio delio â'r rheini a oedd yn aros yn barod yn hytrach na delio â'r rhai newydd. Weithiau, gallwch gyflymu'r rhai newydd, ac yr ydym wedi ystyried a fyddai cyflwyno cyfryngu, neu beth bynnag, yn helpu. Fodd bynnag, ceid amharodrwydd, yn enwedig gan hawlwyr, i ymgymryd â'r modd hwnnw o fynd ati. Yr ydym wedi'i chael yn anodd iawn cyflymu pethau drwy'r mathau hynny o ddulliau.

[153] **Lynne Neagle:** Right. Mr Edwards?

[153] **Lynne Neagle:** Iawn. Mr Edwards?

Mr Edwards: Just a comment on mediation. It does not seem to have been grasped with enthusiasm, and there are people who feel

Mr Edwards: Dim ond sylw ar gyfryngu. Nid yw'n ymddangos iddo gydio ac ennyn brwdfrydedd, a cheir pobl sydd yn teimlo

that it is perhaps an expensive solution. However, I think that it is probably worth pursuing that, and structured settlements, in terms of claims. For us, I think that the claims review panel and the way in which we look to try to settle before it gets anywhere near court is actually helping us to keep the time down. In terms of the numbers, I was talking to the claims manager yesterday, Sue, and he seems to feel that the numbers of claims are actually levelling out, as we tend to get a smaller number of firms helping genuine claimants. He thinks that that trend might well continue. Although the costs will go up, the numbers of claims will not increase, and certainly not at the same rate.

mai ateb drud ydyw efallai. Fodd bynnag, yr wyf yn meddwl ei bod yn werth mynd ar ôl hynny, a setliadau strwythuredig, mae'n debyg, yn nhermau hawliadau. I ni, yr wyf yn meddwl bod y panel adolygu hawliadau a'r ffordd y ceisiwn setlo cyn mynd ar gyfyl llys yn ein helpu i gadw'r amser i lawr. O ran y niferoedd, yr oeddwn yn siarad â'r rheolwr hawliadau ddoe, Sue, ac mae ef fel pe bai'n teimlo bod niferoedd yr hawliadau'n dechrau lefelu, gan ein bod yn tueddu i gael nifer lai o gwmnïau'n cynorthwyo hawlwyd didwyll. Mae'n meddwl y gallai'r duedd honno yn hawdd barhau. Er yr aiff y costau i fyny, ni fydd cynnydd yn nifer yr hawliadau, ac yn sicr nid ar yr un raddfa.

[154] **Lynne Neagle:** I have one final question. At a previous session on clinical negligence, the point was made that some of the backlog might be caused by the failure of trusts to be proactive in clearing out old claims, that is, closing old claims that they know are not going to proceed. Is that something that you have been doing?

[154] **Lynne Neagle:** Mae gennyf un cwestiwn terfynol. Mewn sesiwn flaenorol ar esgeulustod clinigol, gwnaethpwyd y pwynt y gallai rhywfaint o'r llwyth gwaith oedd wedi cronni fod wedi'i achosi gan fethiant ymddiriedolaethau i fod yn rhagweithiol wrth glirio hen hawliadau allan, hynny yw, cau hen hawliadau y gwyddant nad ydynt yn mynd rhagddynt. A yw hynny'n rhywbeth yr ydych chi wedi bod yn ei wneud?

Ms Peplar: We have certainly looked at this, and there are a couple perhaps, but there are not that many in the pipeline that we could deal with in that way. However, after receiving this report we did look at that, and the non-executive who leads on complaints is reviewing each claim individually for us. However, at the moment, it feels as though there are only a couple that we can do in that way.

Ms Peplar: Yr ydym yn sicr wedi edrych ar hyn, ac efallai fod un neu ddau, ond nid oes cymaint â hynny ar y gweill y gellid delio â hwy fel yna. Fodd bynnag, ar ôl derbyn yr adroddiad hwn fe fu inni edrych ar hynny, ac mae'r person anweithredol sydd yn arwain ar gwynion yn adolygu pob hawliad yn unigol inni. Fodd bynnag, ar y funud, y mae'n debyg mai dim ond un neu ddau y gallwn ymwneud â hwy fel yna.

Mr Edwards: I think for us, as I said in reply to Mr Wigley, we still have some old claims, but not many. Looking at my claims record now, they are claims from 1999 and 2000. There are one or two that go back quite a long way. I think that we could perhaps do a little bit more to clear those remaining claims, but they are very few in terms of the total numbers that we have.

Mr Edwards: Yr wyf yn meddwl o'n rhan ni, fel y dywedais mewn ateb i Mr Wigley, fod gennym rai hen hawliadau o hyd, ond nid llawer. O edrych ar fy nghofnod hawliadau yn awr, hawliadau ydynt o 1999 a 2000. Y mae un neu ddau sydd yn mynd yn ôl gryn amser. Credaf efallai y gallem wneud ychydig bach mwy i glirio'r hawliadau hynny sydd yn aros, ond ychydig iawn ydynt yn nhermau'r cyfansymiau sydd gennym.

[155] **Alun Cairns:** I would like Mr Edwards to clarify one of the answers that he gave to Lynne Neagle. He mentioned that, having chatted with your claims manager, the numbers of claims, rather than their value, had reduced. He said that that

[155] **Alun Cairns:** Hoffwn i Mr Edwards egluro un o'r atebion a roddodd i Lynne Neagle. Yn dilyn sgwrs gyda'ch rheolwr hawliadau soniodd fod niferoedd yr hawliadau, yn hytrach na'u gwerth, wedi gostwng. Dywedodd fod hynny'n digwydd

was happening because fewer claims were being made because—this was the implication—claimants were finding it more difficult to get legal advice. Are you saying that the changes in the law, which have withdrawn legal aid for civil cases, are putting you in a stronger position?

am fod llai o hawliadau'n cael eu gwneud oherwydd—dyma oedd yr ymhlygiad—fod hawlwr yn ei chael yn anos cael cyngor cyfreithiol. A ydych chi'n dweud bod y newidiadau yn y gyfraith, sydd wedi dileu cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion sifil, yn eich rhoi chi mewn sefyllfa gryfach?

Mr Edwards: I hope that I was not implying that.

Mr Edwards: Gobeithio nad oeddwn yn awgrymu hynny.

[156] **Alun Cairns:** I just wanted clarification.

[156] **Alun Cairns:** Dim ond eisiau eglurhad yr oeddwn.

Mr Edwards: The legal aid franchise scheme provides claimants with more professional help. That is really the point. So I think that they are able to get better help than previously, when you had firms of solicitors that perhaps were not quite experienced in the field of medical negligence. That—how can I put it—would waste quite a lot of time inappropriately, not for the claimant, but for everyone else. I think that it can now be much more focused.

Mr Edwards: Mae'r cynllun masnachfaint cymorth cyfreithiol yn darparu mwy o gymorth proffesiynol i hawlwr. Dyna'r pwynt, mewn gwirionedd. Felly yr wyf yn meddwl eu bod yn gallu cael gwell cymorth nag o'r blaen, pan oedd gennych gwmnïau o gyfreithwyr nad oedd efallai lawn mor brofiadol ym maes esgeulustod meddygol. Byddai hynny—sut y gallaf eirio'r peth—yn gwastraffu cryn dipyn o amser yn amhriodol, nid i'r hawliwr, ond i bawb arall. Yr wyf yn meddwl y gall fod â llawer mwy o ffocws erbyn hyn.

[157] **Janet Davies:** I also seek some clarification, Ms Peplar. When you spoke about making choices about dealing with older cases or the newer cases, is there any danger of you falling foul of some of the Woolf reforms, in the matter of time, with the new cases?

[157] **Janet Davies:** Hoffwn innau gael eglurhad, Ms Peplar. Pan soniasoch am wneud dewisiadau ynghylch delio ag achosion hyn neu'r achosion mwy newydd, a oes unrhyw berygl ichi dramgwyddo rhai o ddiwygiadau Woolf, ar fater amser, gyda'r achosion newydd?

Ms Peplar: I do not think so. We are fortunate in that the non-executive who takes a lead on this is a solicitor, so the advice that we are getting, I think, is fairly up-to-date and straightforward on that, which is why we have that person to do that.

Ms Peplar: Nid wyf yn meddwl. Yr ydym yn ffodus mai cyfreithiwr yw'r person anweithredol sydd yn arwain ar hyn, felly mae'r cyngor a gawn, mi gredaf, yn weddol ddiweddar a syml ar hynny, a dyna pam y cawn y person hwnnw i wneud hynny.

[158] **Janet Davies:** Janice Gregory wants to ask some questions on legal services.

[158] **Janet Davies:** Mae ar Janet Gregory eisiau gofyn nifer o gwestiynau am wasanaethau cyfreithiol.

[159] **Janice Gregory:** I declare a small interest, as my daughter is a trainee nurse in the Cardiff and Vale NHS Trust. I wanted to put that on record as I have a specific question for Mr Edwards.

[159] **Janet Gregory:** Datganaf fuddiant bychan, gan fod fy merch yn nyrs dan hyfforddiant yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. Yr oedd arnaf eisiau cofnodi hynny gan fod gennyf gwestiwn penodol i Mr Edwards.

I direct this question at Mr Edwards, although it is for both trusts. The Auditor General for Wales reports that most trusts rely heavily on the work of Welsh Health Legal Services, the services of which they do not pay for. Indeed, looking at our brief, I see that trusts are now required to use those services in order to maintain membership of the Welsh Risk Pool. Are you content with the current arrangements for the provision of legal advice on clinical negligence or would you prefer to have a degree of choice on this matter? Ms Hobbs mentioned that she has an assistant who is taking a Masters degree. So I am thinking of in-house legal advice.

Cyfeiriaf y cwestiwn hwn at Mr Edwards, er mai cwestiwn i'r ddwy ymddiriedolaeth ydyw. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n adrodd fod y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau yn dibynnu'n drwm ar waith Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru, gwasanaethau a dderbyniant yn ddi-dâl. Yn wir, wrth edrych ar ein brîff, gwelaf ei bod bellach yn ofynnol ar i ymddiriedolaethau ddefnyddio'r gwasanaethau hynny er mwyn cadw'u haelodaeth o Gronfa Risg Cymru. A ydych yn fodlon gyda'r trefniadau cyfredol ar gyfer darparu cyngor cyfreithiol ar esgeulustod clinigol ynteu a fyddai'n well gennych gael rhyw radd o ddewis ar y mater hwn? Soniodd Ms Hobbs fod ganddi gynorthwy-ydd sydd yn astudio am radd Meistr. Meddwl yr wyf am gyngor cyfreithiol oddi mewn i'r sefydliad felly.

Mr Edwards: May I make a general reply to that? Having settled very happily in Wales over the last 18 months—but therefore having, more recently, experience of the English system—the sense that I have is that we are getting very good value for money

Mr Edwards: A gaf i roi ateb cyffredinol i hynny? A minnau wedi ymgartrefu'n hapus iawn yng Nghymru dros y 18 mis diwethaf—ond a chennyf, felly, yn fwy diweddar, brofiad o'r system yn Lloegr—y teimlad a gaf fi yw ein bod yn cael gwerth da iawn am

out of Welsh Health Legal Services and the pooling arrangements. Do not ask me for the evidence of that. However, I did actually put the same question to my colleagues, who have also had experience of the clinical negligence scheme for trusts in England. There are some good aspects of that, which we might want to touch on; the area of incentivisation in particular is something that we might want to discuss. However, I think that we actually get remarkably good value for money from that system. I am not complacent, but very content with the quality of the service that we get. I think that Wales has done well with that system, and it is to be congratulated.

[160] **Janice Gregory:** Before I move on to Ms Peplar then, may I ask you whether you would be looking at in-house legal advice?

Mr Edwards: No, I would not. I think that it is a very specialist area. If you look at what is happening in the market place, you see fewer, larger, more specialised firms coming together to deal with this work, and I

ein harian gan Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru a'r trefniadau cronfa. Peidiwch â gofyn imi am y dystiolaeth o blaid hynny. Fodd bynnag, fe ofynnais yr un cwestiwn i'm cydweithwyr, hwythau hefyd wedi cael profiad o'r cynllun esgeulustod clinigol i ymddiriedolaethau yn Lloegr. Mae rhai agweddau da i hwnnw, yr hoffem efallai gyffwrdd amynt; mae maes cymhelliant yn enwedig yn rhywbeth yr hoffem ei drafod efallai. Fodd bynnag, yr wyf yn meddwl ein bod yn cael gwerth hynod o dda am ein harian o'r system honno. Nid wyf yn hunanfodhaus, ond yn fodlon iawn ar ansawdd y gwasanaeth a gawn. Credaf fod Cymru wedi gwneud yn dda gyda'r system honno, a dylid ei llongyfarch.

[160] **Janet Gregory:** Cyn imi symud ymlaen at Ms Peplar felly, a gaf fi ofyn i chi a fydddech chi'n edrych ar gyngor cyfreithiol oddi mewn?

Mr Edwards: Na, fyddwn i ddim. Yr wyf yn meddwl ei fod yn faes arbenigol iawn. Os edrychwch ar yr hyn sydd yn digwydd yn y farchnad, gwelwch lai o gwmnïau mwy o faint, mwy arbenigol, yn dod ynghyd i ddelio

think that having an in-house service would mitigate against that.

â'r gwaith hwn, ac yr wyf yn meddwl y byddai cael gwasanaeth oddi mewn yn milwrio yn erbyn hynny.

[161] **Janice Gregory:** Excuse me if I am being a little obtuse, but then why are you encouraging staff to take degrees in law? I do not think that it is a bad idea; I am just asking why that is the case. If you are not looking for any in-house legal advice or services, why are you doing that?

[161] **Janet Gregory:** Esgusodwch fi os wyf yn bod ychydig yn dwp, ond pam felly yr ydych chi'n annog staff i wneud graddau yn y gyfraith? Nid wyf yn meddwl ei fod yn syniad drwg; dim ond yn gofyn pam. Os nad ydych yn edrych am unrhyw gyngor na gwasanaethau cyfreithiol mewnol, pam yr ydych yn gwneud hynny?

Mr Edwards: I think that there are different aspects of this.

Mr Edwards: Yr wyf yn meddwl fod gwahanol agweddau ar hyn.

Ms Hobbs: I am more than happy to pick that up. In terms of personal development, it is an area that this particular member of staff would like to develop.

Ms Hobbs: Yr wyf yn fwy na hapus i ateb y pwynt hwn. Yn nhermau datblygiad personol, mae'n faes y byddai'r aelod staff arbennig hwn yn hoffi ei ddatblygu.

[162] **Janice Gregory:** That is wonderful.

[162] **Janet Gregory:** Mae hynny'n fendigedig.

Ms Hobbs: That is brilliant. However, I

Ms Hobbs: Mae hynny'n wych. Fodd

would also say that within the work of the legal team, they do not just deal with negligence claims. I would agree with everything that David has said. Welsh Health Legal Services is superb, and I find it very supportive, of high quality, very professional, and in the clinical claims review committee it is an excellent partner. I think that having some expertise in-house helps in two ways. First, I think that it can help us look very critically—in terms of early assessment—at when, perhaps, a vexatious complainant might need to be managed, or perhaps other members of staff or the whole claims or complaints or incident area. We feel that having somebody in-house who has a legal degree or legal background, would be an asset to the team. We have used people, on a consultancy basis, who are perhaps either medically and/or legally qualified to give us some independent advice. In the light of that fact, and in the absence of an accredited training scheme that offers people good legal expertise, for an individual to actually pursue that is good news, and I would certainly support that.

bynnag, dylwn ddweud hefyd nad delio â hawliadau esgeulustod yn unig a wneir o fewn gwaith y tîm cyfreithiol. Cytunaf hefyd â phopeth a ddywedodd David. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru yn benigamp, ac yr wyf yn eu cael yn gefnogol iawn, o ansawdd uchel, yn broffesiynol iawn, ac yn bartner ardderchog yn y pwyllgor adolygu hawliadau clinigol. Credaf fod cael rhywfaint o arbenigedd yn fewnol yn y sefydliad yn helpu mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, yr wyf yn meddwl y gall ein helpu ni i edrych yn feirniadol iawn—yn nhermau asesiad cynnar—ar ba bryd y gallai fod angen rheoli achwynwr blinderus, efallai, neu efallai aelodau staff eraill neu'r holl faes hawliadau neu gwynion neu ddigwyddiadau. Teimlwn fod cael rhywun yn fewnol sydd â gradd yn y gyfraith neu gefndir cyfreithiol yn gaffaeliad i'r tîm. Yr ydym wedi defnyddio pobl, ar sail ymgynghoriaeth, sydd efallai'n gymwys yn feddygol a/neu'n gyfreithiol i roi cyngor annibynnol inni. Yn wyneb y ffaith honno, ac yn absenoldeb cynllun hyfforddi achrededig sydd yn cynnig arbenigedd cyfreithiol da i bobl, mae i unigolyn fynd amdani yn newyddion da, ac yn rhywbeth y byddwn i yn sicr yn ei gefnogi.

[163] **Janice Gregory:** So it is an 'additional' rather than an 'instead of'.
[163] **Janet Gregory:** Felly 'ychwanegol' ydyw yn hytrach nag 'yn lle'.

Ms Hobbs: Absolutely.

Ms Hobbs: Yn hollol.

[164] **Janice Gregory:** Ms Peplar, do you want me to repeat the question? It was rather long winded.
[164] **Janet Gregory:** Ms Peplar, a hoffech imi ailadrodd y cwestiwn? Yr oedd braidd yn hirwyntog.

Ms Peplar: No, that is fine. I would support exactly what has been said about Welsh Health Legal Services. Having not long come across the border, I am very clear about the value for money that is there and the appropriateness of support. The advice given is very sound. There are real issues about size. We were talking about Cardiff and Vale NHS Trust, which is a large trust, whereas mine is a medium-sized trust in Wales. I think that there are real issues about size in terms of both the ability to take over perhaps one's legal services—which I do not think is a good idea—and also access to training, that need to be considered. The smaller trusts will have great difficulty in releasing people for some of the training that is available. It is something that we need to

Ms Peplar: Na, popeth yn iawn. Cefnogaf yn union beth a ddywedwyd am Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru. A minnau wedi dod dros y ffin yn weddol ddiweddar, yr wyf yn glir iawn ynghylch y gwerth am arian a roddir a phriodoldeb y gefnogaeth. Mae'r cyngor a roddir yn ddibynadwy iawn. Ceir cwestiynau gwirioneddol am y maint. Yr oeddem yn sôn am Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, sydd yn ymddiriedolaeth fawr, tra mai ymddiriedolaeth ganolig ei maint yng Nghymru yw f'un i. Yr wyf yn meddwl bod cwestiynau gwirioneddol am faint, yn nhermau'r gallu i ymgymryd â'ch gwasanaethau cyfreithiol eich hunain efallai—nad yw'n syniad da yn fy marn i—a hefyd o ran mynediad at hyfforddiant, y mae angen

recognise in making recommendations.

eu hystyried. Caiff yr ymddiriedolaethau llai anhawster mawr i ryddhau pobl ar gyfer rhai o'r cyrsiau hyfforddiant sydd ar gael. Dyma rywbeth y mae angen inni ei gydnabod wrth wneud argymhellion.

I think that what I am interested in is people having an understanding of the legal position. Perhaps not developing an expertise, but being able to engage in increasingly more complex debates and discussions with our legal advisers, as the cases that they deal with are becoming more complex. That is very helpful to me.

Yr wyf yn meddwl mai'r hyn sydd yn fy niddori i yw bod pobl yn ennill dealltwriaeth o'r sefyllfa gyfreithiol. Efallai nid yn datblygu arbenigedd, ond yn gallu cymryd rhan mewn dadleuon a thrafodaethau mwyfwy cymhleth gyda'n cynghorwyr cyfreithiol, gan fod yr achosion y maent yn delio â hwy fynd yn fwy cymhleth. Mae hynny'n fuddiol iawn i mi.

[165] **Janice Gregory:** Thank you. I have one further question, and it is specifically to Mr Edwards. I understand that Llandough Hospital, before it was merged as part of the new trust, used to employ a private firm of solicitors to handle its clinical negligence claims. Why was that, given that Welsh Health Legal Services, of which you are both very supportive, offers specialist legal advice for free?

[165] **Janet Gregory:** Diolch. Mae gennyf un cwestiwn pellach, a chwestiwn i Mr Edwards yn benodol ydyw. Deallaf yr arferai Ysbyty Llandochoau, cyn iddo gael ei gyfuno yn rhan o'r ymddiriedolaeth newydd, gyflogi cwmni preifat o gyfreithwyr i ymdrin â'i hawliadau esgeulustod clinigol. Pam oedd hynny, o gofio bod Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru, yr ydych chi'ch dau mor gefnogol ohonynt, yn cynnig cyngor cyfreithiol arbenigol am ddim?

Mr Edwards: I think that it is a throwback to the individual choice that was open to trusts to make that particular decision. Now that we are part of a merged organisation, I think that we will be reviewing that situation when the contract comes to an end.

Mr Edwards: Yr wyf yn meddwl mai adlais ydyw o'r dewis unigol oedd yn agored i ymddiriedolaethau ar gyfer gwneud y penderfyniad arbennig hwnnw. A ninnau bellach yn rhan o sefydliad cyfunedig, yr wyf yn credu y byddwn yn adolygu'r sefyllfa honno pan ddaw'r contract i ben.

[166] **Janice Gregory:** Right. I have a small supplementary question. Have the staff from Llandough noticed a difference in the quality of service that they now receive from Welsh Health Legal Services, compared with that of the private firm?

[166] **Janet Gregory:** Iawn. Mae gennyf gwestiwn atodol bach. A yw'r staff o Llandochau wedi sylwi ar wahaniaeth yn ansawdd y gwasanaeth a gânt bellach gan Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru, o gymharu â gwasanaeth y cwmni preifat?

Mr Edwards: I am not sure that I have asked that specific question, so I would not want to answer you without doing so. However, I am more than happy to ask it. I do not know whether Sue has any particular evidence about that. I would not want to just say 'yes' without really being able to advise the Committee that that was the case.

Mr Edwards: Nid wyf yn siwr fy mod wedi gofyn y cwestiwn penodol hwnnw, felly ni fyddwn yn dymuno ateb eich cwestiwn heb wneud hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn fwy na bodlon i'w ofyn. Ni wn a oes gan Sue unrhyw dystiolaeth arbennig am hynny. Ni hoffwn ddweud 'ydynt' heb fod yn gallu dweud yn wir wrth y Pwyllgor mai felly yr oedd hi.

[167] **Janice Gregory:** But you are very pleased on the whole—both of you—with

[167] **Janet Gregory:** Ond yr ydych chi'n falch iawn ar y cyfan—chi eich dau—gyda'r

the services that are being provided by Welsh Health Legal Services? gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru?

Mr Edwards: I think that it is excellent value for money, I really do.

Mr Edwards: Yr wyf fi'n meddwl ei fod yn werth ardderchog am arian, ydwyf wir.

Ms Hobbs: I do not think that I would have much to add. I have enjoyed working in Wales for four years now, and have been dealing with managing complaints for some time, in Wales and England. Certainly in England we dealt with an external company that was very professional, and the company that the University of Wales and Llandough Hospital NHS Trust dealt with was very professional and very good, and I think that the trust was provided with a very good service. We have been through a tendering process; we have determined our future. I think that staff on the ground probably would not maybe notice the draft. I think that what we have done through the clinical claims review committee is expose clinicians, particularly, to that immediate opportunity for partnership learning through the legal and the medical profession. However, I do not think that there has been a draft, I really do not.

Ms Hobbs: Nid wyf yn meddwl y byddai gennyf lawer i'w ychwanegu. Yr wyf wedi mwynhau gweithio yng Nghymru ers pedair blynedd bellach, a delio â chwynion rheoli ers peth amser, yng Nghymru a Lloegr. Yn sicr yn Lloegr yr oeddem yn delio â chwmni allanol a oedd yn broffesiynol iawn, ac yr oedd y cwmni yr oedd Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Prifysgol Cymru a Llandochau yn delio ag ef yn un proffesiynol iawn a da iawn, ac yr wyf yn credu y darperid gwasanaeth da iawn i'r ymddiriedolaeth. Buom drwy broses dendro, yr ydym wedi penderfynu ar ein dyfodol. Yr wyf yn amau na fyddai'r staff ar y llawr efallai'n sylwi ar y drafft. Yr wyf yn meddwl mai'r hyn yr ydym wedi'i wneud drwy'r pwyllgor adolygu hawliadau clinigol yw agor y drws i glinigwyr, yn arbennig, gael y cyfle hwnnw'n syth i ddysgu drwy bartneriaeth drwy'r proffesiwn cyfreithiol a meddygol. Fodd bynnag, nid wyf yn credu fod drafft wedi

digwydd, nac ydwyf wir.

[168] **Alun Cairns:** Madam Chairman, I have a question for you, and possibly for Sir John Bourn. Is it within the remit of this Committee, under this investigation, to analyse the potential cost differences, given that the costs of the Welsh Health Legal Services are borne by the Assembly, in outsourcing that to outside expertise?

[168] **Alun Cairns:** Madam Cadeirydd, mae gennyf gwestiwn i chi, ac o bosibl i Syr John Bourn. A ydyw o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn, dan yr ymchwiliad hwn, i ddadansoddi'r gwahaniaethau costau potensial, o gofio mai'r Cynulliad sydd yn talu costau Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru, o roi hwnnw allan i arbenigwyr allanol?

[169] **Janet Davies:** I think that Sir John needs to answer that.

[169] **Janet Davies:** Yr wyf yn meddwl bod angen i Syr John ateb hynny.

Sir John Bourn: It would certainly be something that the Auditor General for Wales and the National Audit Office could look at. Cost comparisons between different ways of carrying out activities involving both the public and the private sector certainly lie within our capacities. Of course, while we have direct access to the books and records and costs of public sector providers, we do not have direct access to private sector providers, so any work that we do that involves consultation with them rests on their

Syr John Bourn: Byddai'n sicr yn rhywbeth y gallai Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol edrych arno. Mae cymharu costau rhwng gwahanol ffyrdd o gyflawni gweithgareddau sydd yn ymwneud â'r sectorau cyhoeddus a phreifat ill dau yn sicr yn beth sydd o fewn ein gallu. Wrth gwrs, tra bod gennym fynediad uniongyrchol at lyfrau a chofnodion a chostau darparwyr y sector cyhoeddus, nid oes gennym fynediad uniongyrchol at ddarparwyr y sector preifat, felly mae

willingness to assist us. I have to say, when I have gone to the private sector for help, I have in almost all cases been given it. However, there is a difference between having a right to have it and being given it in a spirit of co-operation.

unrhyw waith a wnawn sydd yn golygu ymgynghori â hwy yn dibynnu ar eu parodrwydd hwy i'n helpu. Rhaid imi ddweud, pan yr wyf wedi mynd at y sector preifat am gymorth, fe'i rhoddwyd imi ymron bob achos. Fodd bynnag, y mae gwahaniaeth rhwng bod â hawl i'w gael a bod rhywun yn ei roi mewn ysbryd o gydweithrediad.

[170] **Janet Davies:** Dafydd, would you like to ask a few questions?

[170] **Janet Davies:** Dafydd, a hoffech chi ofyn ambell gwestiwn?

[171] **Dafydd Wigley:** Yr wyf eisiau gofyn cwestiynau ynglyn â'r amser a gymerir i setlo ceisiadau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu ein sylw at y ffaith, ar gyfartaledd dros Gymru, ei bod yn cymryd dros bedair blynedd i setlo achosion o ddyddiad y digwyddiad i amser y setliad. Fodd bynnag, derbyniaf yn eich achosion chi eich bod fymryn bach yn well na'r cyfartaledd—rhyw dair blynedd yr un, ac fe'ch llongyfarchaf ar hynny. Beth yn eich barn chi yw'r amserlen briodol a derbyniol ar gyfer darparu iawndal i gleifion a ddiodefodd yn sgîl esgeulustod?

Mr Edwards: If I could start, I think that an element of that four plus years is complainants themselves deciding that they want to actually come forward, and I think that a figure of two years is put on that. For us, we have managed a three-year timescale. I think that that is mainly because we have our independent internal review where, if very senior clinicians are saying, 'Yes, we are going to have to really say that this is something that we got wrong', we say 'Let us stop messing around and settle it'. I think that that is enabling us to make the three-year target rather than the 4.3 years. I am not so sure that it can actually be much less than that, but I would be interested in what colleagues would have to say about it.

Mr Edwards: Os caf fi ddechrau, yr wyf yn meddwl mai un elfen o'r pedair blynedd a mwy hynny, yw yr achwynwyr eu hunain yn penderfynu eu bod am ddod ymlaen, ac yr wyf yn meddwl y rhoddir ffigur o ddwy flynedd ar hynny. O'n rhan ni, yr ydym wedi llwyddo i gael amserlen dair blynedd. Yr wyf yn meddwl fod hynny'n bennaf oherwydd bod gennym ein hadolygiad mewnol annibynnol lle, os dywed clinigwyr uchel iawn, 'Ydym, yr ydym yn mynd i orfod dweud fod hyn yn rhywbeth yr ydym wedi ei wneud yn anghywir', fe ddywedwn ni 'Gadewch inni beidio â chwarae o gwmpas a setlo'r mater'. Yr wyf yn meddwl fod hynny'n ein galluogi i daro'r targed tair blynedd yn hytrach na'r 4.3 blynedd. Nid wyf mor siwr y gall fod yn llawer llai na hynny mewn gwirionedd, ond byddai gennyf ddiddordeb yn yr hyn y byddai gan gydswyddogion i'w ddweud am hynny.

[172] **Dafydd Wigley:** A gaf efallai bwyso mymryn bach ymhellach ar hynny? Beth yw'r amser priodol o'r adeg pan fo'r claf yn gwneud cwyn i'r adeg pan wneir y setliad? Os oes cyfnod hir cyn i gleifion gwyno a thynnu sylw at y peth, efallai mai'r cwestiwn priodol yw hyd y cyfnod rhwng yr adeg y

[172] **Dafydd Wigley:** May I perhaps press slightly further on that? What is the appropriate length of time from when the patient makes a complaint to when the settlement is made? If there is a long period of time before patients complain and draw attention to it, perhaps the appropriate

maent yn tynnu eich sylw at y mater a'r adeg y gwneir setliad. Beth fydddech chi'n ei ddweud? A ydych yn dweud mai tair blynedd yw'r optimwm ar hyn, ynteu a ydych yn teimlo y dylai fod yn dynnach ac yn llai na thair blynedd?

Mr Edwards: No. I think that three years is really— It depends on the individual case. Some of them are very complex, so it is very difficult to generalise. However, I would like to think that the trend will be downwards and that we would, through the sorts of mechanisms that we have introduced, reduce the overall amount of time. It is very difficult to put a specific time on it because I think that there is such a variety of claims.

Ms Peplar: I think that I would agree with that. I think that we are constantly looking at ways that we can tighten the system and improve our end of it and make sure that we get records through and that we get witnesses speaking and making statements as quickly as possible. However, I think that David is quite right. There are certain cases

question is the length of the period between them bringing the matter to your attention and when a settlement is made. What would you say? Are you saying that three years is the optimum on this, or do you feel that it should be tighter and less than three years?

Mr Edwards: Na. Yr wyf yn meddwl bod tair blynedd mewn gwirionedd— Mae'n dibynnu ar yr achos unigol. Mae rhai ohonynt yn gymhleth iawn, felly mae'n anodd iawn cyffredinoli. Fodd bynnag, hoffwn feddwl mai tuag i lawr y bydd y duedd, ac y byddem, drwy'r mathau o fecanweithiau yr ydym wedi'u cyflwyno, yn lleihau'r cyfanswm amser cyffredinol. Mae'n anodd iawn rhoi amser penodol arno oherwydd yr wyf yn meddwl fod cymaint o amrywiaeth o hawliadau.

Ms Peplar: Yr wyf yn meddwl y byddwn i'n cytuno â hynny. Credaf ein bod o hyd yn edrych ar ffyrdd y gallwn dynhau'r system a gwella'n rhan ni ohoni a sicrhau y gwithiwn gofnodion drwodd ac y cawn dystion i siarad a gwneud datganiadau cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, yr wyf yn meddwl bod David yn llygad ei le. Y mae rhai

that are extremely complex and it is quite difficult to get everything together in a shorter time.

achosion sydd yn hynod o gymhleth ac y mae'n eithaf anodd cael popeth ynghyd mewn amser byrrach.

[173] **Dafydd Wigley:** Fodd bynnag, fe fyddech yn derbyn fod mantais fawr i bawb o gael yr amserlen mor dynn â phosibl, o safbwynt y claf yn amlwg, ond hefyd o safbwynt yr amser yr ydych chi wedi'ch clymu â'r achosion?

[173] **Dafydd Wigley:** However, you would accept that it is of great advantage to everyone to have as tight a timetable as possible, obviously from the patient's point of view, but also from the point of view of the time that you are tied up with the cases?

Ms Peplar: Absolutely. There is no doubt about that.

Ms Peplar: Yn bendant. Nid oes dwywaith am hynny.

[174] **Dafydd Wigley:** A gaf ofyn, yng nghyd-destun y diwygiadau cyfreithiol sydd yn mynd ymlaen, sef diwygiadau Woolf—sydd, os deallaf yn iawn, am orfodi gweithdrefn gyflymach ar gyfer delio â cheisiadau gyda'r posibilrwydd o gosbau ariannol o fethu â chyrraedd targedau—pa gamau a gymerwyd gennych i sicrhau bod y rheini sydd yn delio â cheisiadau yn gwbl barod i ddelio â'r cyfyngiadau a osodir arnynt gan ddiwygiadau Woolf?

[174] **Dafydd Wigley:** May I ask, in the context of the legal reforms that are happening, namely the Woolf reforms—which, if I understand correctly, will enforce an accelerated procedure for dealing with claims with the possibility of financial penalties as a result of failure to reach targets—what steps you have taken to ensure that those who deal with claims are fully prepared to deal with the restrictions placed upon them by the Woolf reforms?

Ms Peplar: Well, I am not sure that we have been able to make them completely able to deal with all the problems that are there. I think that it is actually further through the system where the delays often come. It is a matter of encouraging our clinical colleagues to report back quickly and concisely. It is helping them to work, rather than the administrators or the claims managers. I think that the claims managers are fairly clear about the pressures on them and what they need to do. It is often further into the system that some of the delays—where we have delays—occur. It is a matter of making sure that those are speeded up.

Mr Edwards: I am very supportive of Woolf. It is about judges being in charge, doctors being kept out of courts and lawyers being kept out of hospitals. I think that it is very laudable that we are moving in that particular direction. In terms of the specific issue, I am going to ask Ms Hobbs if she would not mind answering that.

Ms Hobbs: I think that what we did with Woolf was to ensure that everybody understood what it was all about. It is quite

Ms Peplar: Wel, nid wyf yn siwr ein bod wedi gallu sicrhau eu bod yn gwbl abl i ddelio â'r holl broblemau sydd yno. Yr wyf yn meddwl mai yn nes ymlaen yn y system y digwydd yr oedi yn aml mewn gwirionedd. Mater ydyw o annog ein cydweithwyr clinigol i adrodd yn ôl yn gyflym ac yn gryno. Eu helpu hwy i weithio yw'r nod, yn hytrach na'r gweinyddwyr neu'r rheolwyr hawliadau. Credaf fod y rheolwyr hawliadau yn weddol glir ynghylch y pwysau sydd arnynt a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud. Yn aml, yn nes ymlaen yn y system y ceir yr oedi, lle y digwydd hynny. Mater ydyw o wneud yn siwr y cyflymir hynny.

Mr Edwards: Yr wyf fi'n gefnogol iawn i Woolf. Mae a wnelo â sicrhau mai barnwyr sydd â gofal, cadw meddygon allan o'r llysoedd a chyfreithwyr allan o'r ysbytai. Yr wyf yn meddwl ei bod yn glodwiw iawn ein bod yn symud i'r cyfeiriad penodol hwnnw. Ar y mater dan sylw, yr wyf am ofyn i Ms Hobbs a wnâi hi ateb hwnnw.

Ms Hobbs: Yr wyf yn meddwl mai'r hyn a wnaethom gyda Woolf oedd sicrhau fod pawb yn deall beth oedd ei amcan. Mae'n

difficult, I think, to grasp initially. I would also wholeheartedly agree with the sentiments expressed. Certainly, having heard Lord Woolf speak at firsthand, I was delighted to hear what his objectives were in terms of speeding things up for all the right reasons.

I think that, internally, what we needed to do was to ensure that internal policies for handling and managing claims were reviewed in order to speed up that process, but also to ensure that, at the sharp end where these cases are perhaps being investigated or where people are being asked to provide information or to write reports, they are supported through the process but are also working to realistic timescales and doing the job properly first time. Therefore, there has been quite a training issue for us in terms of ensuring that staff in the trust understand what Woolf means or might mean to them. I think that, certainly, when we looked at the early implications for us internally in terms of managing claims, we had to look at how we were going to provide more support for our claims manager so that he—who was still working single-handed at the time—could get up to speed with the pace of change.

weddol anodd, mi gredaf, ei ddeall i ddechrau. Hoffwn gytuno'n llwyr hefyd gyda'r teimladau a fynegwyd. Yn sicr, wedi clywed yr Arglwydd Woolf yn siarad yn y cnawd, yr oeddwn wrth fy modd o glywed beth oedd ei amcanion o ran cyflymu pethau am y rhesymau iawn i gyd.

Credaf mai'r hyn yr oedd angen inni ei wneud yn fewnol oedd sicrhau y câi polisïau mewnol ar gyfer trafod a rheoli hawliadau eu hadolygu er mwyn cyflymu'r broses honno, ond hefyd er mwyn sicrhau, yn y rheng flaen lle mae'r achosion hyn efallai'n cael eu harchwilio neu lle y mae gofyn i bobl ddarparu gwybodaeth neu ysgrifennu adroddiadau, y cânt eu cefnogi drwy'r broses ond eu bod hefyd yn gweithio yn ôl amserlenni realistig ac yn gwneud y gwaith yn iawn y tro cyntaf. Felly, bu tipyn o faich hyfforddi arnom yn nhermau sicrhau bod staff yn yr ymddiriedolaeth yn deall beth y mae Woolf yn ei olygu neu y gallai ei olygu iddynt hwy. Yr wyf yn meddwl, yn sicr, pan edrychasom ar y goblygiadau cynnar i ni yn fewnol o ran rheoli hawliadau, y bu raid inni edrych ar sut yr oeddem am ddarparu mwy o gefnogaeth i'n rheolwr hawliadau fel y gallai yntau—a oedd yn dal i weithio ar ei

ben ei hun ar y pryd—ymdopi â chyflymder y newid.

[175] **Dafydd Wigley:** A yw hynny'n golygu ichi orfod wynebu costau ychwanegol er mwyn cydweithio â Woolf? [175] **Dafydd Wigley:** Does that mean that you have had to face additional costs in order to co-operate with Woolf?

Ms Hobbs: I think that we certainly had to— We have had some administrative costs. I do not think that they have been huge. I think that, to be honest, they are welcomed in terms of us wanting to speed up the process because, of course, the more that the process is seen by the public or the complainant to be held up, the more we have to deal with in terms of regular correspondence and keeping people informed. So I would hope that we have in fact invested more wisely through Woolf, in terms of helping people get through a process, however awful that process might be, quicker and with a better resolution. **Ms Hobbs:** Yr wyf yn credu yn sicr inni orfod— Cawsom rai costau gweinyddol. Nid wyf yn meddwl eu bod yn anferth. Credaf, â dweud y gwir, y'u croesewir o ran ein bod eisiau cyflymu'r broses oherwydd, wrth gwrs, po fwyaf y gwêl y cyhoedd neu'r achwynwr fod oedi yn y broses, mwyaf sydd yn rhaid inni ddelio ag ef o ran gohebiaeth reolaidd a rhoi gwybodaeth i bobl. Felly gobeithiaf ein bod mewn gwirionedd wedi buddsoddi'n ddoethach drwy Woolf, o ran helpu pobl i fynd drwy broses, waeth pa mor ofnadwy fo'r broses honno, yn gyflymach a chyda chanlyniadau gwell.

[176] **Dafydd Wigley:** Gofynnaf i chi—ac wedyn, gofynnaf yr un cwestiwn i'r cyfeillion eraill—a ydych, fel ymddiriedolaeth, wedi gorfod wynebu unrhyw gosbau ariannol, o fethu â chyrraedd targedau? A ydych chi'n [176] **Dafydd Wigley:** I will ask you—and then I will ask the same question to the other colleagues—have you, as a trust, had to face any financial penalties as a result of failure to meet targets? Do you foresee that

rhagweld y bydd unrhyw bosibilrwydd y there is any possibility that you will have to
byddwch yn gorfod wynebu cosbau fel hyn face such penalties in the future?
yn y dyfodol?

Ms Hobbs: We have not so far, and I hope that we would not. However, going back to what colleagues have said earlier, claims become more complex, and I would not like to say that we will never incur a penalty. I think that that would be very bold.

Ms Hobbs: Nid hyd yma, a gobeithiaf na fyddem. Fodd bynnag, â dychwelyd at yr hyn a ddywedodd cyfeillion yn gynharach, aiff hawliadau'n fwy cymhleth, ac ni hoffwn ddweud na wynebwn gosb fyth. Credaf y byddai hynny'n hy iawn.

Mr Edwards: I think that the pre-action protocol, where we have to meet these timescales, is challenging. I think that one of the issues in avoiding additional costs, is to try to ensure that you can pinpoint the areas where we might have difficulties, so that we can actually do a lot of the investigation before the claim is made in order to meet the timescales. We have tried to do some of that, and so far we have not had real difficulty in meeting the timescales laid down by the court.

Mr Edwards: Yr wyf yn meddwl fod y protocol cyn-gweithredu, lle y mae'n rhaid inni ddilyn yr amserlenni hyn, yn her. Yr wyf yn meddwl mai un o'r materion wrth geisio osgoi costau ychwanegol yw ceisio sicrhau y gallwch adnabod y manau lle gallem gael anawsterau, fel y gallwn wneud llawer o'r ymchwilio cyn i'r hawliad gael ei wneud er mwyn cadw o fewn yr amserlen. Yr ydym wedi ceisio gwneud rhywfaint o hynny, a hyd yma nid ydym wedi cael gwir anhawster i gwrdd â'r amserlenni a bennwyd gan y llys.

Ms Peplar: I think that it is a very similar situation for us. We are in a position of enthusing about the reforms and trying to

Ms Peplar: Yr wyf yn meddwl ei bod yn sefyllfa debyg iawn i ni. Yr ydym mewn sefyllfa o groesawu'r diwygiadau'n frwd a

meet the timescales. However, I think that one would hesitate to say that we would always meet them. There may well be complex cases where we have difficulties.

cheisio cwrdd â'r terfynau amser. Fodd bynnag, credaf y petrusid cyn dweud y byddem bob amser yn cwrdd â hwy. Fe all yn wir fod achosion cymhleth lle cawn anawsterau.

[177] **Dafydd Wigley:** Tynnaf eich sylw at ffigur 3.10 ar dudalen 24 yr adroddiad. Mae'n cyfeirio at y ffaith bod dau fesur sydd, ym marn yr ymddiriedolaethau, fwyaf tebygol o leihau'r amser a gymerir i ddatrys ceisiadau. Y cyntaf yw ymchwilio i achosion mewn modd mwy rhagweithiol. Yr ail yw cydweithrediad gwell gyda chlinigwyr. A oes gennych unrhyw gynlluniau ar gyfer sicrhau eich bod yn adeiladu ar y cyfeiriadau hynny?

[177] **Dafydd Wigley:** I draw your attention to figure 3.10 on page 24 of the report. It refers to the fact that there are two measures that are, in the opinion of the trusts, most likely to decrease the time taken to resolve claims. The first is investigating cases in a more pro-active way. The second is better collaboration with clinicians. Do you have any plans to ensure that you will build on those two directions?

Ms Peplar: I think that they have been taken into consideration and we are trying to build on them, but— Are we talking about 3.10? My apologies.

Ms Peplar: Credaf eu bod wedi'u hystyried a'n bod yn ceisio adeiladu arnynt, ond— Ai sôn am 3.10 yr ydym? Ymddiheuraf.

[178] **Dafydd Wigley:** Ie. Mae'r 81 y cant yn cyfeirio at yr elfen ragweithiol, a'r 75 y cant at y cydweithrediad gyda chlinigwyr. Credaf fod y ffigurau yn rhai eithaf trawiadol, sef yr elfennau pwysicaf. Yr wyf yn cymryd

[178] **Dafydd Wigley:** Yes. The figure of 81 per cent refers to the pro-active element, and 75 per cent to the co-operation with clinicians. I think that those figures are quite remarkable, namely the most important

y byddwch yn bwriadu gwella'r agweddau elements. I take it that you intend to improve hynny, a rheoli ceisiadau, os oes modd yn y those aspects, and manage claims, if it is at byd o wneud hynny. all possible for you to do so.

Ms Peplar: Absolutely, yes.

Ms Peplar: Yn hollol, byddwn.

[179] **Dafydd Wigley:** A oes rhywbeth yr [179] **Dafydd Wigley:** Is there anything hoffai Mr Edwards ei ychwanegu at hynny? that Mr Edwards would like to add to that?

Mr Edwards: I have nothing else to add to that. **Mr Edwards:** Nid oes gennyf ddim mwy i'w ychwanegu at hynny.

[180] **Dafydd Wigley:** Fy nghwestiwn olaf, Gadeirydd, yw ei bod hi'n drawiadol ei bod wedi cymryd bron i ddwy flynedd, ar gyfartaledd, i gleifion wneud cais, ar ôl yr achos honedig o esgeulustod. Cyfeiriwyd at hynny yn gynharach. Os cymera ddwy flynedd i wneud y cais, mae hynny'n amlwg yn elfen sylweddol yn yr amser a gymerwyd. Mae'n golygu bod datrys y ceisiadau yn cymryd gymaint â hynny yn hirach a bod profiad wedi diflannu, wrth gwrs. Fe allai adlewyrchu anfodlonrwydd yr ymddiriedolaethau weithiau i siarad yn onest â'r cleifion pan fydd pethau wedi mynd o

[180] **Dafydd Wigley:** My final question, Chair, is that it is remarkable that it has taken almost two years, on average, for patients to make claims after the alleged case of negligence. That was referred to earlier. If it takes two years to make the claim, that is obviously a significant element in the time taken. It means that solving the cases takes that much longer and that experience has disappeared, of course. It could reflect the unwillingness of the trusts, sometimes, to talk honestly with the patients when things have gone wrong.

chwith.

A ydych yn gwneud unrhyw beth o ran cyfathrebu rhwng clinigwyr a chleifion, i'w wneud yn fwy agored er mwyn ceisio osgoi y math hwn o oedi? Are you doing anything in terms of the communication lines between your clinicians and patients, to make them more open in order to try to avoid this kind of delay?

Ms Peplar: I think that that is an area where we can usefully spend a lot of time. I think that we need to encourage all staff to actually talk more with patients, and to be more open about addressing problems when they develop. I think that there is sometimes a reluctance among some people to actually face up to a problem at the time it develops, and deal with it there. **Ms Peplar:** Credaf fod hwnnw'n faes lle gallwn yn fuddiol dreulio llawer o amser. Credaf fod angen inni annog yr holl staff i siarad mwy gyda chleifion, ac i fod yn fwy agored ynghylch delio â phroblemau pan ddatblygant. Yr wyf yn meddwl fod yna amharodrwydd weithiau ymhlith rhai pobl i wynebu problem ar yr adeg y daw i'r wyneb, a delio â hi yn y fan honno.

The other area that we are looking at and considering, is having people within the organisation who are far more active in ward and clinical areas and out in the clinics to talk to people, and in a way, to help them draw out where they are dissatisfied with the service, rather than waiting for them to think something through and bring it out. Y maes arall yr ydym yn edrych arno ac yn ei ystyried, yw cael pobl yn y sefydliad sydd yn llawer mwy gweithredol mewn wardiau, ardaloedd clinigol ac allan yn y clinigau I siarad â phobl ac, mewn ffordd, eu helpu i amlinellu lle y maent yn anfodlon ar y gwasanaeth, yn hytrach nag aros iddynt feddwl rhywbeth drwodd a dod ag ef allan.

I think that the other area is also being patient with people. I know that it can sometimes take two years and that is a long time. However, if they are recovering or if they are still feeling quite confused about what happened to them, it may take a bit of time. I think that we need to work with and help people, and support the other systems that do that, to help them make complaints. That is one of the ways that we learn and develop our services. I would not want to see that not happening, but I think that it is about supporting people in that process better.

Y maes arall, mi gredaf, yw bod yn amyneddgar gyda phobl hefyd. Gwn y gall weithiau gymryd dwy flynedd a bod hynny'n amser hir. Fodd bynnag, os ydynt yn gwella neu os ydynt yn dal i deimlo'n eithaf dryslyd ynghylch beth a ddigwyddodd iddynt, gall gymryd tipyn o amser. Yr wyf yn meddwl bod angen inni weithio gyda phobl a'u helpu, a chefnogi'r systemau eraill sydd yn gwneud hynny, i'w helpu i wneud cwynion. Dyna un o'r ffyrdd y dysgwn ac y datblygwn ein gwasanaethau. Ni hoffwn weld hynny'n peidio â digwydd, ond credaf fod a wnelo'r peth â chefnogi pobl yn y broses honno'n well.

Mr Edwards: I would agree with that. I see every letter of complaint that comes into Cardiff and Vale NHS Trust and I sign every letter that goes to individuals and I am involved in some of the investigations. The analysis that Sue does demonstrates that 16 per cent of all complaints are around communications difficulties. I suppose that it is not surprising. Healthcare is a very complex business these days with major sub-specialisation, which involves a number of clinicians coming together in order to help individuals. Sometimes the communication

Mr Edwards: Byddwn i'n cytuno â hynny. Gwelaf bob llythyr cwyn a ddaw i Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, a llofnodaf bob llythyr a anfonir at unigolion, a chymeraf ran mewn rhai o'r ymchwiliadau. Mae'r dadansoddiad a wnaeth Sue yn dangos mai anawsterau cyfathrebu yw 16 y cant o'r holl gwynion. Am wn i nad yw hynny'n syndod. Mae gofal iechyd yn fusnes cymhleth iawn y dyddiau hyn gydag is-arbenigo ar raddfa fawr, sydd yn golygu bod nifer o glinigwyr yn dod ynghyd er mwyn helpu unigolion. Weithiau gall y llwybr

pathway can be very long. So I think that, in the context of claims, it is important to pick up that particular point.

cyfathrebu fod yn hir iawn. Felly yr wyf yn meddwl, yng nghyd-destun hawliadau, ei bod yn bwysig ymateb i'r pwynt arbennig hwnnw.

[181] **Kirsty Williams:** The Assembly is about to go out to consultation on advocacy, patient liaison and public involvement in the service and the future development of the roles of community health councils, now that the decision has been taken to retain CHCs in Wales. Ms Peplar talked about the trusts providing people on the ground. Do you perceive increased investment in advocacy patient liaison, whether it be paid for by the trust or, perhaps even more preferably, independent-based advocacy in patient liaison services, to be a way to combat this poor communication that leads to not a huge, but a significant amount of the complaints that arise?

[181] **Kirsty Williams:** Mae'r Cynulliad ar fin ymgynghori ar eiriolaeth, cyswllt â chleifion a chyfranogiad y cyhoedd yn y gwasanaeth a datblygu rolau cynghorau iechyd cymuned yn y dyfodol yn awr bod y penderfyniad wedi'i gymryd i gadw CICau yng Nghymru. Soniodd Ms Peplar am yr ymddiriedolaethau'n darparu pobl ar lawr gwlad. A welwch chi fwy o fuddsoddi mewn cyswllt cleifion drwy eiriolaeth, boed wedi'i dalu amdano gan yr ymddiriedolaeth neu, efallai'n well fyth, eiriolaeth annibynnol mewn gwasanaethau cyswllt cleifion, fel ffordd i ymladd yn erbyn y cyfathrebu gwael yma sydd yn arwain at swm nid enfawr, ond arwyddocaol, o'r cwynion sydd yn codi?

Ms Peplar: I would fully support that. I think that there is an advantage in having both people in the trust and outside of it. If we are genuinely trying to talk about opening the debate up within the organisation with our users—with the people who use the

Ms Peplar: Byddwn yn cefnogi hynny'n llwyr. Yr wyf yn meddwl bod mantais o gael pobl yn yr ymddiriedolaeth a'r tu allan iddi. Os ydym yn ddidwyll yn ceisio sôn am agor y ddadl o fewn y sefydliad gyda'n defnyddwyr—gyda'r bobl sydd yn

services—then I think that we have to properly demonstrate that we are there, and that we are listening and acting upon what we hear. I think that if it is always via an outside agent, then that diminishes some of the learning that goes on. So I think that both need to be available. Clearly, where people feel that they have a problem, then they have to have easy, simple access to somebody outside the system to act as a kind of arbitrator and to help them move through the complications that we often put in place. However, I think that both have merit.

Mr Edwards: The direction of travel for us is to move from complaints to consumer relations. It is a sort of cultural and a learning thing. In my previous job as chief executive, we had people called patients' representatives who actually worked for us. That cut down the number of formal complaints and allowed us to settle issues before they got anywhere. It has been known in the service for a long time that if you can do that, saying 'sorry' on the ward is, I think, quite an important issue. So that is a direction for us. The other thing is that we are linked with another teaching hospital in

defnyddio'r gwasanaethau—yna credaf fod yn rhaid inni ddangos yn iawn ein bod ni yno, a'n bod yn gwrando ac yn gweithredu ar yr hyn a glywn. Credaf os digwydd hynny drwy asiant allanol bob tro, bydd hynny'n lleihau rhywfaint o'r dysgu sydd yn digwydd. Felly credaf fod angen i'r ddau fod ar gael. Yn amlwg, lle teimla pobl fod ganddynt broblem, bydd yn rhaid iddynt gael mynediad rhwydd, syml at rywun y tu allan i'r system i weithredu fel math o ganolwr a'u helpu i symud drwy'r cymhlethdodau y byddwn ni'n aml yn eu gosod. Fodd bynnag, credaf fod rhinwedd i'r ddau.

Mr Edwards: Y cyfeiriad inni deithio iddo yw symud o gwynion at berthynas â defnyddwyr. Mae'n fath o beth diwylliannol ac addysgol. Yn fy swydd flaenorol fel prif weithredwr, yr oedd gennym bobl a elwid yn gynrychiolwyr cleifion yn gweithio inni. Golygai hynny gwtogi nifer y cwynion ffurfiol a chaniatáu inni setlo materion cyn iddynt fynd i unman. Mae'n hysbys yn y gwasanaeth ers tro os gallwch wneud hynny, bod dweud 'mae'n ddrwg gennyf' ar y ward yn fater eithaf pwysig, gredaf fi. Felly dyna gyfeiriad inni. Y peth arall yw bod gennym gyswllt ag ysbyty dysgu arall yng ngogledd yr

the north of the Netherlands. On its main
concourse there is a glass-fronted shop
where some of these issues take place. So,
making it easier for people to access us
through that sort of fairly simple means, but
something that we can all recognise—a shop
front—is an issue that we are considering at
the moment. We are considering how we
might provide that. That is perhaps too full
an answer, but that is the direction that we
are moving in.

[182] **Jocelyn Davies:** I have a question
and a comment on the issue of taking a long
time to settle cases. Is there any real
disadvantage to you if a case takes a long
time? Would you agree that it is not always
wise to settle early because the full extent of
the damage that somebody has incurred may
not be known for many months? On the
other hand, some people recover well,
beyond expectations. If you had settled
earlier, you would perhaps have thought that
they would have been very ill for a very long
time. So is time really that important?

Ms Peplar: I think that time is important, if
you are the complainant. I think that it is very

Iseldiroedd. Ar ei brif goncwrws mae siop ag
iddi wyneb gwydr lle digwydd rhai o'r
materion hyn. Felly, mae hwyluso pethau i
bobl gael mynediad atom drwy'r math
hwnnw o fodd gweddol syml, ond rhywbeth
y gallwn i gyd ei adnabod—fffenestr siop—
yn fater yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd.
Yr ydym yn ystyried sut y gallem ddarparu
hynny. Mae hynny'n ateb rhy lawn efallai,
ond dyna'r cyfeiriad yr ydym yn symud iddo.

[182] **Jocelyn Davies:** Mae gennyf
gwestiwn a sylw ar fater yr amser hir a
gymerir i setlo achosion. A oes unrhyw wir
anfantais i chi os bydd achos yn cymryd
amser hir? A fydddech yn cytuno nad yw bob
amser yn ddoeth setlo'n gynnar oherwydd
efallai na fydd llawn faint y niwed a
ddigwyddodd i rywun yn hysbys am fisoedd
lawer? Ar y llaw arall, bydd rhai pobl yn
gwella'n dda, y tu hwnt i'r disgwyliadau. Pe
baech wedi setlo'n gynharach, bydddech
efallai wedi meddwl y buasent yn sâl iawn
am gyfnod maith iawn. Felly a yw amser mor
bwysig â hynny mewn gwirionedd?

Ms Peplar: Yr wyf fi'n meddwl bod amser
yn bwysig, os mai chi yw'r achwynwr.

